Ymchwil Gymdeithasol Rhif: 55/2024

Dyddiad Cyhoeddi: 17/07/2024

# Adolygiad o'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg yng Nghymru

This document is also available in English.

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83625-355-6

Adolygiad o'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg yng Nghymru

Awduron: Nia Bryer, Heledd Bebb a Tanwen Grover, Ymchwil OB3

Bryer, N; Bebb, H; a Grover, T. (2024). *Adolygiad o'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 55/2024.
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/adolygiad-or-lwfans-cynhaliaeth-addysg-rhagfyr-2023-i-mai-2024-adroddiad-terfynol

Safbwyntiau'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Emma Hall
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd

**Ebost: : cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru**

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 6
2. Methodoleg ........ 9
3. Trosolwg o'r cynllun LCA yng Nghymru ........ 28
4. Y nifer sy'n manteisio ar yr LCA yng Nghymru ........ 39
5. Dyluniad LCA ........ 55
6. Sut mae'r LCA yn cyd-fynd â chymorth ariannol arall i fyfyrwyr ........ 67
7. Clywed am yr LCA a gwneud cais amdano ........ 76
8. Cytundebau Dysgu LCA a monitro presenoldeb ........ 92
9. Y defnydd o'r LCA a'i bwysigrwydd ........ 105
10. Y gwahaniaeth a wneir ........ 120
11. Cymhariaeth â gwledydd eraill ........ 137
12. Y dyfodol ........ 151
13. Casgliadau ac argymhellion ........ 155

Cyfeiriadau ........ 165

## Rhestr o'r tablau a'r ffigurau


Tabl 2.1: Cyfradd ymateb ymgeiswyr am LCA i'r arolwg ........................................ 11

Tabl 2.2: Fframwaith samplu arfaethedig ............................................................... 12

Tabl 2.3: Sampl terfynol o Ganolfannau Dysgu ...................................................... 13

Tabl 2.4: Canlyniad y ceisiadau am LCA a wnaed gan yr ymatebwyr i'r arolwg....... 17

Tabl 2.5: Lleoliad addysg yr ymatebwyr i'r arolwg .................................................. 18

Tabl 2.6: Proffil o'r ymatebwyr i'r arolwg.................................................................. 18

Tabl 2.7: Rhyw yr ymatebwyr i'r arolwg ................................................................... 19

Tabl 2.8: Cymorth ariannol arall a dderbyniwyd gan yr ymatebwyr i'r arolwg (gyda 96 y cant ohonynt yn derbyn LCA ar hyn o bryd neu wedi'i dderbyn yn y gorffennol) ............................................................................................ 20

Tabl 2.9: Caledi bwyd a brofwyd gan ymatebwyr i'r arolwg yn y 12 mis blaenorol oherwydd diffyg arian neu adnodd arall ...................................................... 22

Tabl 2.10: Proffil o gyfranwyr grwpiau ffocws mewn 10 Canolfan Ddysgu yr ymwelwyd â nhw a'r rhai y cyfwelwyd â nhw a oedd wedi derbyn LCA yn y gorffennol.............................................................................................. 23

Tabl 4.1: Ceisiadau am LCA a'r niferoedd a gymeradwywyd fesul blwyddyn academaidd .......................................................................................... 40

Tabl 4.2: Ceisiadau am LCA a gymeradwywyd o gymharu â niferoedd cyffredinol y myfyrwyr ................................................................................................ 42

Tabl 4.3: Ceisiadau am LCA a gymeradwywyd fesul blwyddyn academaidd a math o Ganolfan Dysgu......................................................................................... 43

Tabl 4.4: Ceisiadau am LCA a gymeradwywyd fesul ardal awdurdod lleol .............. 45

Tabl 4.5: Ceisiadau am LCA a gymeradwywyd fesul blwyddyn academaidd a rhywedd ................................................................................................... 49

Tabl 4.6: Ceisiadau am LCA a gymeradwywyd fesul blwyddyn academaidd ac oed 50

Tabl 4.7: Ceisiadau am LCA a gymeradwywyd yn ôl incwm aelwydydd a nifer y dibynyddion ........................................................................................... 50

Tabl 4.8: Ymgeiswyr LCA â phrofiad o fod mewn gofal y cymeradwywyd eu ceisiadau ............................................................................................... 51

Tabl 5.1: Barn ymgeiswyr am LCA ar y lwfans o £40 .............................................. 63

Tabl 5.2: Ymgeiswyr am LCA sy'n ystyried bod y lwfans o £40 yn rhy isel a beth y dylai'r lwfans LCA fod ......................................................................... 64

Tabl 6.1: Nifer a gwerth dyfarniadau y Gronfa Ariannol Wrth Gefn a wnaed yn ystod y flwyddyn academaidd 2022/23 ............................................................ 69

Tabl 6.2: Lwfansau bwyd a ddarperir gan golegau AB ............................................ 75

Tabl 7.1: Pa mor hawdd oedd y ffurflen gais LCA i'w chwblhau ............................... 82
Tabl 7.2: Pa mor hawdd oedd dod hyd i'r wybodaeth angenrheidiol i gefnogi cais am LCA ........................................................................................................ 83
Tabl 8.1: Ai presenoldeb yw'r ffordd orau o ddyfarnu'r LCA ..................................... 97
Tabl 9.1: Sut y mae'r ymatebwyr i arolwg LCA mewn lleoliadau coleg ac ysgol yn gwario eu LCA ........................................................................................ 106
Tabl 9.2: Pwysigrwydd yr LCA i ddysgwyr mewn colegau ac ysgolion .................. 111
Tabl 9.3: Pwysigrwydd yr LCA o ran talu costau cynyddol ar gyfer eitemau hanfodol fel bwyd, nwy a thrydan ........................................................................ 112
Tabl 9.4: Y categorïau gwariant y byddai derbynyddion sydd yn y coleg neu'r ysgol, a gymerodd ran yn yr arolwg, yn mynd hebddynt, yn peidio â'u prynu, neu’n prynu llai ohonynt heb yr LCA.................................................................. 113
Tabl 9.5: Poeni ynghylch ymdopi'n ariannol pe baent wedi parhau i astudio yn yr ysgol neu'r coleg ............................................................................... 119
Tabl 10.1: P'un a yw'r LCA yn helpu'r derbynyddion i fynd i'r ysgol neu'r coleg yn fwy rheolaidd ............................................................................................ 124
Tabl 10.2: A fyddai derbyn LCA yn galluogi'r rhai nad ydynt yn ei dderbyn i gymryd mwy o ran mewn gwersi ...................................................................... 129
Tabl 10.3: A yw derbynyddion LCA yn fwy abl i gymryd rhan mewn teithiau a gweithgareddau allgyrsiol ......................................................................... 130
Tabl 10.4: P'un a fyddai gan y rhai nad ydynt yn derbyn yr LCA ar hyn o bryd fwy o amser i astudio y tu allan i'r ysgol neu'r coleg pe baent yn derbyn y lwfans ................................................................................................................ 133
Tabl 11.1: Yr LCA yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru ............................... 144

Ffigur 4.1: Ceisiadau am LCA a'r niferoedd a gymeradwywyd fesul blwyddyn academaidd ................................................................................................ 41
Ffigur 4.2: Ceisiadau am LCA a gymeradwywyd fesul ardal awdurdod lleol o gymharu â’r holl gofrestriadau yn ôl math o Ganolfan Ddysgu 2022/23 ...... 49
Ffigur 4.3: Cymwysterau a astudiwyd gan ymgeiswyr y cafodd eu ceisiadau am LCA eu cymeradwyo ......................................................................................... 48
Ffigur 7.1: Enghraifft o hafan cyllid myfyrwyr coleg AB ............................................ 78
Ffigur 10.1: Pwysigrwydd derbyn yr LCA er mwyn gallu aros mewn addysg ......... 120
Ffigur 10.2: A yw derbynyddion LCA yn fwy abl i gymryd rhan mewn gwersi oherwydd y lwfans ................................................................................ 128
Ffigur 10.3: A oes gan dderbynyddion LCA fwy o amser i astudio y tu allan i oriau ysgol neu coleg........................................................................................ 132

## Geirfa

| Acronym/Allweddair | Diffiniad |
|---|---|
| AB | Addysg Bellach |
| ADY | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| AS | Aelod o'r Senedd |
| BTEC | Cyngor Addysg Busnes a Thechnoleg |
| COLIN | Rhwydwaith Swyddogion Gofalwyr Ifanc Awdurdodau Lleol |
| COVID-19 | Clefyd y Coronafeirws 2019 |
| DU | Y Deyrnas Unedig |
| ESOL | Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill |
| EUSS | Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd |
| GNVQ | Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol Cyffredinol |
| LCA | Lwfans Cynhaliaeth Addysg |
| NEET | Pobl Nad Ydynt Mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant |
| NVQ | Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol |
| PDG | Grant Datblygu Disgyblion |
| QR | Ymateb Cyflym |
| SAB | Sefydliadau Addysg Bellach |
| SLC | Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr |
| TGAU | Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd |
| UCM | Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr |

| **Termau cyffredin** | **Diffiniad** |
|---|---|
| Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | Anhawster dysgu neu anabledd sy'n ei gwneud yn anoddach i berson ddysgu |
| Dysgwr sydd â phrofiad o ofal | Dysgwr sydd wedi derbyn gofal neu sy’n derbyn gofal gan Awdurdod Lleol, gan gynnwys gofal maeth neu sy’n aros mewn Cartref Plant |
| Cytundeb Dysgu LCA | Cytundeb a wneir rhwng dysgwr ac ysgol neu goleg, yn nodi'r amodau ar gyfer talu'r LCA |
| Canolfan Ddysgu | Defnyddir y term Canolfan Ddysgu drwy'r adroddiad cyfan ac mae'n cyfeirio at golegau addysg bellach, colegau chweched dosbarth ac ysgolion. |
| Gofalwr ifanc | Person ifanc sy’n gofalu am aelod arall o’r teulu, fel plentyn, rhiant, chwaer neu frawd |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Penodwyd Ymchwil OB3 gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2023 i gynnal adolygiad o’r Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) yng Nghymru.

1.2 Nod yr adolygiad oedd ymchwilio i effeithiau’r LCA yng Nghymru ac adolygu’r meini prawf cymhwystra presennol a gwerth y dyfarniad. Roedd disgwyl hefyd i'r adolygiad gynnig argymhellion i lywio polisïau a phenderfyniadau'n ymwneud â buddsoddi yn y cynllun yn y dyfodol.

1.3 Roedd disgwyl i’r adolygiad asesu:

- effaith yr LCA ar benderfyniadau dysgwyr i ymgymryd ag astudiaethau ôl-16 (gan ystyried y gyfradd flaenorol o £30 a'r gyfradd uwch newydd o £40 o fis Ebrill 2023 ymlaen)
- effaith yr LCA ar ymgysylltiad dysgwyr â'u hastudiaethau ar ôl iddynt gofrestru
- effaith yr LCA ar allu dysgwyr i ymdopi â phwysau ariannol yn fwy cyffredinol, yn benodol yng ngoleuni'r argyfwng costau byw
- y meini prawf cymhwystra a gwerth cymorth yr LCA
- sut y dylid parhau i adolygu meini prawf a gwerth y cymorth yn y dyfodol
- ai’r model LCA yw’r model mwyaf effeithiol ac effeithlon i gefnogi dysgwyr, gan gynnwys dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal ynteu a ddylid ystyried modelau amgen.

1.4 Cynhaliwyd yr adolygiad rhwng mis Rhagfyr 2023 a mis Mai 2024. Roedd y fethodoleg yn cynnwys ymchwil desg a gwaith maes gydag ystod eang o gyfranwyr gan gynnwys Canolfannau Dysgu a derbynyddion LCA.

1.5 Cyflwynir yr adroddiad hwn mewn 13 o benodau, fel a ganlyn:

- pennod un: cyflwyniad i'r adroddiad
- pennod dau: methodoleg yr astudiaeth
- pennod tri: trosolwg o'r cynllun LCA yng Nghymru a chyd-destun polisi Cymru
- pennod pedwar: trosolwg o'r nifer sy'n manteisio ar y cynllun a phroffil y derbynyddion a gefnogir ganddo
- pennod pump: canfyddiadau'r gwaith maes o ran dyluniad y cynllun
- pennod chwech: trosolwg o'r sefyllfa o ran cymorth ariannol i fyfyrwyr Addysg Bellach (AB) yng Nghymru a sut y mae'r LCA yn cyd-fynd â hynny
- pennod saith: canfyddiadau’r gwaith maes ynglŷn â sut y mae’r LCA yn cael ei hyrwyddo, sut y mae dysgwyr yn dod i glywed amdano a’u profiadau o wneud cais i’r cynllun
- pennod wyth: canfyddiadau'r gwaith maes mewn perthynas â'r defnydd o Gytundebau Dysgu LCA a sut y caiff presenoldeb ei fonitro
- pennod naw: canfyddiadau’r gwaith maes o ran sut y mae’r LCA yn cael ei ddefnyddio gan y derbynyddion a’r pwysigrwydd a roddir i’r lwfans
- pennod 10: y dystiolaeth am y gwahaniaeth a wnaed i dderbynyddion LCA
- pennod 11: trosolwg o'r sefyllfa o ran cymorth i fyfyrwyr AB yng ngwledydd eraill y DU a chanfyddiadau’r gwaith maes gyda rhanddeiliaid a Chanolfannau Dysgu sydd wedi’u lleoli y tu allan i Gymru
- pennod 12: crynodeb o'r canfyddiadau allweddol am ddyfodol yr LCA
- pennod 13: ein casgliadau a'n hargymhellion.

1.6 Darperir yr atodiadau canlynol ar wahân mewn Adroddiad Technegol:

- Atodiad A: canllawiau trafod a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwaith maes
- Atodiad B: offeryn arolwg ar gyfer ymgeiswyr am LCA.

## 2. Methodoleg

2.1 Mae'r bennod hon yn disgrifio'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer cynnal yr adolygiad, yn rhoi proffil o'r cyfranwyr ac yn amlinellu rhai ystyriaethau methodolegol allweddol.

### Dull

2.2 Roedd y gweithgareddau adolygu a gynhaliwyd rhwng mis Hydref 2023 a mis Ebrill 2024 yn cynnwys y canlynol.

*Cam cychwynnol*

2.3 Roedd y cam cychwynnol yn cynnwys cyfarfod cychwynnol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, cynnal cyfweliadau cwmpasu gyda thri o swyddogion Llywodraeth Cymru, un cynrychiolydd o’r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (SLC) a chynrychiolydd o Voices from Care Cymru, a pharatoi dull methodolegol wedi’i fireinio a chynllun prosiect.

*Ymchwil desg*

2.4 Roedd hyn yn cynnwys:

- dadansoddiad o ddogfennau polisi a dogfennau strategol perthnasol gan gynnwys cyhoeddiadau Gweinidogion yn ymwneud â’r Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA)
- adolygiad llenyddiaeth o ddogfennau'r LCA, canllawiau a llenyddiaeth lwyd yn ymwneud â gweinyddu'r cynllun
- dadansoddiad o'r data cyhoeddedig sydd ar gael ers i'r cynllun gael ei gyflwyno gyntaf yn y flwyddyn academaidd 2004/05[1]; a data gwybodaeth reoli dienw ar yr LCA gan SLC sy’n cwmpasu’r deng mlynedd rhwng y blynyddoedd academaidd 2014/15 a 2023/24
- nodi ac adolygu'r cymorth ariannol arall sydd i fyfyrwyr Addysg Bellach (AB) yng Nghymru
- adolygu dogfennau ac unrhyw dystiolaeth werthuso sy'n ymwneud â chynlluniau tebyg ledled y DU.

[1] Ar gael yn Lwfansau Cynhaliaeth Addysg (addysg bellach) (llyw.cymru)

2.5 Roedd hefyd yn cynnwys:

- paratoi Hysbysiadau Preifatrwydd a Thaflenni Gwybodaeth perthnasol, gan gynnwys fersiynau hygyrch
- paratoi canllawiau trafod ar gyfer cyfweld ag amrywiol gyfranwyr gan gynnwys y rhai sy'n derbyn LCA ar hyn o bryd, y rhai nad ydynt yn derbyn LCA, darpar dderbynyddion LCA, rhieni/gwarcheidwaid derbynyddion LCA, Canolfannau Dysgu, a rhanddeiliaid allweddol eraill. Paratowyd cyfres o ffurflenni byr hefyd a oedd yn cynnwys rhai cwestiynau caeëdig a oedd yn adlewyrchu'r rhai a ddefnyddiwyd yn yr arolwg hefyd i'w cwblhau gan gynrychiolwyr AB ac ysgolion a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws. Mae’r canllawiau trafod a’r ffurflenni byr i’w gweld yn Atodiad A
- derbyn data cysylltiadau SLC ar gyfer:
  - Canolfannau Dysgu, ac
  - ymgeiswyr am LCA ar gyfer tair blwyddyn academaidd, sef 2021/22, 2022/23, a 2023/24.

*Gwaith maes: arolwg ar-lein o ymgeiswyr am LCA*

2.6 Roedd hyn yn cynnwys:

- paratoi arolwg dwyieithog ar-lein ar gyfer ymgeiswyr am LCA, a sgriptio hwn gan ddefnyddio meddalwedd SNAP XMP. Mae’r arolwg hwn i’w weld yn Atodiad B
- dosbarthu'r arolwg ar-lein drwy e-bost i gronfa ddata o 13,737 o ymgeiswyr am LCA. Roedd yr ymgeiswyr hyn wedi cydsynio i'w data gael eu defnyddio at ddibenion ymchwil ac ystadegol, yn unol â Hysbysiad Preifatrwydd SLC. Dosbarthwyd yr arolwg i:
  - y rhai a ymgeisiodd yn ystod 2023/24 (7,274)
  - y rhai 16 oed a ymgeisiodd yn ystod 2022/23 (6,463)
- dewiswyd y ddwy garfan hyn ar y sail mai'r rhain fyddai'r rhai mwyaf tebygol o fod mewn addysg bellach o hyd neu o fod â phrofiad diweddar o wneud cais am yr LCA a'i dderbyn. Anfonwyd

gwahoddiad cychwynnol ar 27 Chwefror 2024 yn gwahodd ymgeiswyr i gwblhau'r arolwg, ac anfonwyd hyd at ddwy neges atgoffa i'r rhai na wnaethant ymateb. Gallai'r rhai a ddewisodd beidio ag ymateb optio allan rhag derbyn unrhyw negeseuon atgoffa. Daeth yr arolwg i ben ar 22 Mawrth 2024

- cynigiwyd cyfle i ennill gwobr o £50 i'r rhai a ymatebodd i'r arolwg. Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn dymuno cael eu cynnwys yn y gystadleuaeth i ddarparu cyfeiriad e-bost drwy ffurflen gofrestru ar wahân a dewiswyd enillydd ar hap ar 16 Ebrill 2024
- fel y dangosir yn Nhabl 2.1, cafwyd cyfanswm o 2,731 o ymatebion, sy'n cynrychioli cyfradd ymateb o bron i 20 y cant (o gyfanswm y boblogaeth y cysylltwyd â hi) a 23 y cant o'r gwahoddiadau a ddosbarthwyd, gan nad oedd rhai manylion yn gweithio. Dechreuodd 646 o unigolion eraill lenwi'r arolwg neu fe wnaethant ei gwblhau'n rhannol, ond ni chafodd y rhain eu cynnwys yn y dadansoddiad o ddata'r arolwg. Ceir rhagor o fanylion am broffil yr ymatebwyr i'r arolwg o adran 2.15 ymlaen. Nid yw sampl yr arolwg yn sampl gynrychioliadol o boblogaeth gyfan yr ymgeiswyr am LCA, a cheir gorgynrychiolaeth o ymgeiswyr benywaidd, ond mae'n rhoi cipolwg o'r profiadau o ymgeisio am yr LCA, pwysigrwydd y gronfa a barn am ddyfodol y cynllun.

**Tabl 2.1: Cyfradd ymateb ymgeiswyr am LCA i'r arolwg**

| Statws arolwg | Nifer | % |
|---|---:|---:|
| Wedi cwblhau'r arolwg | 2,731 | 20% |
| Neges heb gyrraedd pen ei thaith | 1,967 | 14% |
| Wedi optio allan | 166 | 1% |
| Ymatebion cychwynnol neu rannol | 646 | 5% |
| Anhysbys | 8,227 | 60% |
| Cyfanswm y cysylltiadau | 13,737 | 100% |

Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3, Mawrth 2024

*Gwaith maes: ymweliadau â Chanolfannau Dysgu yng Nghymru*

2.7 Roedd hyn yn cynnwys:

- datblygu fframwaith samplu fel sail ar gyfer dewis 10 Canolfan Ddysgu yng Nghymru i ymweld â nhw, fel y nodir yn Nhabl 2.2

**Tabl 2.2: Fframwaith samplu arfaethedig**

| Cymru | Y gogledd (3) | Y De-orllewin/ Canolbarth (3) | Y de-ddwyrain (4) |
|---|---|---|---|
| SABau (5)<br>Ysgolion (5) | • 1 SAB<br>• 1 cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog<br>• 1 cyfrwng Saesneg | • 2 SAB<br>• 1 cyfrwng Saesneg | • 2 SAB<br>• 1 cyfrwng Cymraeg<br>• 1 cyfrwng Saesneg |

- dewis pum SAB yn unol â'r fframwaith samplu. Dewiswyd SAB arall o ranbarth y de-ddwyrain i gymryd lle un SAB yn rhanbarth y de-orllewin/canolbarth oherwydd diffyg ymateb gan yr SAB y cysylltwyd ag ef yn wreiddiol

- cysylltwyd â Chyfarwyddwyr Addysg awdurdodau lleol i nodi ysgolion a fyddai'n fodlon i ymchwilydd OB3 ymweld â nhw, a nodwyd pedair ysgol a oedd yn bodloni'r fframwaith samplu yn y modd hwn. Recriwtiwyd y bumed ysgol gan y tîm ymchwil, gan ddefnyddio data cyswllt y Ganolfan Ddysgu a ddarparwyd gan SLC. Roedd y sampl terfynol, a nodir yn Nhabl 2.3, ychydig yn wahanol i’r hyn a fwriadwyd gan fod yr ysgol ddwyieithog a recriwtiwyd wedi’i lleoli yng nghanolbarth Cymru, yn hytrach na'r gogledd

**Tabl 2.3: Sampl terfynol o Ganolfannau Dysgu**

| Cymru | Y gogledd (2) | Y De-orllewin/ Canolbarth (3) | Y de-ddwyrain (5) |
|---|---|---|---|
| SABau (5) Ysgolion (5) | • 1 SAB<br>• 1 cyfrwng Saesneg | • 1 SAB<br>• 1 cyfrwng Saesneg<br>• 1 dwyieithog | • 3 SAB<br>• 1 cyfrwng Cymraeg<br>• 1 cyfrwng Saesneg |

- ymweld â phum SAB a:
  - chyfweld â chyfanswm o 17 aelod o staff AB, fel arfer aelodau o dimau cymorth myfyrwyr fel Penaethiaid Cymorth i Fyfyrwyr, Cydlynwyr Llesiant Myfyrwyr a gweinyddwyr LCA. Cyfrannodd rhai staff mewn un SAB at gyfweliad yn Gymraeg
  - hwyluso grŵp ffocws gyda derbynyddion LCA ym mhob un. Cyfrannodd cyfanswm o 25 o dderbynyddion LCA at y trafodaethau hyn. Hwyluswyd un grŵp ffocws yn ddwyieithog
  - hwyluso grŵp ffocws gyda'r rhai nad oeddent yn derbyn LCA ym mhob sefydliad. Cyfrannodd cyfanswm o 23 o ddysgwyr at y trafodaethau hyn a hwyluswyd un grŵp ffocws yn ddwyieithog
- ymweld â phum lleoliad ysgol uwchradd. O blith y rhain, roedd tri yn ysgolion cyfrwng Saesneg, un yn ddwyieithog ac un yn ysgol cyfrwng Cymraeg. At ei gilydd, roedd hyn yn cynnwys:
  - cyfweld â naw aelod o staff ysgol, yn nodweddiadol Penaethiaid y Chweched Dosbarth a Swyddogion Lles y Chweched Dosbarth. Cynhaliwyd un o'r cyfweliadau hyn yn Gymraeg
  - hwyluso grŵp ffocws ym mhob ysgol gyda derbynyddion LCA. Cyfrannodd cyfanswm o 27 o dderbynyddion LCA at y trafodaethau hyn. Cynhaliwyd pedwar grŵp ffocws yn Saesneg ac un yn Gymraeg

- hwyluso grŵp ffocws gyda dysgwyr Blwyddyn 11. Cyfrannodd cyfanswm o 16 o ddysgwyr o dair ysgol at y trafodaethau hyn, pob un wedi’i hwyluso yn Saesneg.

*Gwaith maes gyda phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal*

2.8 Roedd hyn yn cynnwys casglu adborth gan 12 o bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal. Recriwtiwyd y cyfranogwyr hyn mewn dwy ffordd:

- recriwtiwyd pedwar dysgwr presennol a oedd yn derbyn yr LCA drwy ddefnyddio cronfa ddata SLC. Gwahoddwyd yr holl ymgeiswyr LCA o'r flwyddyn academaidd 2023/24 y cafodd eu ceisiadau eu cymeradwyo ac a oedd â phrofiad o fod mewn gofal (cyfanswm o 223) i gymryd rhan mewn grŵp trafod rhithwir. Dywedodd pump y byddent yn cyfrannu at y drafodaeth grŵp ond roedd presenoldeb isel yn golygu y cafodd y dysgwyr eu cyfweld ar sail un-i-un, dros y ffôn a thros Teams
- recriwtiwyd yr ail grŵp o wyth o bobl ifanc drwy Voices from Care Wales. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys saith cyfranogwr a oedd wedi derbyn LCA yn flaenorol tra roeddent mewn addysg ôl-16 ac un unigolyn a oedd yn meddwl ei bod yn debygol y byddai'n gwneud cais am yr LCA yn y dyfodol.

*Gwaith maes gyda'r rhai a oedd wedi derbyn LCA yn y gorffennol*

2.9 Roedd hyn yn cynnwys:

- recriwtio a chyfweld ag 17 o'r rhai a oedd wedi derbyn yr LCA yn y gorffennol. Crëwyd sampl ar hap o ymgeiswyr llwyddiannus am yr LCA o gronfeydd data 2021/22 a 2022/23 a ddarparwyd gan SLC. Er mwyn targedu ymadawyr diweddar, canolbwyntiodd y broses recriwtio ar dderbynyddion LCA a oedd yn 16 ac 17 oed pan gawsant gymorth yn 2021/22 ac yn 17 a 18 oed pan gawsant gymorth yn 2022/23.

*Gwaith maes gyda rhieni*

2.10 Roedd hyn yn cynnwys:

- gofyn am ddata cyswllt neu gael ein cyflwyno i ddau riant, gwarcheidwad neu noddwyr derbynyddion LCA ym mhob un o'r 10 Canolfan Ddysgu yr ymwelwyd â nhw yng Nghymru a chynnal chwe chyfweliad gyda rhieni/gwarcheidwaid gyda phlant o bedair Canolfan Ddysgu[2].

*Gwaith maes gyda Chanolfannau Dysgu yn Lloegr*

2.11 Roedd hyn yn cynnwys:

- dewis a chysylltu â chwe Chanolfan Ddysgu yn Lloegr sydd wedi'u lleoli'n agos at y ffin rhwng Cymru a Lloegr i ymweld â nhw, er mwyn deall y gwahanol gyd-destun cyllid myfyrwyr yn well, gyda'r bwriad o wneud gwaith maes mewn tair o'r rhain
- cynnal cyfweliadau rhithwir drwy Teams gyda chynrychiolwyr staff mewn dwy o'r rhain. Mewn un lleoliad, cytunodd y staff i recriwtio dysgwyr a oedd yn cael cymorth o'r Gronfa Bwrsariaeth ond fel y digwyddodd dim ond un dysgwr o'r fath a gafodd ei gyfweld.

*Gwaith maes gyda chynrychiolwyr staff Canolfannau Dysgu*

2.12 Roedd hyn yn cynnwys hwyluso trafodaethau grŵp ffocws rhithwir gyda:

- wyth aelod o staff SAB. Gwahoddwyd aelod o'r tîm ymchwil i fynychu cyfarfod o'r Rhwydwaith Gwasanaethau Dysgwyr AB[3] a gynhaliwyd yn ystod mis Mawrth 2024. Mynychodd wyth cyfrannwr o saith SAB gwahanol y sesiwn ac roedd y rhain yn dal swyddi megis Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaethau Cymorth i Ddysgwyr / Myfyrwyr[4]

[2] Mewn un achos cafodd rhiant dysgwr nad oedd yn derbyn LCA ei gyfweld.
[3] Roedd y rhain yn cynnwys cynrychiolwyr o ddau SAB a gymerodd ran yn yr ymweliadau gwerthuso hefyd.
[4] Gan na threfnwyd y digwyddiad hwn gan y tîm gwerthuso, nid oedd modd nodi dewis iaith y cyfranwyr ymlaen llaw. Hwyluswyd y drafodaeth yn Saesneg.

- pedwar aelod o staff ysgol. Trefnwyd y sesiwn hon gan y tîm ymchwil. Dewiswyd sampl ar hap o 50 o ysgolion uwchradd yng Nghymru o gronfa ddata Canolfannau Dysgu SLC a'u gwahodd i fynychu trafodaeth ar Microsoft Teams. Yn ogystal â hynny, gwahoddwyd ysgolion a oedd wedi mynegi diddordeb mewn cael ymweliad gan yr ymchwilwyr i fod yn bresennol hefyd. Cofrestrodd cyfanswm o wyth unigolyn ar gyfer y digwyddiad a mynegodd pob un y byddai'n well ganddo gyfrannu yn Saesneg. Mynychodd pedwar cyfrannwr y sesiwn ac roedd y rhain yn dal swyddi Swyddog Chweched Dosbarth, Mentor Chweched Dosbarth, Rheolwr Adnoddau Dysgu ac athro ôl-16.

*Gwaith maes gyda rhanddeiliaid*

2.13 Roedd hyn yn cynnwys:

- cyfweld â chwe chynrychiolydd o bedwar sefydliad rhanddeiliaid (Gyrfa Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, UCM Cymru, a Cholegau Cymru) yn ogystal â thri aelod o staff Llywodraeth Cymru). Bu aelod o’r tîm ymchwil hefyd yn hwyluso trafodaeth ag aelodau o Rwydwaith Swyddogion Gofalwyr Ifanc Awdurdodau Lleol (COLIN).
- hwyluso trafodaethau â grwpiau bach gyda chwe chynrychiolydd o Weithrediaeth Gogledd Iwerddon a dau gynrychiolydd o Lywodraeth yr Alban i drafod gweithredu’r LCA yn eu priod wledydd; yn ogystal â chynrychiolydd o'r Adran Addysg, Llywodraeth y DU i drafod y Gronfa Bwrsariaeth.

*Dadansoddi a pharatoi adroddiad*

2.14 Roedd hyn yn cynnwys:

- cyfuno canfyddiadau'r ymchwil desg a'r gwaith maes gan ddefnyddio dull thematig, cyflwyno'r canfyddiadau i swyddogion polisi Llywodraeth Cymru, a pharatoi'r adroddiad hwn.

**Proffil y dysgwyr a gyfrannodd at yr arolwg**

*Ymatebwyr i'r arolwg*

2.15 Dewisodd y mwyafrif (98 y cant neu 2,669) gwblhau'r arolwg yn Saesneg a dewisodd dau y cant (62) ei gwblhau yn Gymraeg.

2.16 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r arolwg yn ymgeiswyr llwyddiannus am LCA (96 y cant neu 2,627 o ymatebwyr) ac yn astudio mewn ysgol neu goleg ar hyn o bryd, fel y nodir yn Nhabl 2.4. Roedd ymgeiswyr aflwyddiannus am LCA yn cyfrif am dri y cant o'r ymatebwyr i'r arolwg ac roedd y rhain, ynghyd â'r rhai a ddywedodd nad oeddent yn gwybod canlyniad eu cais (llai nag un y cant)[5], yn cyfateb yn fras i'r boblogaeth gyffredinol o ymgeiswyr aflwyddiannus a wahoddwyd i gwblhau'r arolwg (4.5 y cant).

**Tabl 2.4: Canlyniad y ceisiadau am LCA a wnaed gan yr ymatebwyr i'r arolwg**

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Cais llwyddiannus am LCA | 2,627 | 96% |
| *yn astudio mewn ysgol neu goleg ar hyn o bryd* | *2,557* | |
| *ddim yn astudio mewn ysgol neu goleg ar hyn o bryd* | *66* | |
| *Dim ymateb* | *4* | |
| Cais aflwyddiannus am LCA | 82 | 3% |
| *yn astudio mewn ysgol neu goleg ar hyn o bryd* | *79* | |
| *ddim yn astudio mewn ysgol neu goleg ar hyn o bryd* | *3* | |
| Ddim yn gwybod canlyniad y cais am LCA | 22 | <1% |
| *Yn astudio mewn ysgol neu goleg ar hyn o bryd* | *16* | |
| *Ddim yn astudio mewn ysgol neu goleg ar hyn o bryd* | *1* | |
| *Dim ymateb* | *5* | |
| Cyfanswm | 2,731 | 100% |

Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3, Mawrth 2024

2.17 Fel y dangosir yn Nhabl 2.5, roedd 72 y cant o'r ymatebwyr i'r arolwg yn astudio mewn coleg ac roedd 28 y cant yn yr ysgol. Mae hyn yn cyd-fynd

[5] Ni chanfu'r arolwg pam nad oeddent yn gwybod canlyniad eu cais, a gallai gynnwys ymgeiswyr a oedd yn aros am benderfyniad yn ogystal â'r rhai nad oeddent yn gallu cofio canlyniad eu cais.

yn fras â phroffil cyffredinol yr holl dderbynyddion LCA, a drafodir yn ddiweddarach ym Mhennod 4.

**Tabl 2.5: Lleoliad addysg yr ymatebwyr i'r arolwg**

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Coleg | 1,902 | 72% |
| Ysgol | *733* | 28% |
| Lleoliad addysg arall | *16* | <1% |
| *Is-gyfanswm* | *2,651* | *100%* |
| Heb ateb | 80 | |
| Cyfanswm | 2,731 | |

Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3, Mawrth 2024

2.18 Fel y dangosir yn Nhabl 2.6, roedd ychydig llai na chwarter yr ymatebwyr i'r arolwg yn 16 oed, roedd eu hanner yn 17 oed, a'u chwarter yn 18 oed.

**Tabl 2.6: Proffil o'r ymatebwyr i'r arolwg**

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| 16 | 659 | 24% |
| 17 | 1,366 | 50% |
| 18 | 679 | 25% |
| 19 neu'n hŷn | 19 | 1% |
| Mae'n well gennyf beidio â dweud | 7 | <1% |
| *Is-gyfanswm* | *2,730* | *100%* |
| Heb ateb | 1 | |
| Cyfanswm | 2,731 | |

Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3, Mawrth 2024

2.19 Roedd ychydig yn llai na dwy ran o dair o'r ymatebwyr i'r arolwg yn fenywod ac ychydig dros draean yn ddynion, fel y dangosir yn Nhabl 2.7. Mae hyn yn orgynrychiolaeth o'r ymatebwyr benywaidd o gymharu â'r boblogaeth gyfan.

**Tabl 2.7: Rhyw yr ymatebwyr i'r arolwg**

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Gwrywod | 951 | 35% |
| Benywod | 1,713 | 63% |
| Mae'n well gennyf beidio â dweud | 63 | 2% |
| *Is-gyfanswm* | *2,727* | *100%* |
| Heb ateb | 4 | |
| Cyfanswm | 2,731 | |

Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3, Mawrth 2024

2.20 Nododd y mwyafrif helaeth (97 y cant neu 2,634 o blith 2,724[6]) fod eu hunaniaeth rhywedd yr un fath â'r rhyw a gofrestrwyd adeg eu geni. Nododd tri y cant (90 o ymatebwyr) fod eu hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg eu geni. O blith y rhai a nododd fod eu hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'w rhyw a gofrestrwyd adeg eu geni: Roedd 31 yn arddel hunaniaeth anneuaidd, 13 yn arddel hunaniaeth wrywaidd, 11 yn arddel hunaniaeth drawsryweddol, saith yn arddel hunaniaeth fenywaidd, a phump yn rhyweddhylifol. Roedd 15 o'r ymatebwyr i'r arolwg yn arddel hunaniaeth arall ac ni wnaeth wyth ateb y cwestiwn hwn.

2.21 At ei gilydd nododd chwech y cant (152 o'r ymatebwyr i'r arolwg) fod ganddynt brofiad o fod mewn gofal[7] a dywedodd 17 y cant (461 o'r ymatebwyr i'r arolwg) eu bod yn ofalwyr ifanc gan eu bod yn gofalu am aelod arall o'r teulu fel plentyn, rhiant, chwaer neu frawd. Dywedodd un rhan o bump, sef 20 y cant (540 o ymatebwyr), fod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol, megis anhawster dysgu neu anabledd a oedd yn ei gwneud yn anos iddynt ddysgu.

2.22 Mae Tabl 2.8 yn nodi'r mathau eraill o gymorth neu gefnogaeth ariannol a dderbyniwyd gan yr ymatebwyr i'r arolwg, gan gynnwys cymorth ariannol arall a dderbyniwyd gan ymatebwyr â phrofiad o fod mewn gofal, y rhai ag ADY a gofalwyr ifanc. Mae'n dangos bod dros draean, sef 36 y cant, wedi cael prydau ysgol neu brydau coleg am ddim tra bod dros chwarter wedi

[6] Ni wnaeth saith ymatebydd ateb y cwestiwn hwn.
[7] Diffiniwyd profiad o fod mewn gofal yn yr arolwg fel rhywun sydd wedi derbyn gofal ar ryw adeg, neu wedi derbyn gofal, gan Awdurdod Lleol, gan gynnwys gofal maeth neu aros mewn Cartref Plant.

cael cludiant i'r ysgol neu'r coleg am ddim neu â chymhorthdal. Roedd cyfrannau ychydig yn uwch o'r ymatebwyr i'r arolwg a oedd â phrofiad o fod mewn gofal, y rhai ag ADY a gofalwyr ifanc yn cael prydau ysgol neu brydau coleg am ddim a chludiant i'r ysgol neu'r coleg am ddim neu â chymhorthdal. Ni dderbyniodd chwarter yr holl ymatebwyr i'r arolwg (24 y cant) unrhyw gymorth neu gefnogaeth ariannol a restrwyd, a chynyddodd hyn i 52 y cant o ymgeiswyr aflwyddiannus sy'n astudio mewn ysgol neu goleg ar hyn o bryd (41 o blith 79 o ymatebwyr). Nid oedd ychydig yn llai nag un rhan o bump, sef 17 y cant neu 476 o ymatebwyr, yn gwybod.

**Tabl 2.8: Cymorth ariannol arall a dderbyniwyd gan yr ymatebwyr i'r arolwg (gyda 96 y cant ohonynt yn derbyn LCA ar hyn o bryd neu wedi'i dderbyn yn y gorffennol)**

| | Pob ymatebydd i'r arolwg | | Ymatebwyr i'r arolwg â phrofiad o fod mewn gofal | | Ymatebwyr i'r arolwg ag ADY | | Ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn ofalwyr ifanc | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Prydau ysgol neu brydau coleg am ddim | 978 | 36% | 62 | 41% | 217 | 40% | 200 | 43% |
| Cludiant i'r ysgol neu'r coleg am ddim neu â chymhorthdal | 737 | 27% | 50 | 33% | 190 | 35% | 135 | 29% |
| Cymorth ariannol gan goleg | 306 | 11% | 21 | 14% | 55 | 10% | 57 | 12% |
| Math arall o gymorth ariannol | 135 | 5% | 12 | 8% | 44 | 8% | 31 | 7% |
| Grant gofal plant | 30 | 1% | 7 | 5% | 9 | 2% | 7 | 2% |
| Dim un o'r uchod | 652 | 24% | 33 | 22% | 108 | 20% | 93 | 20% |
| Ddim yn gwybod | 476 | 17% | 15 | 10% | 83 | 15% | 67 | 15% |
| Cyfanswm | 2,731 | | 152 | | 540 | | 461 | |

Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3, Mawrth 2024. Roedd modd i'r ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn

2.23 Fel y nodir yn Nhabl 2.9, roedd tua hanner yr holl ymatebwyr i'r arolwg (ymgeiswyr a gymeradwywyd ac ymgeiswyr aflwyddiannus) wedi profi rhyw fath o galedi bwyd dros y 12 mis blaenorol gan eu bod wedi teimlo'n llwglyd neu heb fwyta'n iawn ar ryw adeg yn ystod y cyfnod hwnnw. Roedd tuag un rhan o bump o'r rhai a holwyd wedi profi caledi bwyd mwy difrifol, fel mynd

heb fwyd am ddiwrnod cyfan neu roedd y bwyd yn y cartref wedi dod i ben. At ei gilydd, dywedodd cyfrannau uwch o ofalwyr ifanc a ymatebodd i'r arolwg eu bod wedi profi caledi bwyd dros y 12 mis blaenorol, ac roedd 27 y cant yn byw ar aelwydydd ble roedd y bwyd wedi dod i ben yn ystod y cyfnod hwnnw.

**Tabl 2.9: Caledi bwyd a brofwyd gan ymatebwyr i'r arolwg yn y 12 mis blaenorol oherwydd diffyg arian neu adnodd arall**

| | Pob ymatebydd i'r arolwg | | Ymatebwyr i'r arolwg â phrofiad o fod mewn gofal | | Ymatebwyr i'r arolwg ag ADY | | Ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn ofalwyr ifanc | | Ymatebwyr i'r arolwg sy'n cael prydau ysgol/coleg am ddim[8] | | Ymatebwyr i'r arolwg nad ydynt yn cael prydau ysgol/coleg am ddim | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Bwyta ychydig fwydydd yn unig | 1,268 | 52% | 72 | 47% | 298 | 55% | 282 | 61% | 478 | 49% | 790 | 45% |
| Llwglyd ond ddim wedi bwyta | 1,133 | 47% | 74 | 49% | 265 | 49% | 242 | 52% | 413 | 42% | 720 | 41% |
| Bwyta llai nag yr oeddech chi'n meddwl y dylech chi | 1,113 | 46% | 65 | 43% | 266 | 49% | 257 | 56% | 409 | 42% | 704 | 40% |
| Wedi gorfod mynd heb bryd o fwyd | 989 | 41% | 64 | 42% | 228 | 42% | 233 | 51% | 344 | 35% | 645 | 37% |
| Dim modd bwyta bwyd iachus a maethlon | 946 | 39% | 55 | 36% | 240 | 44% | 212 | 46% | 351 | 36% | 592 | 34% |
| Poeni na fyddai ganddynt ddigon o fwyd i'w fwyta | 922 | 34% | 63 | 41% | 239 | 44% | 226 | 49% | 328 | 34% | 594 | 34% |
| Heb fwyta  drwy'r dydd | 540 | 22% | 44 | 29% | 126 | 23% | 151 | 33% | 190 | 19% | 350 | 20% |
| Y bwyd wedi dod i ben yn y cartref | 454 | 19% | 26 | 17% | 107 | 20% | 123 | 27% | 183 | 19% | 271 | 15% |
| Cyfanswm | 2,731 | | 152 | | 540 | | 461 | | 978 | | 1,753 | |

Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3, Mawrth 2024[9]

[8] Yn yr ystyr eu bod yn derbyn prydau ysgol neu goleg am ddim adeg yr arolwg.
[9] Gofynnodd cwestiwn yr arolwg 'Yn ystod y 12 mis diwethaf, a oedd yna adeg, oherwydd diffyg arian neu adnoddau eraill, pan wnaethoch chi fwyta ychydig o fwydydd yn unig' ac ati. Mae’r cwestiynau hyn yn seiliedig ar y Raddfa Profiad o Ddiffyg Diogeledd Bwyd sydd ar gael yma: Food Insecurity Experience Scale | Voices of the Hungry | Food and Agriculture Organization of the United Nations (fao.org)

2.24 Dywedodd chwarter y rhai a holwyd (23 y cant neu 638 o ymatebwyr) fod ganddynt swydd gyflogedig yn ychwanegol at eu hastudiaeth. O blith y rhai a oedd â swydd â thâl:

- roedd ychydig yn llai na'u hanner (49 y cant neu 312 o ymatebwyr) yn gweithio yn ystod yr wythnos
- roedd pedwar o bob pump (81 y cant neu 515) yn gweithio ar y penwythnos
- roedd traean (32 y cant neu 210 o ymatebwyr) yn gweithio yn ystod gwyliau ysgol neu goleg.

*Dysgwyr a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws a'r rhai a oedd wedi derbyn LCA yn y gorffennol*

2.25 Mae Tabl 2.10 yn nodi proffil y 91 o ddysgwyr a gyfrannodd at y grwpiau ffocws a gynhaliwyd mewn SABau ac ysgolion yn ogystal â'r 17 o ddysgwyr a oedd wedi derbyn LCA yn y gorffennol a gafodd eu cyfweld.

**Tabl 2.10: Proffil o gyfranwyr grwpiau ffocws mewn 10 Canolfan Ddysgu yr ymwelwyd â nhw a'r rhai y cyfwelwyd â nhw a oedd wedi derbyn LCA yn y gorffennol**

| | Y rhai sy'n derbyn LCA | Y rhai nad ydynt yn derbyn LCA | Dysgwyr Blwyddyn 11 | Y rhai oedd wedi derbyn LCA yn y gorffennol | Cyfanswm | Fel % o'r cyfranwyr cyffredinol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Profiad o fod mewn gofal | 11 | 4 | 1 | 1 | 17 | 16% |
| Gofalwr ifanc | 11 | 4 | 1 | 1 | 17 | 16% |
| ADY | 14 | 8 | 6 | 4 | 32 | 30% |

Ffynhonnell: OB3 Ymchwil

2.26 O blith y 52 o’r rhai a oedd yn derbyn LCA a gyfrannodd at y grwpiau ffocws a gynhaliwyd mewn SAB:

- roedd dros eu hanner (29) yn cael yr LCA am y tro cyntaf yn ystod y flwyddyn academaidd hon (2023/24) tra bod ychydig yn llai na'u hanner (23) yn ei dderbyn am yr eildro

- dywedodd ychydig yn llai na hanner (24) eu bod yn cael Prydau Ysgol am Ddim neu brydau coleg am ddim, tra bod bron i draean (16) yn cael cludiant am ddim neu gludiant â chymhorthdal i'r ysgol neu'r coleg. Dywedodd llai (dim mwy nag 11 ym mhob achos) eu bod yn derbyn cymorth ariannol arall, megis cymorth ariannol gan y coleg. Dywedodd bron i draean (16) na chawsant unrhyw gymorth ariannol arall a restrwyd ar y ffurflen ac nid oedd pedwar yn gwybod
- roedd gan lai na hanner (23) swydd â thâl. O blith y rhain, roedd 17 yn gweithio ar y penwythnos, 15 yn gweithio yn ystod yr wythnos ac 11 yn gweithio yn ystod y gwyliau[10].

2.27 O blith y 23 o'r rhai nad oeddent yn derbyn LCA a gyfrannodd at y grwpiau ffocws a gynhaliwyd mewn SAB:

- roedd ychydig dros ddwy ran o bump (10) yn cael prydau coleg am ddim, a bron i hanner (11) yn cael cludiant am ddim neu gludiant â chymhorthdal i gyrraedd y coleg. Roedd dau yn cael cymorth ariannol arall gan y coleg a dywedodd dros ddwy ran o bump (10) nad oeddent yn derbyn unrhyw fath arall o gymorth ariannol
- roedd gan bron i bedwar o bob pump (naw) swydd â thâl. O blith y rhain, roedd wyth yn gweithio ar y penwythnos, chwech yn gweithio yn ystod yr wythnos a thri yn gweithio yn ystod y gwyliau.

2.28 O blith yr 16 o ddysgwyr Blwyddyn 11 a gyfrannodd at y grwpiau ffocws a gynhaliwyd mewn ysgolion, darparodd 15 ddata[11]:

- roedd pedair rhan o bump (12) yn cael prydau ysgol am ddim[12]
- roedd chwarter (pedwar) yn gweithio mewn swydd ran-amser: tri yn gweithio ar benwythnosau, dau yn gwneud hynny yn ystod yr wythnos, a dau yn ystod gwyliau ysgol.

*Y rhai oedd wedi derbyn LCA yn y gorffennol*

---

[10] Gallai'r dysgwyr ddewis mwy nag un opsiwn.
[11] Nid oedd un dysgwr yn dymuno llenwi ffurflen bapur.
[12] Nid yw'r gyfran uchel hon yn syndod o ystyried bod ysgolion yn cael eu hannog i recriwtio cyfranogwyr i'r grwpiau ffocws o'r garfan hon, gan eu bod yn ffurfio carfan recriwtio bwysig ar gyfer y LCA.

2.29 Cynhaliwyd cyfweliadau ag 17 o ddysgwyr a oedd wedi derbyn LCA yn y gorffennol. O blith y rhain:

- roedd ychydig yn llai na'u hanner (wyth) wedi derbyn yr LCA yn ystod 2021/22 a thros eu hanner (naw) wedi ei dderbyn yn ystod 2022/23
- adeg y cyfweliad roedd pedwar yn 18 oed, naw yn 19 oed a phedwar yn 20 oed
- roedd traean (chwech) wedi cael cludiant am ddim neu â chymhorthdal i'r ysgol neu'r coleg, tra bod un rhan o ddeg (dau) yn cofio derbyn Prydau Ysgol am Ddim neu lwfans cinio coleg am ddim tra roeddent mewn addysg ôl-16. Roedd dau wedi derbyn cymorth ariannol gan y coleg i brynu offer a llyfrau ar gyfer eu cwrs. Nid oedd ychydig yn llai na'u hanner (wyth) wedi derbyn unrhyw gymorth ariannol heblaw LCA.

**Proffil y rhieni a gyfrannodd at yr arolwg**

2.30 Cyfwelwyd â chyfanswm o chwe rhiant yn ystod y gwerthusiad ac roedd gan bob un o'r chwech blant a oedd yn mynychu colegau AB. Mewn pum achos, roedd eu plentyn yn derbyn yr LCA ac yn y chweched achos nid oedd eu plentyn, a oedd yn 20 oed adeg y gwaith maes ac ADY, yn gymwys i wneud cais am yr LCA. Yn yr achos hwn, nid oedd wedi gwneud cais am yr LCA gan ei fod yn ymwybodol na fyddai wedi bod yn gymwys oherwydd bod incwm yr aelwyd fymryn yn uwch na'r trothwy.

2.31 Roedd proffil pum rhiant y plant sy'n derbyn yr LCA ar hyn o bryd fel a ganlyn:

- roedd gan un ohonynt blentyn 16 oed, roedd gan dri blentyn 17 oed ac roedd gan un blentyn 18 oed
- dywedodd pedwar rhiant fod ganddynt blant eraill mewn addysg hefyd
- roedd tri yn rhieni sengl ac roedd gan ddau oedolyn arall a oedd yn byw ar yr aelwyd

- dywedodd un rhiant ei fod wedi mabwysiadu plentyn â phrofiad o fod mewn gofal
- dywedodd un rhiant fod ei blentyn yn ofalwr ifanc
- dywedodd dau riant fod gan eu plant ADY
- dywedodd pedwar rhiant eu bod yn derbyn rhyw fath o fudd-daliadau incwm gan gynnwys Credydau Treth Gwaith, Credyd Cynhwysol a budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd neu gyflwr iechyd.

**Ystyriaethau methodolegol**

2.32 Mabwysiadwyd dull cymysg ar gyfer yr adolygiad a oedd yn cynnwys adolygiad pen desg o ddogfennau a data, gan gynnwys data monitro LCA a oedd ar gael i'r tîm ymchwil drwy SLC; yn ogystal â gwaith ymchwil cynradd gydag ystod eang o gyfranwyr gan gynnwys dysgwyr presennol a blaenorol, staff a rhanddeiliaid. Roedd yn bwysig cofnodi llais y dysgwyr ac roedd proffil eang y dysgwyr a gyfrannodd at yr adolygiad yn golygu bod gan yr astudiaeth sampl gadarn o ddysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal, gofalwyr ifanc, a'r rhai ag ADY.

2.33 Roedd yr astudiaeth yn dibynnu ar Ganolfannau Dysgu i adnabod a recriwtio dysgwyr presennol i gymryd rhan mewn trafodaethau grŵp ffocws, felly roedd elfen o duedd dethol yn y sampl a gyfrannodd at yr adolygiad. Darparodd yr ymchwilwyr ganllawiau manwl i Ganolfannau Dysgu am broffil y dysgwyr yr oeddent am eu cyfweld, gan gynnwys gofyn am drawstoriad o ddysgwyr o ran oedran, y pynciau a astudiwyd ganddynt, a nodweddion eraill megis profiad o fod mewn gofal ac ADY. Yn y rhan fwyaf o achosion, cynhaliwyd sesiwn friffio gychwynnol rithwir dros Teams gyda staff y Ganolfan Ddysgu i egluro ein gofynion ar gyfer yr ymweliadau.

2.34 Roedd canfod data cyswllt ar gyfer rhieni a chael mynediad iddynt yn her. Roedd yr astudiaeth yn dibynnu ar Ganolfannau Dysgu i recriwtio'r garfan hon ac roedd nifer y rhieni a gytunodd i gymryd rhan drwy'r llwybr hwn yn llai na'r disgwyl (chwech o gymharu ag 20). Yng ngoleuni'r anawsterau hyn, cysylltodd Llywodraeth Cymru hefyd â rhieni ymgeiswyr am LCA a oedd wedi cysylltu â hi yn uniongyrchol yn y gorffennol i ofyn iddynt gymryd rhan

yn yr adolygiad, ond nid ymatebodd yr un o’r rhieni hyn i’r cais. O'r herwydd, mae'n rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canfyddiadau a gasglwyd gan sampl fach o rieni.

2.35 Nid oedd dwy ysgol a gymerodd ran yn yr adolygiad yn fodlon trefnu i’r tîm ymchwil gwrdd â dysgwyr Blwyddyn 11 neu nid oedd modd iddynt wneud hynny, yn bennaf oherwydd amseriad y gwaith maes a oedd yn cael ei gynnal ar adeg hollbwysig, sef y cyfnod a oedd yn arwain at arholiadau TGAU. Felly, roedd yr adborth a gasglwyd gan y garfan hon o ddysgwyr yn eithaf cyfyngedig.

2.36 Bu recriwtio Canolfannau Dysgu y tu allan i Gymru yn her, a dim ond dau goleg AB a gymerodd ran yn yr adolygiad, a dim ysgolion. Er bod nifer y Canolfannau Dysgu a gymerodd ran yn fach, mae eu hadborth yn rhoi darlun pwysig o sut y mae'r LCA a'r Gronfa Bwrsariaeth yn cael eu rheoli mewn lleoliadau addysgol ar y ffin. Yn y ddau achos, roedd gan y Canolfannau Dysgu bryderon ynghylch caniatáu i'r tîm ymchwil gasglu barn dysgwyr, boed yn dderbynyddion LCA neu'r Gronfa Bwrsariaeth, gan eu bod yn ystyried ei bod yn bwysig parchu preifatrwydd derbynyddion o ran eu hamgylchiadau personol. Mewn un lleoliad, cytunodd y Ganolfan Ddysgu i ymchwilydd gynnal cyfweliadau â dysgwyr o bell drwy Teams. Fodd bynnag, ni chafwyd fawr o ymateb a dim ond un dysgwr o'r fath a gyfrannodd at y gwaith maes ansoddol.

2.37 Rydym yn ystyried rhai o’r cyfyngiadau methodolegol hyn ymhellach ym Mhennod 13, yn ogystal â nodi gwersi methodolegol i lywio gwerthusiadau yn y dyfodol.

## 3. Trosolwg o'r cynllun LCA yng Nghymru

3.1 Mae’r bennod hon yn rhoi trosolwg o’r cynllun Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) yng Nghymru ac yn rhoi amlinelliad o’r datblygiadau allweddol dros y deng mlynedd diwethaf, ers 2012/13. Mae hefyd yn ystyried y cyd-destun polisi y gweithredwyd y cynllun o'i fewn yng Nghymru.

**Cyflwyniad**

3.2 Nod yr LCA yw lleihau'r rhwystrau ariannol i fyfyrwyr o deuluoedd incwm isel i aros mewn addysg amser llawn ar ôl yr oedran y daw addysg orfodol i ben. Bwriad y cynllun oedd helpu i gau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng y rhai o gefndiroedd tlotach a'r rhai o gefndiroedd mwy cefnog ac ehangu mynediad i addysg bellach. Lwfans sy'n seiliedig ar brawf modd a delir i ddysgwyr sy'n aros mewn addysg ar ôl oedran gadael ysgol gorfodol yw'r LCA. Mae'n darparu cymorth ariannol i ddysgwyr sy'n byw ar aelwydydd incwm isel er mwyn ehangu cyfranogiad a gwella cyfraddau cadw a chyrhaeddiad pobl ifanc mewn addysg ôl-orfodol.

*Y cynnig*

3.3 Lwfans ariannol yw’r LCA sydd ar gael i bobl ifanc 16-18 oed (a rhai 19 oed[13]) o aelwydydd incwm isel. Fe’i cyflwynwyd gyntaf fel cynllun ar gyfer y DU gyfan ar gyfer pobl ifanc gymwys 16 oed yn 2004/05 a chafodd ei ymestyn i bobl ifanc 17 oed yn 2005/06 ac yna i bobl ifanc 18 oed yn ystod 2006/07. Ar hyn o bryd, mae'n lwfans wythnosol o £40 sy'n cael ei dalu bob pythefnos i ddysgwyr cymwys sy’n hanu o Gymru sy’n mynychu ysgolion neu sefydliadau addysg bellach yng Nghymru neu yn rhywle arall yn y DU. Mae taliadau'r LCA yn gysylltiedig â lefel foddhaol o bresenoldeb a chyrraedd nodau dysgu y cytunwyd arnynt.

3.4 Penderfynodd Gweinidogion Cymru godi’r lwfans wythnosol o £30 i £40 ym mis Ebrill 2023 i helpu dysgwyr gyda realiti costau astudio[14].

[13] Er mwyn bod yn gymwys yn 19 oed, mae'n rhaid bod y dysgwr yn parhau â chwrs neu raglen astudio bresennol neu'n cwblhau cwrs neu raglen astudio bresennol a heb gael mwy na dwy flynedd o gymorth LCA yn ystod y tair blynedd flaenorol.

[14] Cymru yw’r wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i gynyddu’r taliad Lwfans Cynhaliaeth Addysg | LLYW.CYMRU

3.5 Rhaid i ddysgwyr fodloni'r meini prawf canlynol er mwyn bod yn gymwys ar gyfer yr LCA:

- bod yn 16, 17 neu 18 oed ar 31 Awst cyn dechrau'r flwyddyn academaidd
- bodloni'r meini prawf preswylio cenedlaethol h.y. byw yng Nghymru ac wedi byw yn y DU am dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs
- meddu ar statws mewnfudo dilys a chymwys i fyw yn y DU
- astudio'n llawn amser mewn ysgol neu Sefydliad Addysg Bellach (SAB) a chael o leiaf 12 awr o ddysgu dan arweiniad yr wythnos
- astudio cwrs academaidd neu alwedigaethol hyd at a chan gynnwys Cymwysterau Cenedlaethol lefel tri a gyhoeddwyd gan gorff dyfarnu cydnabyddedig (fel TGAU, Safon Uwch, BTEC, NVQ, GNVQ a chyrsiau Sgiliau Sylfaenol) neu gyflawni rhaglen ddysgu bersonol a ariennir gan Lywodraeth Cymru o dan y rhaglen Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith
- astudio rhaglen ddysgu gymwys sy'n para o leiaf 10 wythnos
- wedi llofnodi Cytundeb Dysgu LCA gyda'u hysgol neu SAB, sy'n cynnwys amcanion presenoldeb ac ymddygiad
- ddim yn derbyn lwfans addysg a hyfforddiant neu lwfans tebyg i fynychu eu rhaglen ddysgu, neu gael eu talu am raglen dysgu seiliedig ar waith a ariennir yn gyhoeddus (fel prentisiaeth).

3.6 Mae incwm yr aelwyd hefyd yn faen prawf ar gyfer dyfarnu cymorth LCA. Mae dau drothwy incwm aelwyd gwahanol ar waith ar gyfer y cynllun, yn seiliedig ar amgylchiadau teuluol y dysgwr. Mae dysgwyr yn gymwys i gael yr LCA os ydynt yn byw ar aelwyd:

- sydd ag incwm blynyddol o £20,817 neu lai os mai'r ymgeisydd yw'r unig ddibynnydd, neu
- sydd ag incwm blynyddol o £23,077 neu lai os oes dibynyddion eraill yn byw ar yr aelwyd (mae dibynyddion yn 15 oed neu'n iau neu'n 16

i 20 oed ac mewn addysg neu hyfforddiant amser llawn nad yw'n addysg uwch, ac sy'n gymwys i gael budd-dal plant).

3.7 Nid yw'r trothwyon incwm aelwydydd hyn wedi newid ers 2011/12[15].

3.8 Mewn achosion lle nad yw dysgwr yn byw gyda'i riant neu warcheidwad, disgwylir i ymgeiswyr ddarparu manylion eu hincwm ariannol eu hunain i brofi eu bod yn ddysgwyr annibynnol.

*Cytundebau Dysgu LCA*

3.9 Mae'n ofynnol i ddysgwyr lofnodi Cytundeb Dysgu LCA blynyddol gyda'u hysgol neu SAB. Mae Cytundebau Dysgu LCA yn nodi bod dysgwyr yn cytuno i fynychu eu hysgol neu SAB a bodloni safonau ac amcanion penodol. Mae'n ofynnol i dderbynyddion LCA newydd lofnodi Cytundeb Dysgu LCA ar ôl i'w cais am LCA gael ei gymeradwyo, a rhaid i ddysgwyr sy'n parhau â'u haddysg lofnodi Cytundeb Dysgu LCA sy'n gweithredu fel eu cais i ailymgeisio am gymorth LCA am flwyddyn arall.

3.10 Mae Canolfannau Dysgu yn gyfrifol am sicrhau bod Cytundebau Dysgu LCA yn cael eu llofnodi ac yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol i SLC (drwy borth ar-lein) mewn modd amserol er mwyn sbarduno cychwyn taliadau LCA i ddysgwyr.

*Taliadau*

3.11 Gwneir taliadau LCA bob pythefnos (fel arfer telir £80) i gyfrif banc y dysgwr, oni nodir yn wahanol ar gais y dysgwr. Rhyddheir taliad ar ôl i'r Ganolfan Ddysgu gadarnhau bod y dysgwr wedi bod yn bresennol.

*Datblygiadau allweddol*

3.12 Mae datblygiadau allweddol i'r LCA yn cynnwys y canlynol:

- mae rhai carfannau o ddysgwyr wedi'u heithrio rhag gorfod darparu tystiolaeth i fodloni trothwyon incwm aelwyd, ac maent yn gymwys ar

[15] Cyn hyn, dyfarnwyd taliadau wythnosol o £10, £20 a £30 i ddysgwyr yn unol â throthwyon incwm aelwyd gwahanol. Er enghraifft, roedd dysgwyr o aelwydydd â'r incwm isaf (£21,885 neu lai) yn derbyn £30 yr wythnos tra bod y rhai ar y trothwyon uwch (£32,400 neu lai) yn cael £10 yr wythnos. Roedd tua 82 y cant o dderbynyddion LCA ar y pryd yn gymwys ar gyfer y dyfarniad uchaf o £30, a phenderfynwyd dileu'r cyfraddau talu is.

gyfer yr LCA heb i hynny fod yn seiliedig ar brawf modd. Mae'n ofynnol o hyd i'r dysgwyr hyn (a nodir fel 'person esempt' yn y canllawiau) gyflwyno cais a chymhwyso fel person esempt os ydynt:

  - yng ngofal awdurdod lleol, gyda rhieni maeth neu wedi gadael gofal
  - yn gyfrifol am eu plentyn eu hunain
  - yn derbyn Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm
  - â hawl i gael credyd cynhwysol o dan Reoliadau Credyd Cynhwysol 2013, neu
  - yn y ddalfa neu yn y ddalfa o fewn y system cyfiawnder ieuenctid gan gynnwys Sefydliad Troseddwyr Ifanc, Canolfan Hyfforddi Ddiogel, neu Gartref Plant Diogel

- mae Cytundebau Dysgu LCA bellach yn cynnwys adran amgylchiadau esgusodol sy'n galluogi Canolfannau Dysgu i gasglu gwybodaeth y mae dysgwyr am ei datgelu am eu hamgylchiadau neu eu hanghenion e.e. cyfrifoldebau gofalu, a allai effeithio ar eu presenoldeb. Cyflwynwyd y newid hwn yn 2017/18 i gefnogi dysgwyr agored i niwed a allai fod mewn perygl o beidio â chymryd rhan mewn addysg oherwydd ffactorau fel gofalu am aelod o’r teulu, ac ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at Ganolfannau Dysgu yn 2022 i’w hatgoffa o’r hyblygrwydd hwn. Gall Canolfannau Dysgu ystyried yr amgylchiadau hyn fesul achos wrth benderfynu a ddylai’r dysgwr gael y taliad LCA yn seiliedig ar ei gofnod presenoldeb
- mae cyflwyno Cytundeb Dysgu LCA amgen yn 2016/17 yn darparu ar gyfer person enwebedig, megis rhiant, gwarcheidwad, neu ofalwr, a all lofnodi ar ran y dysgwr pan na all y dysgwr ei lofnodi ei hun oherwydd anghenion dysgu ychwanegol neu anabledd.

*Trefniadau gweinyddol*

3.13 Y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (SLC) sy'n gweinyddu’r cynllun LCA yng Nghymru, ar ran Llywodraeth Cymru, ac mae ymgeiswyr yn cyflwyno eu

cais i'r SLC. Roedd proses ymgeisio ar bapur ar waith tan fis Hydref 2023, pan gyflwynwyd cyfleuster newydd i alluogi gwneud cais ar-lein[16].

*Newidiadau yn ystod y pandemig COVID*

3.14 Mabwysiadwyd nifer o newidiadau i drefniadau gweinyddol yr LCA yn ystod y pandemig COVID-19, er mwyn ystyried y ffaith bod yn rhaid i Ganolfannau Dysgu gydymffurfio â chanllawiau pandemig Llywodraeth Cymru. Yn 2020/21 cafodd Canolfannau Dysgu ganllawiau COVID-19 atodol ar gyfer yr LCA, gan ganiatáu iddynt rannu copïau electronig o Gytundebau Dysgu LCA â dysgwyr. Gallent dderbyn ateb i e-bost gan y dysgwr i gadarnhau ei fod yn cytuno â'r telerau neu gallent ddefnyddio Cytundebau Dysgu LCA wedi'u llofnodi'n electronig[17]. Roedd y canllawiau hefyd yn caniatáu i Ganolfannau Dysgu gyfuno templed Cytundeb Dysgu LCA â ffurflen cytundeb myfyrwyr y Ganolfan Ddysgu ei hun, gan sicrhau eu bod yn casglu'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer yr LCA.

**Astudiaethau gwerthuso perthnasol**

*Gwerthusiad blaenorol o'r LCA*

3.15 Cynhaliwyd gwerthusiad o'r LCA yn 2013-14 a ystyriodd effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y cynllun ers ei gyflwyno yn 2004-05, ac i ba raddau y cyfrannodd at bolisïau Llywodraeth Cymru ar ehangu cyfranogiad mewn addysg bellach[18].

3.16 Canfu'r gwerthusiad ei fod yn gynllun sydd wedi'i hen sefydlu, sydd wedi cyfrannu at ystod o bolisïau Llywodraeth Cymru a oedd yn anelu at ehangu mynediad i addysg, lleihau cyfradd y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) a mynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol.

3.17 Adeg y gwerthusiad, roedd 40 y cant o dderbynyddion LCA wedi cofrestru ar gyfer Safon Uwch a 47 y cant ar gyfer cymwysterau galwedigaethol.

[16] Fodd bynnag, gall ymgeiswyr wneud cais gan ddefnyddio'r ffurflen bapur o hyd, os yw'n well ganddynt wneud hynny.
[17] Gan dderbyn y caniatawyd i Ganolfannau Dysgu dderbyn llofnodion electronig am y tro cyntaf ar gyfer Cytundeb Dysgu LCA yn 2016/17.
[18] Gwerthusiad o'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg | LLYW.CYMRU

Canfu’r gwerthusiad fod angen pendant i’r cynllun ddarparu cymorth ariannol i fyfyrwyr o deuluoedd incwm isel mewn addysg ôl-orfodol ac roedd galw cryf am barhau â'r cynllun. Canfu hefyd fod y myfyrwyr hynny sydd â’r angen mwyaf yn cael eu cefnogi drwy’r LCA, a chydnabuwyd yn gyffredinol bod prawf modd incwm aelwyd yn ddull ymarferol ac effeithlon o ddyrannu’r cymorth ariannol.

3.18 Canfu'r gwerthusiad fod yr LCA yn ffynhonnell hanfodol o gymorth ariannol i ddim ond lleiafrif o fyfyrwyr, ac nid oedd unrhyw awgrymiadau o unrhyw stigma yn gysylltiedig â'i dderbyn. Dangosodd dadansoddiad ystadegol fod myfyrwyr a oedd yn derbyn yr LCA wedi cofrestru ar gyfer addysg ôl-orfodol yn gyflymach a lle nad oeddent yn dilyn cyrsiau Safon Uwch, eu bod wedi astudio am gyfnod hwy ac wedi cyflawni ar lefel uwch o gymwysterau na’r rhai nad oeddent yn ei dderbyn.

3.19 O ran y gwahaniaeth a wnaed, er bod y cynnig posibl o LCA yn ystyriaeth bwysig i fyfyrwyr, dywedodd mwyafrif y derbynyddion a gyfrannodd at yr astudiaeth y byddent wedi cofrestru ar eu cwrs beth bynnag. Roedd tua thri chwarter y derbynyddion LCA mewn colegau AB a bron pob un o’r derbynyddion mewn ysgolion a gyfrannodd at yr ymchwil o’r farn y byddent wedi cofrestru ar eu cwrs beth bynnag heb y lwfans[19]. Teimlai'r cyfranwyr fod yr LCA yn gwella cyfraddau cadw ac yn cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb a phrydlondeb. Roedd barn fwy cymysg ynghylch a oedd yn gwneud gwahaniaeth i gyrhaeddiad a chyflawniad myfyrwyr ac roedd y dystiolaeth yn amhendant.

3.20 Gwnaeth yr adroddiad gyfres o argymhellion gan gynnwys:

- parhau â'r cynllun LCA ond ei dargedu’n well at y myfyrwyr hynny sydd â’r angen mwyaf drwy ostwng y trothwy incwm aelwydydd ar gyfer bod yn gymwys am gymorth LCA, ond cadw'r trothwy incwm dwy haen i ystyried brodyr a chwiorydd a allai fod yn rhan o'r cynllun hefyd (ond gostwng y trothwy yn unol â'r gostyngiad cyffredinol)

[19] Ibid. tud.111

- sicrhau bod yr LCA yn parhau i fod ar gael i fyfyrwyr mewn ysgolion ac addysg bellach
- cadw lefel yr LCA ar £30 yr wythnos
- cryfhau Cytundebau Dysgu LCA, gan gynnwys nodi'r gofynion presenoldeb yn y dogfennau
- sicrhau bod Canolfannau Dysgu yn mabwysiadu dull mwy cyson o ymdrin â gofynion presenoldeb.

*Astudiaeth Sefydliad Nuffield sy'n archwilio effaith hirdymor yr LCA*

3.21 Bydd yr astudiaeth hon[20], a gynhelir gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid rhwng 2022 a 2025, yn edrych ar effeithiau'r LCA ar dderbynyddion sy'n hanu o Loegr hyd at 30 oed ac yn archwilio sut y mae'r effeithiau hyn yn amrywio yn ôl cyrhaeddiad addysgol blaenorol, rhywedd, ethnigrwydd, a daearyddiaeth. Bydd yr ymchwil yn gwahaniaethu rhwng myfyrwyr a arhosodd mewn addysg oherwydd yr LCA, a'r rhai a fyddai wedi aros mewn addysg hyd yn oed heb yr LCA.

3.22 Bydd yr astudiaeth yn cynnal dadansoddiad cost a budd o LCA a fydd yn cynnwys darogan yr effeithiau tebygol ar enillion oes, cyflogaeth, a throseddu, yna cyfrifo taliadau treth ac amcangyfrif y budd-daliadau a dderbynnir. Disgwylir i'r canfyddiadau gael eu cyhoeddi yn gynnar yn 2025.

**Y cyd-destun polisi**

3.23 Ers ei sefydlu, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ehangu mynediad i addysg ac i fynd i'r afael â'r rhwystrau a allai atal pobl ifanc rhag parhau mewn addysg ôl-orfodol.

*Y Rhaglen Lywodraethu[21] (2021)*

3.24 Yn y Rhaglen Lywodraethu gyfredol, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i 'amddiffyn y Lwfans Cynhaliaeth Addysgol ar gyfer dysgwyr ifanc.' At hynny, mae un o'r deg amcan llesiant yn y Rhaglen Lywodraethu yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau â'i "rhaglen hirdymor o

[20] The long-term impact of the Education Maintenance Allowance - Sefydliad Nuffield
[21] Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru: diweddariad | LLYW.CYMRU

ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a bod safonau'n codi."[22]

*Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*

3.25 Mae'r LCA yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at uchelgais Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o sicrhau Cymru sy'n fwy cyfartal, drwy helpu i liniaru caledi ariannol a thlodi, a galluogi pobl ifanc i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd. Mae un o ddangosyddion cenedlaethol y Ddeddf yn berthnasol i'r cynllun, gan fod yr LCA yn helpu i gyfrannu at gynyddu canran y bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (dangosydd 22).[23]

*Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr*[24]

3.26 Mae'r LCA yn chwarae rhan bwysig o ran helpu i gyflawni uchelgeisiau Cymraeg 2050, drwy gefnogi dysgwyr mewn addysg ôl-orfodol. Mae gan addysg a darpariaeth ôl-orfodol ran allweddol i'w chwarae o ran cynnal sgiliau Cymraeg dysgwyr. Gellir gwneud ceisiadau am LCA yn Gymraeg neu yn Saesneg, a rhennir fersiynau Cymraeg a Saesneg o dempled Cytundeb Dysgu LCA gyda Chanolfannau Dysgu.

*Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru*

3.27 Daeth Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) yn gyfraith ym mis Medi 2022 gan arwain at sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, corff hyd braich newydd a fydd yn gyfrifol am ariannu a goruchwylio addysg ac ymchwil ôl-16 yng Nghymru. Bydd y Comisiwn yn dod yn weithredol o fis Awst 2024 ymlaen a bydd yn gyfrifol am addysg bellach a chweched dosbarth ysgolion, yn ogystal ag addysg uwch, addysg oedolion a dysgu seiliedig ar waith ac ymchwil ac arloesi a ariennir gan y llywodraeth.

*Cyhoeddiadau a dadleuon y Senedd*

[22] Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru - Diweddariad, tud. 5
[23] Dangosyddion cenedlaethol a cherrig milltir cenedlaethol ar gyfer Cymru [HTML] | LLYW.CYMRU
[24] Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg | LLYW.CYMRU

3.28 Ganol mis Rhagfyr 2021, gofynnodd Luke Fletcher AS[25] gwestiwn yn ystod cyfarfod llawn y Senedd: 'pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith y lwfans cynhaliaeth addysg?[26]' Ailadroddodd y Prif Weinidog ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i'r LCA.

3.29 Ym mis Hydref 2022, cyflwynodd Luke Fletcher AS ddadl fer ar y 'Lwfans cynhaliaeth addysg: rhaff achub yn yr argyfwng presennol' yn y Senedd.[27]. Cynhaliwyd y ddadl yn y cyfarfod llawn ar 12 Hydref 2022[28].

3.30 Ym mis Ionawr 2023, cyflwynwyd cynnig yn y Senedd a oedd yn nodi, er bod Llywodraeth Cymru wedi cadw'r LCA, yn wahanol i Lywodraeth y DU yn Lloegr, nad oedd wedi newid ei werth ers 2004 ac nad oedd y cymorth ariannol pwysig hwn i ddysgwyr ôl-16 wedi cynyddu yn unol â phwysau costau byw. O'r herwydd, roedd y cynnig yn galw ar Lywodraeth Cymru 'i ystyried codiad sy'n gysylltiedig â chwyddiant i werth y lwfans cynhaliaeth addysg ac adolygiad o'r trothwyon.'[29]

3.31 Cafodd y cynnig hwn ei drafod mewn cyfarfod llawn o'r Senedd ar 15 Chwefror 2023[30]. Yn ystod y ddadl, codwyd materion yn ymwneud ag oedi cyn derbyn taliadau, a chymhlethdod gwneud cais am yr LCA, rhwystrau posibl o ran cael mynediad at y cyllid a'u heffeithiau negyddol posibl o ran cadw myfyrwyr incwm isel mewn addysg. Yn ogystal â hynny, cafwyd sawl galwad i gynyddu gwerth a throthwyon yr LCA.

3.32 Ym mis Chwefror 2023, argymhellodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn Senedd Cymru y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad annibynnol o'r LCA i ystyried effaith yr LCA ar benderfyniadau dysgwyr i ymgymryd ag astudiaethau pellach, eu gallu i ymdopi â phwysau ariannol ac adolygu'r meini prawf cymhwystra sy'n gysylltiedig â'r LCA.

*Cyhoeddiad ar gynyddu lefel yr LCA*

---

[25] Aelod o'r Senedd
[26] Y Cyfarfod Llawn 14/12/2021 - Senedd Cymru (senedd.cymru) – C8 OQ57390
[27] Cynnig - NDM8092 - Senedd Cymru (senedd.cymru)
[28] Y Cyfarfod Llawn 12/10/2022 - Senedd Cymru (senedd.cymru)
[29] Cynnig - NDM8187 - Senedd Cymru (senedd.cymru)
[30] Y Cyfarfod Llawn 15/02/2023 - Senedd Cymru (senedd.cymru) – y ddadl wedi'i thrawsgrifio o dan eitem 5

3.33 Ym mis Ebrill 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai’r LCA yn cael ei gynyddu yng Nghymru o £30 i £40 yr wythnos, a hynny ar unwaith. Roedd y cyhoeddiad yn adlewyrchu'r argyfwng costau byw presennol a'r straen ariannol y mae pobl ifanc yn ei deimlo. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i barhau i gynnig y lefel hon o gymorth i fyfyrwyr newydd a'r rhai sy'n parhau â'u hastudiaeth tra bod adolygiad cynhwysfawr o'r LCA yn cael ei gynnal[31].

**Ymchwil ehangach**

*Ymchwil Sefydliad Bevan - Learning a living, better support for post 16 learners*[32]

3.34 Cyhoeddodd Sefydliad Bevan ymchwil yn 2020 a oedd yn adolygu'r cynlluniau sy’n darparu cymorth i bobl ifanc o deuluoedd sy’n byw mewn tlodi. Amlygodd yr ymchwil nad oedd gwerth yr LCA wedi cynyddu ers canol y 2000au ac er bod llawer o bobl ifanc yn gwerthfawrogi’r cymorth a dderbyniwyd, amlygwyd yr hyn yr oeddent yn ei weld fel diffygion yn y system bresennol gan gynnwys:

- bod llawer o bobl ifanc o deuluoedd incwm isel yn colli'r cyfle i gael cymorth oherwydd meini prawf cymhwystra anghyson
- bod gwerth y cymorth yn annigonol i godi pobl allan o dlodi
- diffyg cysondeb yn y cymorth sydd ar gael a
- phroses ymgeisio gymhleth ac anghyson[33].

3.35 Galwodd Sefydliad Bevan ar Lywodraeth Cymru i wneud cyfres o newidiadau tymor byr i’r system bresennol gan gynnwys argymhellion i godi’r trothwy cymhwystra ar gyfer yr LCA a chynyddu gwerth arian parod yr LCA i £45 yr wythnos. Roedd hefyd yn awgrymu 'clo chwyddiant' fel y gellid cynnal y gwerthoedd hyn a galwodd am drefniadau gweinyddu symlach, mwy cyson ar gyfer y cynllun.

[31] Cymru yw’r wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i gynyddu’r taliad Lwfans Cynhaliaeth Addysg | LLYW.CYMRU
[32] Learning a living, better support for post 16 learners - Bevan Foundation
[33] Ibid. tud.1

3.36 Yn y tymor hwy, awgrymodd Sefydliad Bevan y dylai Llywodraeth Cymru ystyried diwygiadau mwy radical. Gallai hyn gynnwys cymysgedd o fenthyciadau prawf modd a grantiau sydd ar gael i bob dysgwr, beth bynnag fo lefel ei addysg. Byddai hyn yn cyd-fynd â newidiadau diweddar i gyllid myfyrwyr yn y maes addysg uwch, i gydnabod cyfraniad pynciau galwedigaethol at economi a marchnad lafur Cymru.

## 4. Y nifer sy'n manteisio ar yr LCA yng Nghymru

4.1 Mae’r bennod hon yn rhoi trosolwg o’r nifer sy'n manteisio ar y cynllun Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA), gan gyfeirio at ddata cyhoeddedig a data Gwybodaeth Reoli y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (SLC). Cafwyd y data cyhoeddedig, sydd ar gael ar gyfer y blynyddoedd academaidd 2004/05 i 2022/23, o Fwletinau Ystadegol Blynyddol Llywodraeth Cymru ac Ystadegau Cymru.

4.2 Rhannodd yr SLC ddata Gwybodaeth Reoli ar gyfer y deng mlynedd rhwng 2014/15 a 2023/24 gyda’r tîm ymchwil. Mae'n bwysig nodi bod y data a dderbyniwyd gan SLC ychydig yn wahanol i'r hyn a gyhoeddwyd gan StatsCymru[34]. Fodd bynnag, mae'r gwahaniaeth yn fach ac er mwyn osgoi dryswch, mae'r adroddiad hwn yn defnyddio data cyhoeddedig lle bynnag y maent gael. Gan mai dim ond hyd at 2022/23 y mae data StatsCymru ar gael, mae data Gwybodaeth Reoli SLC ar gyfer 2023/24 wedi’u hystyried yn yr adroddiad hwn.

**Nifer y ceisiadau a'r nifer a gafodd eu cymeradwyo**

4.3 Yn gyffredinol, mae'r nifer sydd wedi manteisio ar yr LCA wedi cynyddu dros saith mlynedd gyntaf y cynllun o dros 14,000 o ddysgwyr yn 2004/05 i dros 36,000 o ddysgwyr yn 2010/11[35], gyda’r cynnydd cychwynnol yn ystod y tair blynedd gyntaf i'w briodoli i'r ffaith bod grwpiau oedran hŷn wedi dod yn gymwys i gael cymorth. Ers 2010/11, mae nifer y dysgwyr sy'n gwneud cais am y cynllun ac sy'n cael eu cefnogi ganddo wedi gostwng o flwyddyn i flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn academaidd 2023/24, mae data Gwybodaeth Reoli SLC ym mis Chwefror 2024 yn dangos bod cyfanswm o 17,102 o geisiadau wedi dod i law ac y gwnaed 16,153 o ddyfarniadau. Dangosir y data yn Nhabl 4.1 a Ffigur 4.1.

[34] Mae'r gwahaniaeth hwn i'w briodoli'n bennaf i'r ffaith bod adroddiadau StatsCymru yn cynnwys pob cais am LCA a ddechreuwyd, ond mae'r Wybodaeth Reoli a ddarparwyd i OB3 drwy Lywodraeth Cymru at ddibenion yr adolygiad hwn yn cynnwys ceisiadau a broseswyd gan SLC. Mae'r dyddiadau adrodd ychydig yn wahanol hefyd.

[35] Ceir rhagor o fanylion am y cyfnod hwn yn y [Gwerthusiad o'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg | LLYW.CYMRU]

**Tabl 4.1: Ceisiadau am LCA a'r niferoedd a gymeradwywyd fesul blwyddyn academaidd**

| Ystadegau swyddogol | Pob cais am LCA | Pob cais am LCA a gymeradwywyd | Ceisiadau am LCA a gymeradwywyd fel cyfran o'r holl geisiadau |
|---|---|---|---|
| 2004/05 | 15,205 | 14,070 | 93% |
| 2005/06 | 28,125 | 25,625 | 91% |
| 2006/07 | 32,595 | 30,370 | 93% |
| 2007/08 | 33,295 | 31,180 | 94% |
| 2008/09 | 35,205 | 32,695 | 93% |
| 2009/10 | 38,500 | 36,185 | 94% |
| 2010/11 | 38,365 | 36,460 | 95% |
| 2011/12 | 33,880 | 32,520 | 96% |
| 2012/13 | 31,915 | 30,270 | 95% |
| 2013/14 | 31,480 | 30,175 | 96% |
| 2014/15 | 30,465 | 28,770 | 94% |
| 2015/16 | 28,330 | 26,245 | 93% |
| 2016/17 | 25,630 | 24,025 | 94% |
| 2017/18 | 27,870[36] | 22,790 | 82% |
| 2018/19 | 22,610 | 20,855 | 92% |
| 2019/20 | 21,730 | 20,280 | 93% |
| 2020/21 | 20,815 | 18,690 | 90% |
| 2021/22 | 19,265 | 17,035 | 88% |
| 2022/23 | 17,740 | 15,545 | 88% |


Ffynhonnell: StatsCymru Llywodraeth Cymru[37]. Ceisiadau am LCA fesul blwyddyn academaidd a cham gwaith

| Data Gwybodaeth Reoli SLC | Pob cais am LCA | Pob cais am LCA a gymeradwywyd | Ceisiadau am LCA a gymeradwywyd fel cyfran o'r holl geisiadau |
|---|---|---|---|
| 2023/24[38] | 17,102 | 16,153 | 94% |

Ffynhonnell: Data Gwybodaeth Reoli SLC (fel ym mis Chwefror 2024)

[36] Yn 2017/18 cafodd nifer o ymgeiswyr nad oeddent yn gymwys i gael LCA mwyach eu cynnwys yn anghywir yng nghyfanswm y ceisiadau. Dylid bod yn ofalus wrth gymharu'r pwyntiau data hyn â blynyddoedd eraill.
[37] Lwfansau Cynhaliaeth Addysg (addysg bellach) (llyw.cymru)
[38] Data Gwybodaeth Reoli SLC (fel ym mis Chwefror 2024)

**Ffigur 4.1: Ceisiadau am LCA a'r niferoedd a gymeradwywyd fesul blwyddyn academaidd**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru StatsCymru[39] a data Gwybodaeth Reoli SLC (fel ym mis Chwefror 2024). Ceisiadau am LCA fesul blwyddyn academaidd a cham gwaith[40]

4.4 Mae angen ystyried y gostyngiad mewn ceisiadau am LCA a'r niferoedd a gymeradwywyd dros amser yng nghyd-destun niferoedd cyffredinol y myfyrwyr dros yr un cyfnod. Gostyngodd y boblogaeth gyffredinol o fyfyrwyr 16 i 18 oed dros y pum mlynedd rhwng 2015/16 a 2019/20, a allai gyfrif am beth o’r lleihad yn nifer y ceisiadau am LCA a'r rhai a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod hwn ond mae'r niferoedd wedi adfer ers hynny ond mae ceisiadau am LCA a'r ceisiadau a gymeradwywyd wedi parhau i ostwng. Fel y dangosir yn Nhabl 4.2, mae 25 y cant o ddysgwyr 16 i 18 oed yn cael LCA ar hyn o bryd, ac mae'r gyfran hon wedi gostwng bob blwyddyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

---

[39] Lwfansau Cynhaliaeth Addysg (addysg bellach) (llyw.cymru)

[40] Yn 2017/18 cafodd nifer o ymgeiswyr nad oeddent yn gymwys i gael LCA mwyach eu cynnwys yn anghywir yng nghyfanswm y ceisiadau. Dylid bod yn ofalus wrth gymharu'r pwyntiau data hyn â blynyddoedd eraill.

**Tabl 4.2: Ceisiadau am LCA a gymeradwywyd o gymharu â niferoedd cyffredinol y myfyrwyr**

| | Pob cais am LCA | Pob cais am LCA a gymeradwywyd | Poblogaeth gyffredinol myfyrwyr 16-18 oed[41] | Nifer y ceisiadau am LCA a gymeradwywyd fel cyfran o boblogaeth gyffredinol y myfyrwyr 16-18 oed |
|---|---|---|---|---|
| 2015/16 | 28,330 | 26,245 | 64,190 | 41% |
| 2016/17 | 25,630 | 24,025 | 60,845 | 39% |
| 2017/18 | 27,870[42] | 22,790 | 59,715 | 38% |
| 2018/19 | 22,610 | 20,855 | 57,130 | 37% |
| 2019/20 | 21,730 | 20,280 | 58,960 | 34% |
| 2020/21 | 20,815 | 18,690 | 60,615 | 31% |
| 2021/22 | 19,265 | 17,035 | 59,845 | 28% |
| 2022/23 | 17,740 | 15,545 | 61,720[43] | 25% |

Ffynhonnell: StatsCymru Llywodraeth Cymru[44] a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR)[45]

4.5 Arhosodd nifer y ceisiadau a gymeradwywyd yn gymharol sefydlog ac yn uchel hyd at tua 2016/17 (93 y cant neu fwy) ond maent wedi gostwng ers hynny ac adroddwyd eu bod yn 88 y cant yn 2022/23[46]. Mae ceisiadau aflwyddiannus yn cynnwys y rhai sy'n cael eu gwrthod, ar y sail nad ydynt yn bodloni meini prawf y cynllun, ceisiadau anghyflawn a dysgwyr sy'n symud ymlaen yn awtomatig i'r flwyddyn academaidd nesaf ond nad ydynt wedi parhau â'u hastudiaethau.

**Math o Ganolfan Ddysgu**

4.6 Mae cyfran yr ymgeiswyr y mae eu ceisiadau am LCA wedi cael eu cymeradwyo sydd wedi'u lleoli mewn SABau wedi cynyddu dros amser ac yn 2023/24, roedd yn cyfrif am 76 y cant o'r holl geisiadau LCA a gymeradwywyd. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny mae nifer y ceisiadau am LCA a gymeradwywyd mewn ysgolion wedi lleihau, ac erbyn 2023/24

[41] Nifer y myfyrwyr amser llawn 16 i 18 oed sydd wedi'u lleoli mewn sefydliadau addysg bellach, ysgolion uwchradd a gynhelir ac ysgolion arbennig, y disgwylir i'w cyrsiau bara am o leiaf 10 wythnos. Nid yw ysgolion annibynnol wedi'u cynnwys. Data o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (llyw.cymru)
[42] Yn 2017/18 cafodd nifer o ymgeiswyr nad oeddent yn gymwys i gael LCA mwyach eu cynnwys yn anghywir yng nghyfanswm y ceisiadau. Dylid bod yn ofalus wrth gymharu'r pwyntiau data hyn â blynyddoedd eraill.
[43] Amcangyfrif yw'r ffigur hwn.
[44] Lwfansau Cynhaliaeth Addysg (addysg bellach) (llyw.cymru)
[45] Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (llyw.cymru)
[46] Fodd bynnag, mae data Gwybodaeth Reoli SLC ar gyfer 2022/23 a 2023/24 yn awgrymu bod y cyfraddau cymeradwyo wedi aros ar 94 y cant.

roeddent yn cyfrif am 22 y cant o'r holl geisiadau a gymeradwywyd. Mae cyfran y ceisiadau a gymeradwywyd o Ganolfannau Dysgu eraill[47] wedi aros yn gymharol isel ac nid ydynt wedi newid dros amser.

**Tabl 4.3: Ceisiadau am LCA a gymeradwywyd fesul blwyddyn academaidd a math o Ganolfan Dysgu[48]**

| Ystadegau swyddogol | SABau | Ysgolion | Canolfannau Dysgu Eraill | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2004/05 | 54% | 45% | 1% | 10,750 |
| 2005/06 | 57% | 42% | 2% | 20,510 |
| 2006/07 | 61% | 37% | 2% | 24,910 |
| 2007/08 | 61% | 37% | 2% | 25,610 |
| 2008/09 | 61% | 37% | 2% | 27,020 |
| 2009/10 | 60% | 38% | 2% | 30,220 |
| 2010/11 | 56% | 42% | 2% | 30,590 |
| 2011/12 | 63% | 35% | 2% | 29,940 |
| 2012/13 | 64% | 33% | 2% | 29,760 |
| 2013/14 | 66% | 32% | 2% | 30,180 |
| 2014/15 | 67% | 31% | 2% | 28,770 |
| 2015/16 | 69% | 29% | 2% | 26,250 |
| 2016/17 | 71% | 27% | 2% | 24,040 |
| 2017/18 | 72% | 25% | 2% | 22,820 |
| 2018/19 | 72% | 25% | 2% | 20,860 |
| 2019/20 | 74% | 24% | 3% | 20,300 |
| 2020/21 | 73% | 25% | 3% | 18,650 |
| 2021/22 | 73% | 25% | 3% | 17,020 |
| 2022/23 | 75% | 22% | 3% | 15,510 |

Ffynhonnell: StatsCymru Llywodraeth Cymru[49]. Ceisiadau am LCA a gymeradwywyd fesul blwyddyn academaidd a cham gwaith. Mae'r canrannau wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf. Mae'r cyfansymiau wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf.

| Data Gwybodaeth Reoli SLC | SABau | Ysgolion | Canolfannau Dysgu Eraill | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2023/24 | 76% | 22% | 2% | 16,153 |

Ffynhonnell: Data Gwybodaeth Reoli SLC (fel ym mis Chwefror 2024)

**Proffil daearyddol**

4.7 Mae Tabl 4.4 yn cynnwys data daearyddol ar gyfer y cynllun LCA. Mae Tabl 4.4 (a) yn cyflwyno data cyhoeddedig ar ardaloedd awdurdodau lleol

[47] Fel Canolfannau Troseddwyr Ifanc neu Unedau Cyfeirio Disgyblion
[48] Mae data ar gyfer 2004/05 i 2011/12 ond yn ystyried y taliadau LCA o £30 a wnaed yn ystod y cyfnod hwn, ac nid y dyfarniadau o £10 ac £20 a ddaeth i ben yn 2011/12; er mwyn caniatáu gwell cymhariaeth dros amser. Mae data ar gyfer 2004/05 i 2012/13 yn dod o'r adroddiad gwerthuso blaenorol.
[49] Lwfansau Cynhaliaeth Addysg (addysg bellach) (llyw.cymru)

ar gyfer dysgwyr y cafodd eu ceisiadau eu cymeradwyo, yn seiliedig ar eu cyfeiriad cartref, ac mae Tabl 4.4 (b) yn cyflwyno data awdurdodau lleol o system Gwybodaeth Reoli SLC ar gyfer ceisiadau a gymeradwywyd, yn seiliedig ar leoliad eu Canolfan Ddysgu. Roedd traean y ceisiadau am LCA a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn academaidd 2022/23 yn geisiadau gan ddysgwyr a oedd yn byw mewn pedair sir, sef Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Chaerffili. Mae hyn wedi amrywio dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf fel y dangosir yn Nhabl 4.4, gyda Sir Gaerfyrddin a Chasnewydd hefyd yn cyfrif am nifer fawr o'r ceisiadau a gymeradwywyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Ceir llawer llai o geisiadau a gymeradwywyd yn seiliedig ar leoliadau dysgwyr mewn siroedd gwledig bach fel Ynys Môn, Ceredigion, a Sir Fynwy.

4.8 Mae data Gwybodaeth Reoli SLC ar gyfer y flwyddyn academaidd 2023/24 a nodir yn Nhabl 4.4 (b) yn dangos mai Canolfannau Dysgu yng Nghaerdydd, Casnewydd, Caerffili ac Abertawe sy’n cyfrif am y nifer fwyaf o dderbynyddion LCA, ac yna Sir Ddinbych a Chastell-nedd Port Talbot. Mae gan Ganolfannau Dysgu ym Mlaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy ac Ynys Môn lai o ddysgwyr sy'n derbyn LCA. Mae Tabl 4.4 (b) hefyd yn dangos bod 271 o ddysgwyr yn mynychu Canolfannau Dysgu y tu allan i Gymru.

**Tabl 4.4: Ceisiadau am LCA a gymeradwywyd fesul ardal awdurdod lleol**[50]

| (a) Ardal awdurdod lleol y dysgwr | Ystadegau swyddogol | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
| Ynys Môn | 450 | 390 | 320 | 280 |
| Gwynedd | 670 | 630 | 540 | 520 |
| Conwy | 720 | 660 | 560 | 510 |
| Sir Ddinbych | 620 | 570 | 490 | 470 |
| Sir y Fflint | 760 | 750 | 620 | 500 |
| Wrecsam | 820 | 750 | 620 | 590 |
| Powys | 690 | 630 | 570 | 520 |
| Ceredigion | 430 | 390 | 400 | 360 |
| Sir Benfro | 780 | 730 | 670 | 590 |
| Sir Gaerfyrddin | 1,330 | 1,130 | 1,010 | 960 |
| Abertawe | 1,610 | 1,480 | 1,470 | 1,270 |
| Castell-nedd Port Talbot | 1,000 | 920 | 920 | 830 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 890 | 780 | 700 | 700 |
| Bro Morgannwg | 710 | 670 | 570 | 560 |
| Caerdydd | 2,470 | 2,390 | 2,120 | 1,950 |
| Rhondda Cynon Taf | 1,850 | 1,570 | 1,460 | 1,350 |
| Merthyr Tudful | 480 | 430 | 400 | 330 |
| Caerffili | 1,410 | 1,310 | 1,170 | 1,030 |
| Blaenau Gwent | 550 | 500 | 510 | 460 |
| Torfaen | 590 | 570 | 580 | 540 |
| Sir Fynwy | 340 | 330 | 290 | 270 |
| Casnewydd | 1,110 | 1,070 | 1,010 | 920 |
| Tu allan i Gymru | 10 | * | * | * |
| Anhysbys | 10 | * | 20 | * |
| Cyfanswm | 20,300 | 18,650 | 17,020 | 15,510 |

| (b) Ardal awdurdod lleol y Ganolfan Ddysgu | Data Gwybodaeth Reoli SLC |
|---|---|
| | 2023/24 |
| Ynys Môn | 80 |
| Gwynedd | 450 |
| Conwy | 190 |
| Sir Ddinbych | 1,030 |
| Sir y Fflint | 550 |
| Wrecsam | 640 |
| Powys | 150 |
| Ceredigion | 330 |
| Sir Benfro | 560 |
| Sir Gaerfyrddin | 880 |
| Abertawe | 1,350 |
| Castell-nedd Port Talbot | 1,000 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 890 |
| Bro Morgannwg | 320 |
| Caerdydd | 2,660 |
| Rhondda Cynon Taf | 300 |
| Merthyr Tudful | 440 |
| Caerffili | 1,640 |
| Blaenau Gwent | <10 |
| Torfaen | 30 |
| Sir Fynwy | 80 |
| Casnewydd | 2,250 |
| Tu allan i Gymru | 270 |
| Anhysbys | * |
| Cyfanswm | 16,090 |

Ffynhonnell: StatsCymru Llywodraeth Cymru[51] Ceisiadau am LCA a gymeradwywyd yn ôl rhywedd, math o ganolfan ddysgu a math o ddyfarniad a data Gwybodaeth Reoli (fel ym mis Chwefror 2024). Efallai na fydd y cyfansymiau'n cyfateb oherwydd talgrynnu ac oherwydd i awdurdodau lleol 'amherthnasol' gael eu heithrio

[50] Mae'r ystadegau swyddogol a gymerwyd o StatsCymru yn seiliedig ar geisiadau a ddaeth i law erbyn diwedd mis Awst bob blwyddyn, er mwyn caniatáu ar gyfer gwneud cymariaethau o flwyddyn i flwyddyn. Cafwyd mynediad at ddata Gwybodaeth Reoli SLC ar adeg wahanol, ym mis Chwefror 2024, ac felly mae'n adrodd ar ddata gwahanol i'r ystadegau swyddogol.


[51] Lwfansau Cynhaliaeth Addysg (addysg bellach) (llyw.cymru)

**Math o Ganolfan Ddysgu**

4.9 Gan edrych ar ddata ardaloedd awdurdodau lleol yn ôl math o Ganolfan Ddysgu ar gyfer y flwyddyn academaidd 2022/23, mae SABau yn cyfrif am gyfran uwch o geisiadau LCA a gymeradwywyd mewn rhai ardaloedd awdurdodau lleol megis Blaenau Gwent, Merthyr Tudful, Torfaen, a Chastell-nedd Port Talbot lle mae dros 90 y cant o'r derbynyddion wedi'u lleoli mewn SABau. Mae hyn oherwydd diffyg darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion uwchradd yn y siroedd hyn, er enghraifft, nid oes gan yr un o'r ysgolion uwchradd ym Mlaenau Gwent, Merthyr Tudful na Thorfaen ddarpariaeth chweched dosbarth[52]. Mae ceisiadau a gymeradwywyd mewn lleoliadau ysgol yn uwch yn siroedd Casnewydd, Caerdydd, Sir Fynwy, a Cheredigion, yn unol â chyfran y dysgwyr sydd wedi'u cofrestru mewn lleoliadau ysgol chweched dosbarth yn y siroedd hyn, fel y dangosir yn Ffigur 4.2. Mae ceisiadau a gymeradwywyd ar gyfer dysgwyr mewn colegau AB yn cyfrif am gyfran uwch o'r dyfarniadau yn siroedd Mynwy, Powys, Conwy, Ceredigion a Bro Morgannwg, o gymharu â chyfran y dysgwyr sydd wedi cofrestru mewn colegau AB yn yr ardaloedd hyn.

[52] Gweler Ysgolion (llyw.cymru)

**Ffigur 4.2: Ceisiadau am LCA a gymeradwywyd fesul ardal awdurdod lleol o gymharu â'r holl gofrestriadau yn ôl math o Ganolfan Ddysgu 2022/23**





Ffynhonnell: StatsCymru Llywodraeth Cymru[53]. Ceisiadau am LCA a gymeradwywyd yn ôl rhywedd, math o ganolfan ddysgu a math o ddyfarniad wedi'u mapio yn erbyn dysgwyr AB yn ôl oedran ac awdurdod lleol a nifer y disgyblion mewn ysgolion fesul grŵp blwyddyn. Mae data StatsCymru wedi'i dalgrynnu i'r 10 agosaf felly nid yw'r cyfrannau bob amser yn cyfateb i 100 y cant.

53 Lwfansau Cynhaliaeth Addysg (addysg bellach) (llyw.cymru); Disgyblion yn ôl awdurdod lleol, grŵp blwyddyn a sector (llyw.cymru); Dysgwyr unigryw sydd wedi'u cofrestru mewn sefydliadau addysg bellach yn ôl awdurdod unedol a grŵp oedran (llyw.cymru)

### Cymwysterau sy'n cael eu hastudio

4.10 Dengys Ffigur 4.3 fod 31 y cant o'r ymgeiswyr y cafodd eu ceisiadau am LCA eu cymeradwyo yn astudio cymwysterau Safon Uwch neu Uwch Gyfrannol yn ystod y flwyddyn academaidd 2023/24. Roedd ychydig yn llai na chwarter, sef 23 y cant, yn astudio ar gyfer cymhwyster BTEC a chwarter arall, sef 24 y cant, yn astudio ar gyfer NVQ. Roedd y 22 y cant sy'n weddill yn astudio ar gyfer cymhwyster arall, ac yn y rhan fwyaf o'r achosion hyn nid yw natur y cymhwyster yn hysbys[54]. Er y dylid bod yn ofalus felly wrth ddehongli'r newidiadau dros amser a awgrymir yn Ffigur 4.3 , mae'n ymddangos bod y cyfrannau o dderbynyddion LCA sy'n astudio cyrsiau Safon Uwch neu Uwch Gyfrannol a BTEC wedi gostwng ychydig dros amser tra bod cyfran y derbynyddion LCA sy'n astudio cymwysterau NVQ wedi cynyddu.

**Ffigur 4.3: Cymwysterau a astudiwyd gan ymgeiswyr y cafodd eu ceisiadau am LCA eu cymeradwyo**




Ffynhonnell: Data Gwybodaeth Reoli SLC (fel ym mis Chwefror 2024)

[54] Mae statws y Cytundeb Dysgu yn cael ei ddangos fel 'anhysbys' ar ddata Gwybodaeth Reoli SLC nes bod y myfyriwr yn llofnodi'r Cytundeb Dysgu, a'r statws wedi'i ddiweddaru.

**Rhywedd**

4.11 Dros flynyddoedd cyntaf y cynllun, rhwng 2004/05 a 2012/13, dyfarnwyd yr LCA i gyfran ychydig yn uwch o ddysgwyr benywaidd ond mae'r gwahaniaeth wedi lleihau dros amser. Yn y flwyddyn academaidd ddiweddaraf, dyfarnwyd yr LCA i gyfran ychydig yn uwch o ddysgwyr benywaidd, yn unol â chofrestriadau cyffredinol dysgwyr AB.

**Tabl 4.5: Ceisiadau am LCA a gymeradwywyd fesul blwyddyn academaidd a rhywedd**

| Ystadegau swyddogol | Gwrywod Nifer | % | Benywod Nifer | % | Cyfanswm Nifer |
|---|---|---|---|---|---|
| 2013/14 | 14,500 | 48% | 15,680 | 52% | 30,180 |
| 2014/15 | 14,040 | 49% | 14,730 | 51% | 28,770 |
| 2015/16 | 12,830 | 49% | 13,420 | 51% | 26,250 |
| 2016/17 | 11,790 | 49% | 12,250 | 51% | 24,040 |
| 2017/18 | 11,260 | 49% | 11,560 | 51% | 22,820 |
| 2018/19 | 10,310 | 49% | 10,550 | 51% | 20,860 |
| 2019/20 | 10,120 | 50% | 10,180 | 50% | 20,300 |
| 2020/21 | 9,070 | 49% | 9,590 | 51% | 18,650 |
| 2021/22 | 8,290 | 49% | 8,720 | 51% | 17,020 |
| 2022/23 | 7,720 | 50% | 7,790 | 50% | 15,510 |

Ffynhonnell: StatsCymru Llywodraeth Cymru[55]. Ceisiadau am LCA a gymeradwywyd fesul blwyddyn academaidd a cham gwaith. Mae data StatsCymru wedi'i dalgrynnu i'r 10 agosaf. O ganlyniad, nid yw cyfanswm y data bob amser yn cyfateb.

| Data Gwybodaeth Reoli SLC | Gwrywod Nifer | % | Benywod Nifer | % | Cyfanswm Nifer |
|---|---|---|---|---|---|
| 2023/24[56] | 7,903 | 49% | 8,250 | 51% | 16,153 |

Ffynhonnell: Data Gwybodaeth Reoli SLC (fel ym mis Chwefror 2024)

**Oedran**

4.12 Fel y dangosir yn Nhabl 4.6, mae proffil oedran derbynyddion LCA wedi aros yn weddol ddigyfnewid dros y deng mlynedd diwethaf, gydag ychydig dros ddwy ran o bump o geisiadau a gymeradwywyd yn cael eu dyfarnu i bobl ifanc 16 oed, ychydig o dan ddwy ran o bump i rai 17 oed a llai nag un rhan o bump i rai 18 oed a throsodd. Mae cyfran y bobl ifanc 18 oed a throsodd sy'n cael yr LCA wedi gostwng ychydig dros y deng mlynedd diwethaf ac ar hyn o bryd mae ar ei lefel isaf ers ei sefydlu, sef 15 y cant. I'r

[55] Lwfansau Cynhaliaeth Addysg (addysg bellach) (llyw.cymru)
[56] Data Gwybodaeth Reoli SLC (fel ym mis Chwefror 2024)

gwrthwyneb, bu cynnydd bach yng nghyfran y bobl ifanc 16 oed sy’n cael yr LCA ers 2013/14.

**Tabl 4.6: Ceisiadau am LCA a gymeradwywyd fesul blwyddyn academaidd ac oed**

| | 16 | | 17 | | 18 a throsodd | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer |
| 2013/14 | 13,330 | 44% | 11,350 | 38% | 5,490 | 18% | 30,180 |
| 2014/15 | 11,910 | 41% | 11,640 | 40% | 5,230 | 18% | 28,770 |
| 2015/16 | 10,830 | 41% | 10,300 | 39% | 5,120 | 20% | 26,250 |
| 2016/17 | 10,200 | 42% | 9,420 | 39% | 4,430 | 18% | 24,040 |
| 2017/18 | 9,540 | 42% | 8,980 | 39% | 4,290 | 19% | 22,820 |
| 2018/19 | 8,870 | 43% | 8,240 | 40% | 3,760 | 18% | 20,860 |
| 2019/20 | 8,840 | 44% | 7,880 | 39% | 3,580 | 18% | 20,300 |
| 2020/21 | 8,180 | 44% | 7,260 | 39% | 3,220 | 17% | 18,650 |
| 2021/22 | 7,340 | 43% | 6,910 | 41% | 2,770 | 16% | 17,020 |
| 2022/23 | 7,130 | 46% | 6,070 | 39% | 2,320 | 15% | 15,510 |

Ffynhonnell: StatsCymru Llywodraeth Cymru[57]. Ceisiadau am LCA a gymeradwywyd yn ôl rhywedd, math o ganolfan ddysgu a math o ddyfarniad. Mae data StatsCymru wedi'i dalgrynnu i'r 10 agosaf. O ganlyniad, nid yw cyfanswm y data bob amser yn cyfateb i 100%.

### Incwm aelwydydd

4.13 Fel y dangosir yn Nhabl 4.7, mae tri chwarter y derbynyddion LCA o grwpiau nad ydynt yn esempt yn dod o aelwydydd ag incwm o hyd at £20,817 tra bod chwarter yn dod o aelwydydd ag incwm o hyd at £23,077. Mae'r rhaniad hwn wedi aros yr un fath yn gyffredinol dros y saith mlynedd diwethaf.

**Tabl 4.7: Ceisiadau am LCA a gymeradwywyd yn ôl incwm aelwydydd a nifer y dibynyddion**

| | Un dibynnydd (Incwm aelwyd hyd at £20,817) | | Mwy nag un dibynnydd (Incwm aelwyd hyd at £23,077) | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer |
| 2017/18 | 17,595 | 77% | 5,213 | 23% | 22,808 |
| 2018/19 | 15,871 | 76% | 5,003 | 24% | 20,874 |
| 2019/20 | 15,245 | 75% | 5,048 | 25% | 20,293 |
| 2020/21 | 13,952 | 75% | 4,712 | 25% | 18,664 |
| 2021/22 | 12,792 | 75% | 4,263 | 25% | 17,055 |
| 2022/23 | 11,749 | 76% | 3,804 | 24% | 15,553 |
| 2023/24 | 12,000 | 74% | 4,153 | 26% | 16,153 |

Ffynhonnell: Data Gwybodaeth Reoli SLC ar gyfer dysgwyr nad ydynt wedi'u heithrio (fel ym mis Chwefror 2024)

57 Lwfansau Cynhaliaeth Addysg (addysg bellach) (llyw.cymru)

**Dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal**

4.14 Dengys Tabl 4.8 fod nifer y ceisiadau am LCA a gymeradwywyd a wnaed gan ddysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal wedi lleihau'n raddol rhwng 2014/15 a 2023/24, ond wedi cynyddu ychydig dros amser fel cyfran o’r holl ymgeiswyr LCA cymeradwy. Yn ystod y flwyddyn academaidd 2023/24, roedd dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal a oedd yn derbyn LCA yn cyfrif am 3.5 y cant o’r holl dderbynyddion.

**Tabl 4.8: Ymgeiswyr LCA â phrofiad o fod mewn gofal y cymeradwywyd eu ceisiadau**

| | Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd a wnaed gan y rhai â phrofiad o fod mewn gofal | Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd a wnaed gan y rhai â phrofiad o fod mewn gofal fel % o'r holl geisiadau a gymeradwywyd |
|---|---:|---:|
| 2014/15 | 715 | 2.5% |
| 2015/16 | 653 | 2.5% |
| 2016/17 | 628 | 2.6% |
| 2017/18 | 612 | 2.7% |
| 2018/19 | 607 | 2.9% |
| 2019/20 | 664 | 3.3% |
| 2020/21 | 621 | 3.3% |
| 2021/22 | 615 | 3.6% |
| 2022/23 | 586 | 3.8% |
| 2023/24 | 569 | 3.5% |

Ffynhonnell: Data Gwybodaeth Reoli SLC (fel ym mis Chwefror 2024)

**Cyfrifoldeb am blentyn**

4.15 Mae nifer y ceisiadau am LCA a gymeradwywyd a wnaed gan ymgeiswyr sy’n gyfrifol am blentyn wedi mwy na haneru dros y deng mlynedd diwethaf, o 59 yn 2014/15 i 18 yn 2023/24[58], yn unol â gostyngiad mewn cyfraddau beichiogrwydd yn yr arddegau yn ystod y cyfnod hwn[59].

[58] Data Gwybodaeth Reoli SLC (fel ym mis Chwefror 2024)

[59] Mae’r gyfradd beichiogi ar gyfer menywod o dan 18 oed yng Nghymru a Lloegr wedi mwy na haneru ers 2011 pan oedd yn 30.9 fesul 1,000 o fenywod o’r un oedran; yn 2021 roedd yn 13.2 fesul 1,000 o fenywod o'r un oedran. Cyfraddau beichiogi yng Nghymru a Lloegr - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Saesneg yn unig)

### Troseddwr ifanc

4.16 Nodwyd llai na phump o ddysgwyr yn nata Gwybodaeth Reoli SLC fel ymgeiswyr LCA y cymeradwywyd eu cais dros y deng mlynedd diwethaf[60].

### Dysgwyr annibynnol

4.17 Mae nifer y dysgwyr annibynnol[61] sy'n derbyn LCA wedi lleihau dros amser yn unol â'r gostyngiad cyffredinol yn nifer y derbynyddion LCA. Yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, 2023/24, roedd 693 o dderbynyddion LCA yn ddysgwyr annibynnol. Mae dysgwyr annibynnol wedi cynrychioli'n gyson rhwng tri a phedwar y cant o'r holl geisiadau a gymeradwywyd dros y deng mlynedd diwethaf[62].

### Dewis iaith

4.18 Gellir derbyn gohebiaeth am yr LCA, a phob gohebiaeth arall, yn y Gymraeg neu'r Saesneg ac mae'n well gan fwyafrif helaeth yr ymgeiswyr am LCA ac ymgeiswyr y cymeradwywyd eu cais (cyfradd o 98 y cant ar gyfer y ddau yn 2023/24) dderbyn gohebiaeth yn Saesneg, ac nid yw hyn wedi newid yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'n well gan y ddau y cant sy'n weddill (ar 2023/24) dderbyn gohebiaeth yn uniaith Gymraeg neu nid oes ots ganddynt[63].

### Gwybodaeth ddemograffig

4.19 Gwladolion o'r DU yw'r rhan fwyaf o ymgeiswyr am yr LCA, ac mae hynny'n wir am 95 y cant o'r ymgeiswyr llwyddiannus yn 2023/24[64]. Roedd gan y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr llwyddiannus a oedd yn weddill statws preswylydd cyn-sefydlog neu sefydlog Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd (EUSS), statws ffoadur, neu roeddent yn cymryd rhan yn yng Nghynllun Wcráin.

[60] Data Gwybodaeth Reoli SLC (fel ym mis Chwefror 2024)
[61] Dysgwyr sy'n annibynnol yn ariannol ac nad ydynt yn byw gyda'u rhieni neu warcheidwaid.
[62] Data Gwybodaeth Reoli SLC (fel ym mis Chwefror 2024)
[63] Data Gwybodaeth Reoli SLC (fel ym mis Chwefror 2024)
[64] Data Gwybodaeth Reoli SLC (fel ym mis Chwefror 2024)

4.20 Cyhoeddir rhywfaint o wybodaeth ddemograffig ym Mwletinau Ystadegol LCA blynyddol Llywodraeth Cymru.[65] Gan fod y rhain yn defnyddio data ar wahân a ddarperir yn wirfoddol gan ymgeiswyr am yr LCA, ni ellir eu dadansoddi oherwydd natur ddienw y wybodaeth. Mae'r bwletin diweddaraf ar gyfer 2022/23 yn dangos bod 5,705 o ffurflenni monitro cyfle cyfartal wedi'u derbyn yn 2022/23 sy'n cyfateb i 32 y cant o'r holl geisiadau am LCA a dderbyniwyd ar gyfer y flwyddyn honno. Nid yw'n hysbys a gafodd y ceisiadau hyn eu cymeradwyo neu eu gwrthod gan fod y data wedi'u datgysylltu o'r broses ymgeisio, ac nid yw pob ffurflen wedi'i chwblhau'n llawn. Mae data'r ceisiadau y cwblhawyd ffurflen cyfle cyfartal ar eu cyfer o 1 Tachwedd 2023 yn dangos:

- bod 12 y cant yn anabl[66]
- bod 90 wedi nodi eu hethnigrwydd fel Gwyn
- bod dau y cant wedi nodi eu bod yn Ddu neu'n Ddu Prydeinig
- bod naw y cant wedi nodi hil Gymysg, Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig a Tsieineaidd neu grŵp ethnig arall
- bod llai nag un y cant wedi nodi mwy nag un ethnigrwydd.

**Gwariant LCA yng Nghymru**

4.21 Adroddodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg mewn Cyfarfod Llawn o Senedd Cymru ym mis Chwefror 2023 mai £17 miliwn oedd y gyllideb flynyddol ar gyfer yr LCA[67].

4.22 Yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf (2022/23), talwyd £12.9 miliwn gan yr SLC i dderbynyddion LCA. Disgwylir y bydd y cyfanswm a delir i dderbynyddion LCA yn uwch ar gyfer y flwyddyn academaidd hon (2023/24) gan y bydd y lwfans wythnosol uwch a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2023 yn berthnasol ar draws y flwyddyn academaidd lawn. Y taliad mwyaf posibl i unrhyw dderbynnydd LCA yn y flwyddyn academaidd hon (2023/24) yw £1,600, wedi'i gyfrifo ar y sail bod dysgwr yn cymryd rhan mewn addysg

---

65 Lwfansau Cynhaliaeth Addysg (LCA) a ddyfarnwyd yng Nghymru | LLYW.CYMRU
66 Gofynnodd y ffurflenni monitro 'ydych chi'n ystyried fod gennych anabledd?'.
67 Y Cyfarfod Llawn 15/02/2023 - Senedd Cymru (cynulliad.cymru) pwynt 249

am 40 wythnos a bod ei gofnod presenoldeb yn 100 y cant. Gwerth cyfartalog y taliad a wnaed i dderbynyddion LCA hyd yma yn y flwyddyn academaidd gyfredol (2023/24) yw £833[68]. Mae hyn yn cymharu â gwerth taliad cyfartalog cyffredinol o £797 a wnaed i dderbynyddion yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol (2022/23) pan dderbyniodd dysgwyr y lwfans o £30 tan fis Ebrill 2023 a £40 ar ôl hynny. Mae'r gwahaniaeth rhwng y dyraniad mwyaf posibl a gwerth cyfartalog y taliad yn adlewyrchu'r ffaith bod rhai derbynyddion yn cymryd rhan mewn rhaglenni dysgu byrrach[69], bod eraill yn rhoi'r gorau i'w cyrsiau yn gynnar ac nad yw eraill yn cael eu dyraniad llawn oherwydd bod taliadau'n cael eu hatal oherwydd absenoldeb.

[68] Fel ym mis Mai 2024. Bydd gwerth cyfartalog y taliad yn cynyddu erbyn diwedd y flwyddyn academaidd.
[69] Rhaid i ddysgwyr gofrestru ar gwrs sy'n para 10 wythnos o leiaf er mwyn derbyn yr LCA.

# 5. Dyluniad LCA

5.1 Mae'r bennod hon yn trafod yr adborth a gasglwyd gan staff Canolfannau Dysgu a rhanddeiliaid am ddyluniad y Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA). Mae hefyd, fel y bo’n briodol, yn ystyried barn dysgwyr presennol a blaenorol a gasglwyd drwy’r arolwg a gwaith maes ansoddol yn ogystal ag adborth gan rieni’r rhai sy’n derbyn LCA.

**Nodau ac amcanion yr LCA a'r angen amdano**

5.2 Roedd consensws cyffredinol ymhlith yr holl gyfranwyr at yr adolygiad hwn fod yr LCA yn gymhelliant ariannol i ddysgwyr o aelwydydd incwm isel barhau mewn addysg ôl-16. Pwysleisiodd llawer o staff Canolfannau Dysgu a rhanddeiliaid bwysigrwydd yr LCA o ran helpu i oresgyn rhwystrau i ddysgwyr aros mewn addysg a helpu i sicrhau bod dysgwyr o deuluoedd incwm is yn cael cyfle cyfartal i barhau â'u haddysg. Awgrymodd cynrychiolwyr ysgol, oherwydd mai dysgwyr sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim yw’r lleiaf tebygol o aros ymlaen yn y chweched dosbarth (er y gallent fod yn cofrestru mewn colegau AB yn lle hynny) bod dadl gref dros gynnig yr LCA i grŵp wedi'i dargedu er mwyn eu galluogi i barhau mewn addysg. Er enghraifft, mewn un ysgol mae disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim yn cyfrif am 20 y cant o’r holl ddisgyblion ym mlynyddoedd 7 i 11, ac eto mae hyn yn gostwng i tua 5-7 y cant ymhlith dysgwyr chweched dosbarth.

> 'Mae'n [gymhelliant] i barhau i ddysgu ac i barhau i roi cyfleoedd iddyn nhw ac agor drysau. Mae cludiant am ddim i'r ysgol yn dod i ben pan fyddan nhw'n cyrraedd oedran penodol. Felly mae'n rhoi'r cyfle iddyn nhw fynd i'r ysgol, i barhau â'u haddysg.' (Cynrychiolydd staff ysgol)

5.3 Dadleuodd staff Canolfannau Dysgu a rhanddeiliaid fod yr angen am yr LCA wedi cynyddu dros amser. Aeth sawl un mor bell â nodi bod y cyd-destun y cyflwynwyd yr LCA ynddo yn wreiddiol 20 mlynedd ynghynt yn dra gwahanol a bod 'y byd yn lle gwahanol iawn' heddiw. Nododd staff Canolfannau Dysgu a rhanddeiliaid fod yr LCA wedi dod yn rhan gynyddol o gostau byw’r cartref, a’i fod bellach yn elfen hanfodol, yn hytrach nag elfen ychwanegol, o incwm yr aelwyd.

> 'Mae mwy o angen byth am yr LCA nawr. Mae mwy a mwy o ddysgwyr yn wynebu tlodi ariannol ac yn cyrraedd y trothwy hwnnw. Os ydym am iddyn nhw ddatblygu sgiliau academaidd ac ennill y cymwysterau sydd eu hangen arnyn nhw, y peth olaf sydd ei angen arnom yw rhwystr.' (Cynrychiolydd staff AB)

5.4 Dadleuodd llawer o staff Canolfannau Dysgu fod proffil eu dysgwyr wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a bod proffil derbynyddion LCA yn adlewyrchu'r newidiadau hyn. Soniodd staff Canolfannau Dysgu am gynnydd sylweddol yn nifer y dysgwyr â phroblemau iechyd meddwl, a oedd yn aml yn gysylltiedig â gorbryder a phryderon ariannol, yn ogystal â chynnydd ym mharhad a nifer yr achosion o dlodi ymhlith myfyrwyr. Fel y nododd un cynrychiolydd staff AB, roedd achosion a difrifoldeb y materion hyn wedi dod yn llawer mwy cyffredin:

> 'mae straeon unigryw [am ddysgwyr sy'n wynebu anawsterau difrifol] yn dod yn fwy cyffredin. Roedden nhw'n arfer bod yn achosion eithafol...maen nhw wedi dod yn norm bellach.' (Cynrychiolydd staff AB)

5.5 Cafwyd peth awgrym, yn enwedig gan randdeiliaid, nad oedd yr LCA wedi cael yr un lefel o flaenoriaeth â pholisïau eraill Llywodraeth Cymru sy’n ceisio mynd i’r afael â thlodi ac ehangu mynediad at addysg. Heblaw am y cynnydd yn y lwfans a gyhoeddwyd yn ystod 2023, dywedwyd nad oedd yr LCA wedi esblygu i ystyried newidiadau mewn enillion aelwydydd. Cafwyd awgrym hefyd nad oedd cyfeiriadau arbennig o dda ato ym mholisïau Llywodraeth Cymru, ac eithrio’r Rhaglen Lywodraethu.

**Cymhwystra ar gyfer yr LCA**

5.6 Roedd yr holl gyfranwyr at yr adolygiad hwn o’r farn ei bod yn briodol i’r LCA gael ei flaenoriaethu ar gyfer dysgwyr o aelwydydd incwm isel, er bod llond llaw o staff Canolfannau Dysgu o’r farn, mewn byd delfrydol, y dylai fod ar gael i bob dysgwr. Roedd cynrychiolydd UCM Cymru a gyfwelwyd o blaid rhoi'r gorau i ddefnyddio model incwm rhieni fel modd o ddyrannu cymorth ariannol, gan nodi bod hwn yn ddull hen ffasiwn a oedd yn cymryd yn ganiataol bod rhieni’n cefnogi dysgwyr yn ariannol.

'Os ydych chi'n defnyddio incwm aelwyd ar gyfer cymhwystra, bydd wastad rhai, na fyddant yn gymwys, yn dal i gael trafferthion. Felly, pe bai cyfle cyfartal a phe bai mynediad i bawb, fyddai neb dan anfantais…' (Cynrychiolydd staff ysgol)

'Ar gyfer aelwydydd incwm isel, mae rheswm da pam mae ei angen. Er enghraifft, os oes aelwyd ble mae dau riant yn gweithio'n llawn amser, gyda lefel uwch o incwm, yna efallai na fydd cymaint o angen yr arian arnyn nhw, gallan nhw roi'r arian i'r plentyn......' (Cyn-dderbynnydd LCA)

5.7 Roedd barn unfrydol ymysg yr holl gyfranwyr bod y trothwy incwm aelwydydd ar gyfer yr LCA bellach yn rhy isel, a bu llawer o feirniadaeth ymhlith staff Canolfannau Dysgu, rhanddeiliaid, a'r rhai nad oeddent yn derbyn LCA nad oedd hyn wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

5.8 Roedd rhanddeiliaid a staff y Canolfannau Dysgu o'r farn ei bod yn amhriodol nad oedd trothwyon incwm aelwydydd wedi newid ers cyhyd ac awgrymodd mai hynny sydd i'w gyfrif i raddau helaeth am y gostyngiad parhaus yn nifer y derbynyddion yn eu sefydliad. Roedd galwad gref am adolygu trothwyon incwm aelwydydd yr LCA yn rheolaidd yn y dyfodol, mewn modd tebyg i sut yr oedd cyllid myfyrwyr addysg uwch yn cael ei adolygu.

'Mae'r terfyn incwm yn ymddangos ychydig yn rhy isel yn enwedig o ystyried yr argyfwng costau byw presennol.' (Dysgwr nad yw'n derbyn LCA)

5.9 Adeg y gwaith maes, awgrymodd nifer o gyfranwyr mai trothwy incwm aelwyd priodol fyddai oddeutu £25-£27,000, yn hytrach na'r £20-£23,000 presennol. Awgrymodd y cyfranwyr y gellid cysoni, neu ystyried, trothwyon incwm aelwydydd â'r canlynol:

- trothwyon yr isafswm cyflog sy'n £9.17 yr awr (neu £17,881 y flwyddyn[70]) ar hyn o bryd

[70] Wedi'i gyfrifo ar sail £9.17 x 37.5 awr yr wythnos x 52 wythnos y flwyddyn

- trothwyon y cyflog byw cenedlaethol neu'r cyflog byw gwirioneddol, sef £10.42 a £12.00 yr awr ar hyn o bryd yn y drefn honno (neu £20,319 a £23,400 y flwyddyn[71])
- cynnydd yn sgil chwyddiant fel y mynegai Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr
- y trothwyon incwm aelwydydd ar gyfer addysg uwch ar gyfer darparu cymorth ariannol ar ffurf grant cynhaliaeth i helpu myfyrwyr gyda chostau byw, lle mae lefel y lwfans a delir yn cael ei bennu gan incwm yr aelwyd
- trothwyon budd-dal plant[72]
- trothwyon incwm aelwydydd a bennir gan sefydliadau eraill, megis Ymddiriedolaeth Sutton sy’n cefnogi plant o aelwydydd ag incwm o dan £45,000 i astudio dramor[73].

5.10 Rhoddodd y rhai nad ydynt yn derbyn LCA a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws, ac a ddywedodd eu bod yn wynebu caledi ariannol difrifol, nifer o enghreifftiau o golli'r cyfle i gael y lwfans oherwydd eu bod yn byw ar aelwydydd a oedd yn ennill ychydig uwchlaw'r trothwy incwm. Dywedodd un dysgwr ym Mlwyddyn 13 a oedd yn derbyn yr LCA ar hyn o bryd nad oedd ganddo hawl i gael yr LCA yn y flwyddyn flaenorol oherwydd bod incwm blynyddol ei gartref £120 dros y trothwy. Rhoddodd staff Canolfannau Dysgu nifer o enghreifftiau o ddysgwyr nad oeddent yn derbyn yr LCA a oedd yn cael trafferthion ariannol. Er enghraifft, dywedodd un cynrychiolydd staff AB fod gan y coleg ddysgwyr nad oeddent yn derbyn LCA na allant fforddio bwyta yn y coleg, a bu’n rhaid iddo gysylltu â'r tîm diogelu oherwydd achosion o ddysgwyr yn llewygu. Ystyriwyd bod diffyg unrhyw ddisgresiwn gan y coleg wrth ddyfarnu’r LCA, yn wahanol i’r Gronfa

[71] Wedi’i gyfrifo ar sail £10.42 neu £12 x 37.5 awr yr wythnos x 52 wythnos y flwyddyn
[72] Mae teuluoedd yn derbyn £25.60 am y plentyn hynaf neu'r unig blentyn ac £16.95 wedi hynny am unrhyw blant ychwanegol; ar gyfer plentyn o dan 16 neu o dan 20 oed os yw mewn addysg amser llawn. Er mwyn derbyn budd-dal plant, rhaid i incwm net blynyddol wedi'i addasu unrhyw riant fod yn £60,000 neu'n is. Mae'n ofynnol i'r rhai sy'n ennill mwy na hyn ad-dalu rhywfaint neu'r cyfan o'r budd-dal.
[73] I gael rhagor o wybodaeth, a meini prawf cymhwystra eraill a fabwysiadwyd gan Ymddiriedolaeth Sutton gweler: Study in the USA with the Sutton Trust - US Programme

Cymorth Wrth Gefn, yn rhwystr mewn achosion fel y rhain a galwodd staff AB am fwy o hyblygrwydd yn y broses ymgeisio i fyfyrio ar dystiolaeth y gallai Canolfannau Dysgu ei chynnig.

5.11 Neges allweddol gan bob math o gyfranwyr i'r adolygiad hwn oedd y dylid rhoi mwy o ystyriaeth i amgylchiadau'r teulu a'r dysgwr wrth bennu cymhwystra ar gyfer yr LCA, a hefyd efallai wrth bennu lefel y lwfans a delir. Roedd y brif ystyriaeth a godwyd yn ymwneud â nifer y dibynyddion eraill ar yr aelwyd. Roedd y cyfranwyr yn meddwl ei bod yn briodol bod y meini prawf presennol yn gwahaniaethu rhwng aelwydydd ag un neu fwy o ddibynyddion eraill, ond roedd awgrym cryf y dylid ehangu'r meini prawf i ystyried nifer y plant sy'n dal mewn addysg. Nododd nifer o staff a dysgwyr fod lefelau gwariant teuluoedd â dau o blant, yn hytrach na thri neu bedwar, yn wahanol iawn:

> 'Os edrychwch chi ar yr hyn y maen nhw'n asesu'r LCA yn ei erbyn ar hyn o bryd, mae carfan fach o bobl sy'n ennill rhwng £24,000 ac ychydig o dan £30,000 a chanddynt ddau neu dri o blant ar yr aelwyd. Dydyn nhw ddim yn cael ceiniog. Mae angen cymorth arnyn nhw hefyd. Achos bod y teuluoedd yn ennill ychydig mwy o arian, dydyn nhw ddim yn cael cymorth. Ond mae'n bosib eu bod nhw yn yr un sefyllfa yn union oherwydd maen ganddyn nhw ddau neu dri o blant. Dw i'n meddwl bod angen inni fod yn cefnogi'r rheini hefyd.' (Cynrychiolydd staff AB)

5.12 Roedd rhywfaint o awgrym hefyd y dylai lefel y lwfans a delir ystyried gwariant y teulu, ac nid dim ond incwm yn unig.

**P'un a yw'r LCA yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r dysgwyr sydd ei angen fwyaf, ac a oes unrhyw grwpiau sy'n colli'r cyfle i gael y lwfans**

5.13 At ei gilydd, mae'r adborth a gasglwyd yn ystod y gwaith maes yn awgrymu bod yr LCA yn cael ei ddefnyddio'n gyffredinol i gefnogi dysgwyr sydd ei angen – er bod enghreifftiau o ddysgwyr (a drafodir ym Mhennod 9) sy'n ystyried bod yr LCA yn fwy o rywbeth sy'n 'braf ei gael' yn hytrach na chyfraniad hanfodol. Nododd staff Canolfannau Dysgu hefyd enghreifftiau achlysurol o dderbynyddion LCA nad oeddent yn ystyried bod angen yr

LCA arnynt. Er enghraifft, roedd un dysgwr, yr oedd ei rieni wedi gwahanu, wedi cymhwyso ar gyfer y lwfans gan fod incwm ei fam o dan y trothwy, ond roedd y dysgwr hefyd yn cael cymorth ariannol gan ei dad.

5.14 Canfu'r gwaith maes fod pum grŵp o ddysgwyr yr oedd cyfranwyr yn meddwl eu bod yn colli'r cyfle i gael yr LCA:

- dysgwyr sy'n byw'n annibynnol ond na allant fodloni neu brofi'r meini prawf cymhwystra oherwydd nad ydynt wedi bod yn byw'n annibynnol dros y 12 mis blaenorol. Darparwyd rhai enghreifftiau yn ystod y gwaith maes e.e. roedd un dysgwr wedi gadael ei chartref am resymau diogelwch ac wedi cael ei lleoli gyda theulu dros dro ond nid oedd yn gallu cael mynediad at y wybodaeth angenrheidiol am incwm yr aelwyd i wneud cais am yr LCA. Roedd enghreifftiau eraill yn cynnwys dysgwyr a oedd yn cysgu ar soffas, neu'n byw gyda neiniau a theidiau neu aelodau eraill o'r teulu, gan gynnwys y rhai nad oeddent yn ymwybodol y gallent fod yn gymwys:

  > '[mae gennym] ddysgwr sy'n ei chael hi'n anodd cyrraedd yr ysgol a gallai'r arian o'r LCA fod yn ddefnyddiol iddi ond oherwydd ei bod hi mewn sefyllfa gymdeithasol lle nad oes ganddi gysylltiad â'i rhieni, dydy hi ddim yn gallu llenwi'r ffurflenni cywir. Mae'n debyg nad yw'r LCA yn cyrraedd y plant hynny sydd mewn sefyllfa enbyd.' (Cynrychiolydd staff ysgol)

- gofalwyr ifanc, yn bennaf oherwydd  yr anawsterau o ran eu hadnabod a phrofi eu bod yn ofalwyr ifanc. Awgrymwyd y byddai'n werth ymchwilio i gynnwys gofalwyr ifanc fel grŵp esempt i fod yn gymwys ar gyfer yr LCA, a/neu osod trothwyon incwm aelwydydd uwch ar eu cyfer. Roedd rhywfaint o awgrym bod rhai gofalwyr ifanc yn cael eu cefnogi drwy'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn os nad ydynt wedi gallu cymhwyso ar gyfer yr LCA. Nododd staff Canolfannau Dysgu a rhanddeiliaid fod y broses o gofrestru fel gofalwr ifanc yn cymryd amser (a fyddai'n llesteirio eu gallu i brofi cymhwystra o'r fath) ond y byddai tystiolaeth fel derbyn Lwfans Gofalwr Ifanc neu

gael cerdyn adnabod Gofalwr Ifanc yn briodol i'w defnyddio wrth wneud cais am yr LCA

- dysgwyr a oedd yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim pan oeddent ym Mlwyddyn 11 yn yr ysgol. Awgrymodd staff ysgol y dylai'r garfan hon gymhwyso'n awtomatig ar gyfer yr LCA, yn bennaf oherwydd mai'r grŵp hwn yw'r gynulleidfa darged ar gyfer yr LCA, ond hefyd oherwydd bod cyfran y dysgwyr sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim sy'n parhau â'u haddysg yn is na'r cyfartaledd.

    '[os ydych chi'n cael Prydau Ysgol am Ddim] pam na fyddech chi'n gymwys ar gyfer y ddau [Prydau Ysgol am Ddim yn ogystal â'r LCA].' (Cynrychiolydd staff ysgol)

- dysgwyr o gartrefi un rhiant sy'n gweithio. Dadleuwyd y byddai'r grŵp hwn o ddysgwyr yn elwa o gymorth pe bai'r trothwyon incwm aelwydydd yn cael eu cynyddu:

    'mae gennym lawer iawn o fyfyrwyr o deuluoedd un rhiant sy'n gweithio ychydig oriau'r wythnos.' (Cynrychiolydd staff ysgol)

- dysgwyr sy'n cael Taliad Annibyniaeth Personol sy'n darparu cymorth ychwanegol ar gyfer costau byw i'r rhai sydd â chyflwr neu anabledd corfforol neu gyflwr iechyd meddyliol hirdymor. Roedd rhywfaint o awgrym nad oedd pob rhiant yn ymwybodol y byddai eu plentyn yn gymwys ar gyfer yr LCA os oeddent yn hawlio'r Taliad Annibyniaeth Personol.

**Categorïau esemptiadau yr LCA**

5.15 Roedd Canolfannau Dysgu a rhanddeiliaid yn meddwl yn gyffredinol bod y categorïau esemptiadau presennol yn briodol, ond (fel y trafodwyd eisoes) roedd awydd i weld gofalwyr ifanc ac efallai ddysgwyr sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim yn cael eu cynnwys fel grwpiau esempt.

**Taliad i'r dysgwr**

5.16 Roedd consensws y dylid dyfarnu'r LCA yn uniongyrchol i ddysgwyr yn hytrach na'u rhieni neu warcheidwaid. Credwyd mai dwy brif fantais gwneud hynny oedd ei fod yn cynnig cyfle i ddysgwyr reoli eu harian eu

hunain (yn aml am y tro cyntaf) a dysgu sgiliau ac arferion cyllidebu da; a'i fod yn lleddfu unrhyw bryderon ynghylch unrhyw ddefnydd amhriodol o'r cyllid gan rieni neu warcheidwaid, megis mewn achosion lle y gwyddys bod gan rieni broblemau'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau.

5.17 Roedd hon yn neges arbennig o gryf a gafodd ei chyfleu gan ddysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal a staff y Canolfannau Dysgu a oedd yn myfyrio ar amgylchiadau eu dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal. Yn yr achosion hyn, ystyriwyd ei bod yn bwysig bod y lwfans yn cael ei drin fel lwfans y dysgwr yn hytrach na rhan o incwm rhiant maeth, er mwyn rhoi rhywfaint o annibyniaeth ariannol i ddysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal.

**Effaith cynyddu'r LCA o £30 i £40**

5.18 Croesawodd y rhai a gymerodd ran yn grwpiau ffocws y cynnydd diweddar yn nhaliadau'r LCA i £40, y credwyd ei fod wedi gwneud gwahaniaeth i'w gallu i dalu costau beunyddiol fel bwyd yn y coleg neu'r ysgol, cludiant, dillad ac adnoddau addysgol. Roedd llawer o'r rhai a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws a oedd wedi derbyn y lwfans o £30 yn flaenorol yn ei chael hi'n anodd nodi'r manteision penodol a gawsant yn sgil y cynnydd, yn anad dim oherwydd bod cost pethau bob dydd wedi cynyddu dros yr un cyfnod. Fodd bynnag, darparwyd rhai enghreifftiau unigol, megis un dysgwr a ddywedodd fod ganddo 'arian dros ben' ar ôl talu am wersi gyrru ers y cynnydd ac un arall a ddywedodd:

> 'Roeddwn i'n talu'r £30 i Mam am fwyd a llety. Pan aeth i fyny i £40 dywedodd y gallaf gadw'r £10, felly nawr, mae gen i hwnnw fel lwfans.' (Derbynnydd LCA mewn AB)

5.19 Yn yr un modd, roedd staff Canolfannau Dysgu yn croesawu'r cynnydd hefyd:

> 'Roedd y cynnydd o £30 i £40 yn gynnydd mawr ei angen oherwydd roedd wedi bod yn £30 am gyfnod maith. Yn sicr fe wnaeth i'n myfyrwyr ni wenu pan ddywedais y newyddion wrthynt.' (Cynrychiolydd staff ysgol)

5.20 Roedd peth awgrym bod y cyhoeddiad ynghylch y cynnydd wedi digwydd yn gyflym ac o ganlyniad nid oedd wedi cael ei gyfleu'n arbennig o dda i ddysgwyr. Dywedodd staff mewn un SAB:

> 'Roedd llawer o'r myfyrwyr yn meddwl eu bod wedi cael eu talu'n anghywir neu wedi cael gordaliad pan gafodd y lwfans ei gynyddu o £30 i £40 yr wythnos, gyda rhai yn cynnig ad-dalu'r arian. Digwyddodd yn gyflym iawn, iawn.' (Cynrychiolydd staff AB)

5.21 Cafwyd tystiolaeth anecdotaidd gan ambell Ganolfan Ddysgu fod y cynnydd yn y lwfans i £40 yn cyd-daro â chynnydd yn nifer y derbynyddion LCA yn eu lleoliad, er na allent ddiystyru effaith ffactorau eraill, megis rhieni'n colli eu swyddi ac felly eu hincwm, ar gynnydd o'r fath. Adroddodd un Ganolfan Ddysgu o'r fath fod nifer y derbynyddion LCA wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn academaidd hon (2023/24), er gwaethaf tueddiadau o leihad yn nifer y derbynyddion blynyddol blaenorol. Dywedodd Canolfan Ddysgu arall ei bod wedi gweld 'cynnydd aruthrol' mewn presenoldeb wythnosol ers i'r LCA gynyddu.

**Barn ynghylch y lwfans presennol o £40 yr wythnos**

5.22 Yn gyffredinol, roedd 41 y cant o'r ymgeiswyr am LCA a holwyd yn meddwl bod y lwfans wythnosol o £40 fwy neu lai yn iawn tra bod 51 y cant yn meddwl ei fod yn rhy ychydig. Roedd dysgwyr mewn colegau ychydig yn fwy tebygol (53 y cant) o ddadlau bod y lwfans yn rhy isel tra bod dysgwyr mewn ysgolion (47 y cant) yn fwy tebygol o feddwl mai dyma'r swm cywir, fel y nodir yn Nhabl 5.1.

**Tabl 5.1: Barn ymgeiswyr am LCA ar y lwfans o £40**

| | **Nifer** | **%** |
|---|---:|---:|
| Gormod | 4 | <1% |
| Y swm cywir | 1,120 | 41% |
| Rhy ychydig | 1,398 | 51% |
| Ddim yn gwybod neu heb ateb | 209 | 8% |
| Cyfanswm | 2,731 | 100% |

Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3, Mawrth 2024.

5.23 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn credu bod y lwfans o £40 yn rhy isel beth ddylai'r swm cywir fod yn eu barn nhw. Nodir y data yn Nhabl 5.2 ac awgryma fod tua dwy ran o dair o’r ymatebwyr o’r farn y dylai’r lwfans wythnosol fod yn swm o hyd at £50.

**Tabl 5.2: Ymgeiswyr am LCA sy'n ystyried bod y lwfans o £40 yn rhy isel a beth y dylai'r lwfans LCA fod**

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Dros £40 a hyd at £45 | 52 | 4% |
| Dros £45 a hyd at £50 | 822 | 61% |
| Dros £50 a hyd at £55 | 54 | 4% |
| Dros £55 a hyd at £60 | 328 | 24% |
| Dros £65 | 100 | 7% |
| Cyfanswm | 1,356 | 100% |

Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3, Mawrth 2024. Y rhai a oedd yn ystyried bod y lwfans o £40 yn rhy isel.

5.24 Awgrymodd bron i un o bob saith ymateb (200 neu 14 y cant) yr hoffent weld cynnydd yng ngwerth y swm wythnosol a ddarperir, wrth ymateb i gwestiwn penagored terfynol yr arolwg a ofynnodd beth yr hoffent ei weld yn cael ei newid am yr LCA. Roedd nifer tebyg o ymatebwyr (186 neu 13 y cant) hefyd yn galw am daliadau mwy cyson, gan ffafrio taliadau wythnosol o'r LCA yn hytrach na phob pythefnos:

> 'cynyddu'r swm, prin ei fod yn talu fy nghostau teithio a bwyd am yr wythnos. Yn aml iawn dydy'r arian ddim yn para'
>
> 'cynyddu'r lwfans i £50 yr wythnos, a thalu'n wythnosol'
>
> ‘taliadau wythnosol o £40 yn lle £80 am yn ail wythnos’
>
> 'cynnydd o £10 efallai'
>
> 'dylai fod yn £60 yr wythnos o leiaf'
>
> 'cynyddu'r swm, talu'n wythnosol nid bob pythefnos'
>
> 'rwy'n teimlo y byddai'n fwy effeithlon pe baech chi'n dechrau gwneud taliadau o £40 yr wythnos ac nid £80 bob pythefnos. Yn bersonol, mae'n gwneud i mi deimlo'n fwy diogel gyda fy arian' (Yr holl ymatebion i'r arolwg).

5.25 Roedd gan ddysgwyr presennol a rhieni a gyfrannodd at y gwaith maes ansoddol farn gymysg ynglŷn â lefel y lwfans. Roedd llawer yn meddwl ei fod yn ddigon tra bod eraill yn meddwl ei fod yn rhy ychydig, er mai un ystyriaeth allweddol oedd a oedd yn rhaid i ddysgwyr ddefnyddio eu LCA i dalu costau fel cinio a theithio. Roedd llawer o'r dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal a gyfrannodd at y gwaith maes ansoddol o'r farn bod y lwfans o £40 yn rhy isel ar gyfer y rhai sy'n byw'n annibynnol.

> 'mae'n llawer o arian ... mae'n ddigon' (Derbynnydd LCA yn yr ysgol)
>
> 'mae £40 yn ddigon' (Rhiant derbynnydd LCA mewn coleg AB)
>
> 'mae'n eithaf hael' (Disgybl Blwyddyn 11)
>
> 'os ydych chi'n gwario £4.50 y dydd ar fwyd a £6 am fws – mae hynny'n £210 y mis, sy'n uwch na'r LCA o £160' (Derbynnydd LCA mewn coleg AB).

5.26 Daeth darlun mwy cymhleth i'r amlwg wrth ystyried barn staff Canolfannau Dysgu am lefel y lwfans. Er y byddai llawer yn croesawu cynnydd, roedd staff yn cydnabod bod cyllid dan bwysau ac yn brin, ac felly byddai'n well ganddynt weld unrhyw arian ychwanegol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi carfan ehangach o ddysgwyr. Teimlai llawer fod y £40 presennol yn 'deg' ac awgrymwyd y dylai cynyddu'r lwfans fod yn flaenoriaeth eilradd.

5.27 Myfyriodd sawl aelod o staff ar ddiben yr LCA wrth ateb y cwestiwn hwn ac a oedd bwriad i dalu'r holl gostau sy'n gysylltiedig ag astudiaethau ôl-16 neu a oedd wedi'i fwriadu i fod yn gymhelliant yn unig. Os bwriadwyd i'r LCA fod yn lwfans a oedd yn cwmpasu'r holl gostau megis teithio, offer, bwyd, a llyfrau, sy'n gysylltiedig ag astudiaeth ôl-16, barnwyd bod y lwfans o £40 yn annigonol, ond os bwriadwyd iddo fod yn gymhelliant, yna roedd fwy na thebyg ar y lefel gywir.

> 'Rwy'n meddwl bod £40 yr wythnos yn iawn. Dw i'n meddwl ei fod yn ddigon i'w cefnogi nhw… ar gyfer bwyd a theithio, mae'n ddigon o arian ar gyfer hynny yn tydi? A dyna beth yw ei ddiben … i'w galluogi i fynychu.' (Cynrychiolydd staff ysgol).

**Stigma sy'n gysylltiedig â'r LCA**

5.28 Canfu'r gwaith maes nad yw'r cynllun yn cael ei drafod yn agored gan ddysgwyr mewn Canolfannau Dysgu lle mae'r nifer sy'n derbyn LCA yn fach, fel arfer mewn ysgolion, a bod stigma yn gysylltiedig â chael cymorth drwy'r cynllun. Codwyd hyn mewn grwpiau ffocws gyda derbynyddion LCA mewn ysgolion e.e. roedd un grŵp yn teimlo embaras a chywilydd eu bod yn derbyn yr LCA, gan ychwanegu bod eu cyfoedion yn dweud o bryd i'w gilydd 'pam ddylech chi ei gael... dwi ei angen hefyd.'

5.29 Dywedodd staff mewn ysgol arall fod un dysgwr wedi gwrthod cymryd rhan yng ngrŵp ffocws yr ymchwil gan nad oedd am gyfaddef i eraill ei fod yn cael y lwfans.

5.30 I'r gwrthwyneb, mae llai o stigma yn gysylltiedig â'r LCA ar draws lleoliadau AB gan fod cyfrannau uwch o ddysgwyr yn nodweddiadol yn cael eu cefnogi gan y cynllun, mae'n cael ei drafod yn fwy agored gan ddysgwyr ac mae'n cael ei hyrwyddo a'i gyfathrebu'n fwy amlwg. Mynegodd rhai dysgwyr nad oeddent yn derbyn LCA a fynychodd y grwpiau ffocws eu bod yn genfigennus o'r rhai sy'n cael y lwfans. Efallai mai'r eithriad oedd barn un cynrychiolydd staff AB a awgrymodd fod ychydig mwy o stigma'n gysylltiedig â'r LCA ymhlith eu carfan o fyfyrwyr Safon Uwch o gymharu â'u carfan o fyfyrwyr galwedigaethol.

5.31 Roedd rhai o'r ymatebion i'r arolwg hefyd yn amlygu'r stigma sy'n gysylltiedig â'r LCA:

> '[Rwy'n] teimlo cywilydd bod fy ffrindiau'n gwybod fy mod i'n cael LCA!'

> 'Rwy'n mynd i'r coleg bron bob dydd. Weithiau dw i ddim yn cael fy nhalu oherwydd maen nhw'n dweud nad oeddwn i'n bresennol ond mae bob amser yn fai ar y coleg ond dw i ddim yn codi fy llais oherwydd mae gen i gywilydd ac yn aml dw i'n colli'r taliad ac mae hynny'n gwneud i mi deimlo'n anhapus oherwydd fy mae mam yn gorfod mynd heb bethau i dalu fy nghostau teithio ac am y pethau sydd eu hangen arnaf. Dydw i ddim yn bwyta yn y coleg oherwydd y dyddiau hynny rwy'n ceisio peidio â gofyn i mam am fwy o arian nag sydd ei angen arna'i' (Y ddau ymatebydd i'r arolwg)

## 6. Sut mae'r LCA yn cyd-fynd â chymorth ariannol arall i fyfyrwyr

6.1 Mae’r bennod hon yn crynhoi mathau eraill o gymorth statudol a chymorth yn ôl disgresiwn sydd ar gael i ddysgwyr 16 i 18 oed yng Nghymru ac yn ystyried barn cyfranwyr at yr ymchwil a chyfatebiaeth yr LCA â’r darpariaethau hyn.

**Costau cludiant**

6.2 Er bod gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i ddarparu cludiant am ddim i’r ysgol i ddysgwyr hyd at ddiwedd Blwyddyn 11, nid yw’n ofynnol i awdurdodau lleol ariannu costau cludiant ar gyfer dysgwyr ôl-16 sy’n mynychu ysgol neu goleg ond gallant wneud hynny yn ôl eu disgresiwn[74].

6.3 Datgelodd ein gwaith maes ddarlun hynod wrthgyferbyniol a chymhleth o ran a allai dysgwyr ym Mlynyddoedd 12 ac 13 mewn ysgolion a cholegau gael cludiant am ddim neu gludiant â chymhorthdal. Roedd hefyd yn aml yn wir bod Canolfannau Dysgu a oedd yn derbyn dysgwyr o fwy nag un ardal awdurdod lleol wedi amlygu gwahaniaethau ym mholisïau awdurdodau lleol ar draws eu dalgylch. Er enghraifft, dywedodd un coleg AB y gallai dysgwyr sy’n byw mewn dwy o’i ardaloedd awdurdodau lleol gael cludiant wedi’i ariannu’n llawn gan yr awdurdod lleol ond na allai dysgwyr o ardaloedd dau awdurdod lleol arall gael hynny, ac roedd y coleg yn ariannu'n rhannol y costau cludiant i ddysgwyr rhwng 16 a 18 oed o'r ardaloedd hynny. Yn yr un modd, dywedodd un ysgol, er bod un awdurdod lleol yn codi £550 ar ddisgyblion ym Mlynyddoedd 12 ac 13 am docyn trên neu fws blynyddol, roedd un arall yn codi £290 ac roedd traean yn darparu cludiant am ddim.

6.4 Mewn rhai achosion, roedd ailstrwythuro'r ddarpariaeth chweched dosbarth yn ddiweddar wedi ychwanegu at y cymhlethdod. Er enghraifft, mewn un awdurdod lleol, roedd sawl ysgol yn y sir wedi colli ei chweched dosbarth ond dim ond cludiant am ddim i'r coleg AB lleol a gynigiwyd i ddysgwyr yn hytrach nag i'r ysgol a oedd yn weddill a oedd yn parhau i gynnig darpariaeth chweched dosbarth.

[74] Costau cludiant addysg bellach | LLYW.CYMRU

**Cymorth ariannol yn ôl disgresiwn i ddysgwyr AB**

*Y Gronfa Ariannol Wrth Gefn*

6.5 Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i golegau AB yng Nghymru, drwy'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn, i gefnogi dysgwyr a allai fod yn wynebu anawsterau ariannol neu a allai fel arall adael eu haddysg oherwydd problemau ariannol. Caiff y Gronfa Ariannol Wrth Gefn ei gweinyddu gan golegau AB ac weithiau fe'i gelwir yn Gronfa Cymorth Myfyrwyr neu Gronfa Caledi Myfyrwyr. Yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol, sef 2023/24, dyrannwyd cyllideb o £6.88 miliwn gan Lywodraeth Cymru i golegau AB ar gyfer y Gronfa Ariannol Wrth Gefn.

6.6 Yn ei chanllawiau i golegau AB[75], mae Llywodraeth Cymru yn nodi y dylid blaenoriaethu'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i gefnogi dysgwyr:

- y mae angen help arnynt gyda chostau gofal plant
- sy'n cyrraedd 20 oed cyn iddynt gwblhau eu harholiadau Safon Uwch neu raglenni AB eraill ac sy'n wynebu anawsterau ariannol penodol
- sydd mewn perygl, gan gynnwys gofalwyr ifanc, dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal, neu'r rhai sydd ar brawf
- sydd ar incwm isel neu o deuluoedd incwm isel
- sy'n byw mewn ardaloedd â lefelau uchel o amddifadedd, fel yr aseswyd gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru
- sy'n wynebu anawsterau ariannol gan nad yw eu teuluoedd yn derbyn elfen plentyn y Credyd Cynhwysol mwyach.

6.7 Gellir defnyddio'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i gefnogi dysgwyr gyda chostau sy'n gysylltiedig â chyrsiau megis ffioedd arholiadau a chofrestru, offer neu ddeunyddiau, gofal plant, teithio, llyfrau, a theithiau maes. Gellir defnyddio'r gronfa hefyd i helpu dysgwyr cymwys anabl a dysgwyr cymwys sydd â dibynyddion anabl, yn ogystal ag ar gyfer gwneud trefniadau swmpbrynu gyda chwmnïau trafnidiaeth lleol.

[75] Canllawiau Addysg Bellach Cronfa Ariannol Wrth Gefn Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24

6.8 Mae dysgwyr o Loegr sy’n mynychu ysgolion neu sefydliadau AB yng Nghymru yn gymwys i gael cyllid ôl-16, a gellir eu cefnogi drwy’r Gronfa Ariannol Wrth Gefn, yn unol â chytundebau cilyddol anffurfiol gyda’r Asiantaeth Ariannu Addysg a Sgiliau.

6.9 Mae Tabl 6.1 yn nodi nifer a gwerth y dyfarniadau a wnaed yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, 2022/23. Gwnaed cyfanswm o 18,545 o ddyfarniadau gwerth £4.7 miliwn. Gan fod rhai dysgwyr wedi derbyn mwy nag un dyfarniad, cefnogwyd cyfanswm o 12,244 o ddysgwyr drwy'r cynllun, gyda phob un yn cael cyllid o £384 ar gyfartaledd. Roedd cludiant yn cyfrif am y nifer mwyaf a'r gwerth mwyaf o ddyfarniadau a wnaed, ac yna gredydau cinio a chyfarpar ar gyfer cyrsiau. Ers ehangu’r Cynnig Gofal Plant i rieni mewn addysg a hyfforddiant ym mis Medi 2022[76], gostyngodd y galw am y Gronfa Ariannol Wrth Gefn i dalu costau gofal plant ac mae hyn bellach yn cyfrif am gyfran lawer is o wariant y gronfa.

**Tabl 6.1: Nifer a gwerth dyfarniadau y Gronfa Ariannol Wrth Gefn a wnaed yn ystod y flwyddyn academaidd 2022/23**

| | Nifer y gwobrau | £ |
|---|---:|---:|
| Cludiant (gan gynnwys swmpbrynu) | 7,557 | £1,916,008 |
| Credydau cinio | 4,711 | £1,657,449 |
| Offer | 4073 | £693,442 |
| Gofal plant | 183 | £131,720 |
| Llety | 55 | £67,301 |
| Teithiau | 361 | £37,685 |
| Llyfrau | 350 | £14,078 |
| Deunydd ysgrifennu | 126 | £12,728 |
| Gwiriadau Datgelu a Gwahardd | 274 | £11,456 |
| Ffioedd arholiadau | 70 | £3,269 |
| Ffioedd cofrestru | 14 | £1,134 |
| Cludiant i'r anabl | 1 | £963 |
| Cymorth gyda chostau anabledd | 14 | £291 |
| Arall | 756 | £159,471 |
| Cyfanswm | 18,545 | £4,706,994 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (Ebrill 2024). Mae’r tabl yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer dysgwyr 16 i 18 oed, gan gynnwys dysgwyr amser llawn a rhan-amser ac mae’n seiliedig ar ddata heb eu dilysu o adroddiadau darparwyr SAB. Oherwydd talgrynnu, nid yw'r cyfanswm yn cyfateb i 100%.

[76] Sy'n darparu 30 awr o ofal plant yr wythnos.

**Cymorth ariannol i ddysgwyr mewn ysgolion**

*Prydau Ysgol Am Ddim*

6.10 Mae gan ddysgwyr chweched dosbarth mewn ysgolion hawl i gael Prydau Ysgol am Ddim ar yr amod bod eu rhieni'n bodloni'r meini prawf cymhwystra canlynol ac yn cael:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm
- cymorth o dan Ran VI o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999
- Credyd Treth Plant (ar yr amod nad yw aelwydydd yn cael Credyd Treth Gwaith hefyd a bod eu hincwm blynyddol yn £16,190 neu lai cyn treth)
- yr elfen warantedig o Gredyd Pensiwn
- Parhad dros dro i'r Credyd Treth Gwaith - a delir am 4 wythnos ar ôl iddynt beidio â bod yn gymwys ar gyfer Credyd Treth Gwaith
- Credyd Cynhwysol - rhaid i enillion cartref fod yn llai na £7,400 y flwyddyn ar ôl treth. Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw incwm o fudd-daliadau.

*Grant Hanfodion Ysgol*

6.11 Gall plant o aelwydydd incwm isel sy'n gymwys ar gyfer budd-daliadau penodol wneud cais yn flynyddol drwy eu hawdurdod lleol am Grant Hanfodion Ysgol. Grant blynyddol o £125 fesul dysgwr yw hwn a ddefnyddir fel arfer i brynu gwisg ysgol ac eitemau ysgol hanfodol eraill. Fodd bynnag, dim ond hyd at Flwyddyn 11 y gall dysgwyr wneud cais am y grant hwn ac felly nid yw'r rhai ym Mlynyddoedd 12 a 13 yn gymwys.

*Grant Datblygu Disgyblion*

6.12 Dyfernir y Grant Datblygu Disgyblion (PDG) i ysgolion a lleoliadau addysgol eraill, megis Unedau Cyfeirio Disgyblion, i gefnogi plant a phobl ifanc rhwng 5 a 15 oed. Fe'i dyrennir yn flynyddol ar gyfradd o £1,150 i bob plentyn sy'n

cael Prydau Ysgol am Ddim ac ar gyfer dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

**Bwrsariaethau ysgol ac AB**

6.13 Yn ystod y gwaith maes, soniodd cynrychiolwyr staff mewn rhai colegau AB ac ysgolion fod gan eu sefydliadau gynlluniau bwrsariaeth y gallai dysgwyr wneud cais am gymorth iddynt. Roedd y rhain yn aml yn gronfeydd bach o gyllid a weinyddir yn lleol drwy broses ymgeisio ac a ddefnyddiwyd i gefnogi dysgwyr gyda chostau megis cystadlu mewn gweithgaredd chwaraeon lefel uchel neu fynychu cyfweliad mewn prifysgol. Mewn achosion eraill, darparodd ysgolion liniaduron wedi'u hadnewyddu a thei chweched dosbarth am ddim i ddysgwyr yr oedd eu hangen arnynt.

**Banc bwyd a dillad**

6.14 Soniodd sawl aelod o staff Canolfannau Dysgu a gyfwelwyd, yn enwedig o leoliadau AB, fod galw cynyddol wedi bod ers y pandemig COVID-19 a'r cynnydd mewn costau byw ar fanciau bwyd a dillad ymhlith eu carfan o ddysgwyr.

**Tlodi Mislif**

6.15 Ers 2018, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddileu tlodi mislif, ac i sicrhau nad yw dysgwyr yn colli addysg oherwydd eu mislif[77]. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid blynyddol i awdurdodau lleol a cholegau AB ledled Cymru i sicrhau bod dysgwyr yn gallu cael gafael ar gynhyrchion mislif yn rhad ac am ddim.

**Darpariaeth amgen**

*Twf Swyddi Cymru+*

6.16 Rhaglen hyfforddi a datblygu hyblyg ar gyfer pobl ifanc 16 i 19 oed yw Twf Swyddi Cymru+, sydd wedi'i strwythuro'n dair elfen o gymorth: ymgysylltu, datblygu a chyflogaeth.[78]

[77] Cynllun Gweithredu Cymru sy'n Falch o'r Mislif [HTML] | LLYW.CYMRU
[78] Twf Swyddi Cymru Plws | Cymru'n Gweithio (llyw.cymru)

6.17 Mae cyfranogwyr sy'n cofrestru ar y rhaglen Twf Swyddi Cymru+ yn derbyn lwfans wythnosol o hyd at £60 ac yn parhau i dderbyn hyd at £60 yr wythnos tra byddant ar y ddwy elfen gymorth gyntaf (ymgysylltu a datblygu). Disgwylir i gyfranogwyr ymgysylltu â'r rhaglen am o leiaf 16 awr yr wythnos a thelir uchafswm y lwfans hyfforddi o £60 os byddant yn ymgysylltu â'r rhaglen am 30 awr neu fwy dros unrhyw gyfnod o saith niwrnod. Gall cyfranogwyr hefyd dderbyn lwfans prydau wythnosol o hyd at £19.50 (lwfans dyddiol o £3.90 pan fyddant yn mynychu hyfforddiant am o leiaf hanner diwrnod)[79]. Deellir bod rhai darparwyr yn cynyddu'r lwfans ariannol a gynigir i gyfranogwyr. Mae cyfranogwyr hefyd yn gymwys i gael cymorth gyda chostau teithio a gofal plant, a chaiff y rhain eu hystyried fesul achos.

6.18 Cynyddwyd lefel y lwfans cyfranogi ym mis Ionawr 2023, o £30 ar gyfer y rhai ar yr elfen ymgysylltu neu £40 ar gyfer y rhai ar yr elfen ddatblygu, ac mae pob cyfranogwr bellach yn cael yr un lefel o lwfans ni waeth pa faes hyfforddi y mae'n ymwneud ag ef.

6.19 Wrth symud ymlaen i faes cyflogaeth Twf Swyddi Cymru+, mae gan gyfranogwyr hawl i'r isafswm cyflog cenedlaethol ar gyfer prentisiaeth (£5.28 yr awr ar hyn o bryd).

*Grant Dysgu Llywodraeth Cymru*

6.20 Mae Grant Dysgu Llywodraeth Cymru[80] ar gael i fyfyrwyr 19 oed neu hŷn sy'n astudio cwrs addysg bellach mewn coleg AB yng Nghymru. Er mwyn bod yn gymwys, rhaid i fyfyrwyr fyw ar aelwyd sydd ag incwm o £18,370 neu lai, ac ystyrir a yw ymgeiswyr yn ddibynnol ar eu rhieni neu'n byw'n annibynnol. Gall myfyrwyr gael mynediad at:

- £1,500 ar gyfer cwrs amser llawn, neu hyd at £750 ar gyfer cwrs rhan-amser os ydynt yn byw ar aelwyd sydd ag incwm blynyddol o hyd at £6,120;

---

[79] Am enghreifftiau gweler Llwybrau Ymgysylltu a Datblygu (Twf Swyddi Cymru+) - Coleg Sir Benfro; Twf Swyddi Cymru+ - Hyfforddiant Tudful; Twf Swyddi Cymru+ | Busnes@LlandrilloMenai (gllm.ac.uk)
[80] Grant Dysgu Llywodraeth Cymru, Addysg Bellach | Cyllid Myfyrwyr Cymru

- £750 ar gyfer cwrs amser llawn, neu hyd at £450 ar gyfer cwrs rhan-amser os ydynt yn byw ar aelwyd sydd ag incwm blynyddol o hyd at £12,235;
- £450 ar gyfer cwrs amser llawn, neu hyd at £300 ar gyfer cwrs rhan-amser os ydynt yn byw ar aelwyd sydd ag incwm blynyddol o hyd at £18,370;

**Canfyddiadau'r gwaith maes**

6.21 Mae'n amhosibl gwahanu'r LCA oddi wrth fathau eraill o gymorth ariannol statudol a chymorth ariannol yn ôl disgresiwn sydd ar gael i ddysgwyr 16 i 18 oed gan fod rhai derbynyddion LCA hefyd yn cael Prydau Ysgol am Ddim, neu fwyd â chymhorthdal yn y coleg (sy'n aml yn cael ei ariannu drwy'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn); mae rhai'n cael cludiant am ddim neu â chymhorthdal i'r ysgol neu'r coleg (drwy'r awdurdod lleol, yr AB neu sydd weithiau'n cael ei ariannu drwy'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn mewn lleoliadau coleg); ac mae rhai o'r rhai sy'n derbyn LCA yn y coleg yn defnyddio'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i dalu am offer neu adnoddau ar gyfer y cwrs.

6.22 Roedd derbynyddion LCA a oedd yn astudio yn yr un Ganolfan Ddysgu a gyfrannodd at yr adolygiad hwn yn aml yn adrodd eu bod wedi cael gwahanol becynnau o gymorth ariannol a chafodd hyn effaith fawr ar y ffordd y maent yn defnyddio eu LCA. Mae derbynyddion LCA a oedd hefyd yn cael bwyd â chymhorthdal yn yr ysgol neu'r coleg, cludiant am ddim a chymorth gyda chostau offer yn tueddu i ddefnyddio eu LCA tuag at gostau eraill nad ydynt yn gysylltiedig ag addysg ac anghenion personol.

6.23 Ategodd staff colegau y pwynt hwn, gan awgrymu bod yr LCA yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i lenwi bylchau mewn cymorth prif ffrwd, boed hynny ar gyfer trafnidiaeth i'r coleg neu fwyd, a galwyd am fwy o gydraddoldeb a thegwch ledled Cymru.

6.24 Awgrymodd staff colegau fod cryn orgyffwrdd rhwng derbynyddion LCA a derbynyddion y Gronfa Ariannol Wrth Gefn, yn bennaf oherwydd bod y rhan fwyaf o golegau AB (Addysg Bellach) yn defnyddio'r trothwyon incwm LCA fel sail ar gyfer dyfarnu'r Gronfa Ariannol Wrth gefn. Fodd bynnag, nid yw

pob derbynnydd LCA yn gwneud cais am gymorth o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Mabwysiadir y dull hwn gan golegau AB oherwydd ei fod yn golygu llai o ymdrech ar ran yr SAB i ganfod a yw myfyrwyr yn gymwys (gan fod SLC eisoes wedi gwneud yr ymarfer hwnnw) ac oherwydd yr angen i reoli'r galw am adnoddau'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Dywedodd un sefydliad addysg bellach ei fod yn defnyddio trothwy incwm uwch ar gyfer dyfarnu'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn, a bod y trothwy hwn wedi'i osod ar £30,000 ar hyn o bryd, a nododd un arall ei fod yn defnyddio trothwy is (wedi'i gysoni â throthwyon y Credyd Cynhwysol).

6.25 Cafwyd rhywfaint o dystiolaeth hefyd fod SABau yn cynnig bwyd am ddim i ddysgwyr yn gynyddol. Mewn rhai achosion mae'r cynnig hwn ar gael i bob dysgwr ond mewn achosion eraill, caiff ei dargedu at y rhai mewn angen, yn aml drwy'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Mae'r data a gasglwyd drwy'r gwaith maes, yn ogystal â'r wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus drwy wefannau colegau AB i'w gweld yn Nhabl 6.2.

**Tabl 6.2: Lwfansau bwyd a ddarperir gan golegau AB**

| Coleg | Cynnig |
|---|---|
| Coleg Cambria | Brecwast am ddim a chinio rhad i bob dysgwr[81] |
| Coleg Llandrillo Menai | Brecwast am ddim i bob dysgwr (a staff)[82] |
| Coleg Penybont | Brecwast am ddim i bob dysgwr a lwfans y Gronfa Ariannol Wrth Gefn o £4.50 i ddysgwyr sy'n derbyn budd-daliadau cymwys[83] |
| Coleg Sir Benfro | Lwfans prydau y Gronfa Ariannol Wrth Gefn i ddysgwyr sy’n cael budd-daliadau cymwys |
| Coleg Sir Gâr | Lwfans prydau bwyd y Gronfa Ariannol Wrth Gefn o £2.80 i ddysgwyr o aelwydydd incwm isel |
| Coleg Gwent | Lwfans prydau bwyd y Gronfa Ariannol Wrth Gefn o £3.90 i ddysgwyr sy’n cael budd-daliadau cymwys[84] |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | Lwfans prydau bwyd i ddysgwyr sy’n cael budd-daliadau cymwys[85] |
| Coleg y Cymoedd | Lwfans prydau bwyd y Gronfa Ariannol Wrth Gefn i ddysgwyr sy’n cael budd-daliadau cymwys ac o aelwydydd ag incwm o £16,390 neu lai[86] |

Ffynhonnell: Canfyddiadau gwaith maes a gwefannau colegau AB

6.26 Nid oes gan y rhai sydd wedi'u lleoli mewn ysgolion fynediad at gronfa debyg i'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i helpu i dalu am lyfrau, offer neu ddeunyddiau, er y credwyd bod eu hangen am adnoddau o'r fath yn llai na'r rhai sy'n astudio cyrsiau galwedigaethol mewn colegau AB. Efallai mai'r eithriad i hyn oedd dysgwyr yn yr ysgol sy’n astudio pynciau fel Celf Safon Uwch, ble mae angen i ddisgyblion brynu mwy o gyflenwadau. Cyflwynodd staff ysgol hefyd achos cryf na allent hwy, yn wahanol i golegau AB, fanteisio ar unrhyw gymorth ariannol brys i ddysgwyr y gall fod ei angen o bryd i’w gilydd.

81 Teithio am Ddim a Brecwast < Coleg Cambria
82 Eich Lles yn y Coleg | Grŵp Llandrillo Menai (gllm.ac.uk)
83 Cyllid myfyrwyr - Coleg Penybont (bridgend.ac.uk)
84 Cymorth Ariannol - Coleg Gwent
85 Lwfans pryd bwyd - Coleg Caerdydd a’r Fro (cavc.ac.uk)
86 Cymorth Ariannol - Coleg y Cymoedd

# 7. Clywed am yr LCA a gwneud cais amdano

7.1 Mae'r bennod hon yn seiliedig ar farn yr ymatebwyr i'r arolwg, adborth o'r holl grwpiau ffocws gyda derbynyddion Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA), y rhai sydd wedi derbyn LCA yn y gorffennol, dysgwyr Blwyddyn 11 a'r rhai nad ydynt yn derbyn LCA. Mae hefyd yn ystyried barn staff Canolfannau Dysgu a rhanddeiliaid eraill lle y bo'n berthnasol.

**Hyrwyddo'r LCA gan y Canolfannau Dysgu**

7.2 Disgrifiodd staff y Canolfannau Dysgu sut y maent yn hyrwyddo'r LCA. Roedd ysgolion yn gwneud rhan fwyaf o'u gwaith hyrwyddo ar ddechrau'r chweched dosbarth neu tua diwedd Blwyddyn 11 (e.e. ar ddiwrnodau canlyniadau TGAU). Soniwyd am ystod eang o ddulliau gan gynnwys:

- cyflwyniadau mewn nosweithiau agored chweched dosbarth neu mewn gwasanaethau ar ddechrau'r chweched dosbarth
- anfon gwybodaeth drwy e-bost neu Teams ar ddechrau'r chweched dosbarth
- posteri ar hysbysfyrddau chweched dosbarth
- dosbarthu llyfrynnau LCA (e.e. 'Llyfr Bach LCA') i ddisgyblion neu eu rhoi mewn mannau amlwg e.e. yn y ganolfan chweched dosbarth.

7.3 Soniodd un ysgol y gall rhywfaint o stigma fod yn gysylltiedig â'r LCA felly ni sonnir am y trothwy incwm pan gaiff ei hyrwyddo. Dywedodd cynrychiolydd ysgol arall fod ei ysgol yn tueddu i dynnu sylw pob disgybl a oedd yn arfer cael Prydau Ysgol am Ddim at yr LCA mewn ffordd gynnil.

7.4 Dywedodd un cynrychiolydd ysgol eu bod yn fwriadol yn dewis peidio â hyrwyddo'r ffaith y byddai'r LCA ar gael i ddysgwyr pe baent yn mynychu coleg AB lleol, gan eu bod am gadw cymaint o ddysgwyr â phosibl yn yr ysgol.

**Enghraifft o astudiaeth achos: ysgol**

Mae'r ysgol yn ceisio sicrhau bod myfyrwyr gyflwyno eu ceisiadau'n gynnar. Mae'n dosbarthu ffurflenni cais a gwybodaeth gysylltiedig i fyfyrwyr ar ddiwrnod y canlyniadau ac mae'r LCA yn cael ei hysbysebu ym mhrosbectws yr ysgol.

Mae'n sicrhau bod pob myfyriwr sy'n cael prydau ysgol am ddim yn ymwybodol y dylent wneud cais am yr LCA. Yna mae'n cysylltu â'r myfyrwyr hyn yn ystod wythnos gyntaf mis Medi i sicrhau eu bod yn gwneud cais.


'Ar ddiwrnod y canlyniadau, rydym yn dosbarthu llawer o becynnau [LCA] i ddisgyblion Blwyddyn 11 sy'n dymuno dychwelyd, gan ddweud wrthyn nhw 'cofiwch gasglu ffurflen LCA', p'un a ydyn nhw'n meddwl bod ganddyn nhw hawl iddo neu beidio. Mae [ein haelod cyfrifol o staff] yn rhoi pwys mawr arno ... yr hyn y mae [ein haelod cyfrifol o staff] yn ei wneud yn dda iawn yw nodi'r dysgwyr ym Mlwyddyn 11 sydd eisoes yn cael Prydau Ysgol am Ddim [gan mai dyma'r rhai sydd fwyaf tebygol o gymhwyso ar gyfer yr LCA]. Bydd hi'n cysylltu â'r myfyrwyr hynny yn gyflym; mae hi'n adnabod ein dysgwyr yn dda ac mae hynny'n golygu ei bod hi'n rhan annatod o'r broses.'

7.5 Soniodd cynrychiolwyr colegau AB a gyfrannodd at y gwaith maes hefyd am amrywiaeth o ffyrdd yr oeddent yn hyrwyddo’r LCA gan gynnwys:

- sgyrsiau am gyllid a desgiau cyllid mewn man amlwg yn ystod diwrnodau a nosweithiau agored, diwrnodau cofrestru a nosweithiau tiwtor
- gwybodaeth am apiau coleg gan gynnwys e-byst rheolaidd a baneri codi
- gwybodaeth ar sgriniau mewn mannau cyhoeddus yn y coleg
- codau QR gweladwy iawn sy'n cysylltu â gwybodaeth bellach a rhoi dogfennau LCA y gellir eu lawrlwytho ar ddeunyddiau hyrwyddo
- gwybodaeth ar wefannau a'r fewnrwyd.

7.6 Roedd un coleg wedi diweddaru ei dudalen cyllid myfyrwyr ar ei wefan yn ddiweddar, gan wneud ymdrech benodol i ddefnyddio iaith syml a graffeg er mwyn sicrhau bod y wybodaeth mor glir â phosibl.

**Ffigur 7.1: Enghraifft o hafan cyllid myfyrwyr coleg AB**




Ffynhonnell: Cymorth Ariannol - Coleg y Cymoedd

7.7 Roedd rhai colegau yn treialu dulliau mwy arloesol. Roedd un coleg wedi lansio ymgyrch a Gadewch i ni Drafod Arian a oedd hefyd yn cynnwys trafodaeth ar yr LCA, ac roedd un arall wrthi'n datblygu Hyb Dysgwyr yn ei ardal gymunedol lle y byddai swyddogion llesiant yn eistedd wrth ddesgiau poeth drwy gydol y flwyddyn i'w gwneud yn hawdd i ddysgwyr gael cyngor ar yr LCA (a chyngor arall).

> 'rydym yn ceisio ei roi o dan eu trwynau cymaint â phosibl.' (Cynrychiolydd staff AB)

7.8 Disgrifiodd dau goleg AB sut yr oeddent yn ceisio integreiddio eu gwaith hyrwyddo LCA cymaint â phosibl i weithgareddau pontio cyn y cyfnod cofrestru ym mis Medi, gan eu bod yn awyddus i sicrhau bod ceisiadau'n cael eu cyflwyno'n gynt. Roedd y cynnydd yn y nodweddion rhyngweithio ar

ap y coleg yn eu galluogi i gyfathrebu'n barhaus ac yn fwy personol gyda darpar fyfyrwyr o'r cyfnod cofrestru a thu hwnt.

**Enghraifft o astudiaeth achos: Coleg AB**

Mae'r coleg yn sicrhau bod staff ar gael yn ystod gwyliau'r haf fel y gall darpar fyfyrwyr wneud apwyntiad a dechrau'r broses ymgeisio am LCA cyn iddynt ddechrau ar eu cwrs ym mis Medi.

Yn ystod yr wythnos sefydlu ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, mae staff y Ganolfan Ddysgu yn ymweld â phob dosbarth ac yn cyfeirio myfyrwyr at y ganolfan cymorth dysgu i wneud eu ceisiadau am LCA. Dilynir hyn gan ddau ddigwyddiad diweddaru ar wahân (o fewn y cyfnod o 13 wythnos a ganiateir gan SLC ar gyfer taliadau ôl-weithredol).

Nodwyd nad oes cyllid ar gael gan Lywodraeth Cymru ar ffurf cyflogau staff i gynorthwyo myfyrwyr gyda'u ceisiadau. Mae'r coleg yn monitro'r niferoedd byw o geisiadau ac os yw'n teimlo eu bod yn anarferol o isel bydd wedyn yn ailgyflwyno agweddau cyfathrebu a hyrwyddo'r LCA.

**Ymwybyddiaeth dysgwyr o'r LCA**

7.9 Roedd y rhai sy'n derbyn yr LCA a'r rhai nad ydynt yn ei dderbyn mewn ysgolion a cholegau yn aml yn cofio clywed amdano gyntaf drwy wasanaeth ysgol neu drwy e-bost uniongyrchol gan yr ysgol. Roedd llawer yn ymwybodol ohono hefyd gan fod ganddynt frodyr a chwiorydd hŷn, cefndryd neu ffrindiau a oedd yn derbyn yr LCA. Roeddent yn ei chael hi'n eithaf hawdd darganfod mwy o wybodaeth pan oedd angen, yn bennaf drwy ofyn i aelod o staff y chweched dosbarth neu'r coleg nad oedd ganddynt wybodaeth fanwl o reidrwydd ond a oedd yn gwybod digon i'w hannog i wneud cais. Roedd tua hanner y derbynyddion LCA a oedd yn astudio mewn colegau AB a fynychodd y grwpiau ffocws wedi clywed am yr LCA am y tro cyntaf yn ystod yr wythnos gofrestru, a dywedodd rhai mai dim ond ychydig fisoedd yn ddiweddarach y daethant yn ymwybodol ohono.

7.10 Ychydig iawn o wybodaeth a oedd gan ddisgyblion Blwyddyn 11 am y cymorth ariannol a fyddai ar gael iddynt ym Mlynyddoedd 12 ac 13. Dywedodd y rhan fwyaf nad oeddent wedi clywed am yr LCA hyd nes y

gofynnwyd iddynt fynychu grŵp ffocws ar gyfer y gwerthusiad hwn, ond roedd pawb yn meddwl y byddent yn gwneud cais maes o law nawr eu bod yn ymwybodol ohono. Nid oedd disgyblion Blwyddyn 11 yn tueddu i wybod am y gwahaniaethau rhwng y cymorth yn yr ysgol ac mewn coleg AB. Mae rhai'n awgrymu y gallai'r lwfans ar gyfer astudio mewn coleg AB fod yn uwch, tra bod eraill yn ymwybodol y byddai cludiant am ddim i'r ysgol ar gael [yn eu hardal] ond nid i'r coleg. Teimlai'r garfan hon yn gryf nad oedd gwybodaeth am yr LCA yn cael ei darparu'n ddigon cynnar i'w grŵp oedran ac roeddent yn credu y byddai'n fuddiol i'w teuluoedd gael gwybod yn gynharach, gan fod gan un, er enghraifft, rieni a oedd o'r farn ar hyn o bryd na allai fforddio aros ymlaen yn yr ysgol ac roedd yn tybio y byddai'n rhaid iddo gael swydd.

7.11 Roedd dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal wedi dod i wybod am yr LCA o ystod ehangach o ffynonellau. Roedd rhai yn cofio dysgu amdano gan eu hysgol neu goleg yn gynnar yn eu cwrs, yn ystod diwrnod agored neu pan wnaethant gofrestru. Roedd y rhan fwyaf hefyd wedi clywed amdano drwy eu darparwr gofal (rhiant maeth, rheolwr cartref plant), gweithiwr cymdeithasol neu gynghorydd personol. Dywedodd rhai dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal eu bod wedi cael gwybodaeth anghywir neu nad oedd yr unigolion hyn yn gwybod llawer am yr LCA. Roedd un dysgwr, er enghraifft, wedi cael gwybod ar gam nad oedd yn gymwys. Soniodd dysgwr arall nad oedd ei gynghorydd personol wedi deall nad oedd yr LCA yn seiliedig ar brawf modd ar gyfer y rhai mewn gofal ac nad oedd y coleg AB wedi ei wneud yn ymwybodol o hynny ychwaith. Disgrifiodd dysgwr arall â phrofiad o fod mewn gofal sut yr oedd wedi mynd i'r chweched dosbarth am ddwy flynedd ac yna wedi mynd ymlaen i astudio mewn coleg lleol:

> 'Dim ond chwe mis ar ôl i'r cwrs ddechrau y cefais wybod am yr LCA.' (Derbynnydd LCA blaenorol â phrofiad o fod mewn gofal).

### Rhesymau dros wneud cais am yr LCA

7.12 Rhoddodd dysgwyr nifer o resymau pam eu bod wedi gwneud cais am yr LCA gan gynnwys:

- cawsant eu hannog i wneud cais gan aelod o'r teulu (eu mam fel arfer)
- nid oedd gan eu teulu lawer o arian neu ni allai eu teulu ddarparu unrhyw arian iddynt
- roedd angen cymorth arnynt i ariannu eitemau ar gyfer eu hastudiaethau e.e. llyfrau
- roedd angen help arnynt gyda chostau teithio
- roedd angen iddynt dalu am fwyd
- roeddent eisiau ffynhonnell annibynnol o arian.

### Awgrymiadau ar sut i wella'r gwaith o hyrwyddo'r LCA

7.13 Dim ond ychydig o awgrymiadau a gynigiodd y rhai a gyfrannodd at y grwpiau ffocws ar sut y gellid gwella'r broses o hyrwyddo'r LCA. Tynnodd nifer o'r ymatebwyr sylw at yr angen allweddol i godi ymwybyddiaeth yn gynnar ymysg rhieni, gwarcheidwaid, a theuluoedd maeth er mwyn deall pwysigrwydd yr LCA a deall y broses ymgeisio a'r gofynion. Awgrymodd un derbynnydd LCA y dylid cynnal ymgyrch deledu i dargedu teuluoedd yn benodol. Roedd dysgwyr Blwyddyn 11 yn awyddus i weld yr LCA yn cael ei grybwyll i ddysgwyr mor gynnar â Blwyddyn 9.

7.14 Un neges allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r gwaith maes oedd anghysondeb o ran ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gweithwyr cymdeithasol o'r LCA. O ystyried bod y grŵp hwn wedi chwarae rhan allweddol wrth gefnogi rhai ymgeiswyr LCA, awgrymodd staff Canolfannau Dysgu y byddai ymgyrch wedi'i thargedu'n fwy i wella eu dealltwriaeth, ac felly'r cymorth y gallent ei roi i ddysgwyr fel y rhai â phrofiad o fod mewn gofal a gofalwyr ifanc, yn werthfawr.

**Barn ynghylch y broses ymgeisio ar-lein ac ar bapur**

7.15 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r arolwg (75 y cant neu 2,087) wedi llenwi ffurflen bapur ar gyfer yr LCA, roedd 20 y cant (409 o ymatebwyr) wedi gwneud cais gan ddefnyddio'r ffurflen gais ar-lein ac nid oedd yr wyth y cant arall (228 o ymatebwyr) yn gwybod neu'n cofio.

7.16 Fel y dangosir yn Nhabl 7.1, roedd 56 y cant o'r ymatebwyr i'r arolwg o'r farn bod ffurflen gais yr LCA yn hawdd ei chwblhau ac roedd 12 y cant wedi cael y ffurflen yn anodd. Roedd ymgeiswyr a oedd wedi gwneud cais ar-lein yn fwy tebygol o fod wedi gweld y broses hon yn haws, gyda 68 y cant yn nodi bod y ffurflen gais ar-lein wedi bod yn hawdd ei llenwi.

**Tabl 7.1: Pa mor hawdd oedd y ffurflen gais LCA i'w chwblhau**

| | Pob ymgeisydd | | Ymgeiswyr papur | | Ymgeiswyr ar-lein | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Hawdd iawn | 321 | 12% | 224 | 11% | 79 | 19% |
| Yn weddol hawdd | 1,211 | 44% | 921 | 44% | 199 | 49% |
| Ddim yn hawdd nac yn anodd | 781 | 29% | 628 | 30% | 81 | 20% |
| Yn weddol anodd | 290 | 11% | 245 | 12% | 33 | 8% |
| Anodd iawn | 39 | 1% | 32 | 2% | 5 | 1% |
| Ddim yn gwybod / Ddim yn cofio / Heb ateb | 89 | 3% | 37 | 2% | 12 | 3% |
| Cyfanswm | 2,731 | 100% | 2,087 | 100% | 409 | 100% |

Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3, Mawrth 2024

7.17 Roedd dros hanner yr ymatebwyr i'r arolwg, sef 55 y cant, wedi ei chael hi'n hawdd darparu'r wybodaeth angenrheidiol i gefnogi eu cais, tra bod 15 y cant o'r farn bod hyn yn anodd, fel y dangosir yn Nhabl 7.2.

**Tabl 7.2: Pa mor hawdd oedd dod hyd i'r wybodaeth angenrheidiol i gefnogi cais am LCA**

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Hawdd iawn | 366 | 13% |
| Yn weddol hawdd | 1143 | 42% |
| Ddim yn hawdd nac yn anodd | 695 | 26% |
| Yn weddol anodd | 355 | 13% |
| Anodd iawn | 52 | 2% |
| \ddim yn berthnasol / Ddim yn gwybod / Ddim yn cofio / Heb ateb | 120 | 4% |
| Cyfanswm | 2,731 | 100% |

Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3, Mawrth 2024

7.18 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg a oedd o'r farn bod y ffurflen gais yn anodd ei chwblhau i ymhelaethu ar y rhesymau dros hyn. Mae'r prif faterion a godwyd yn ymwneud â:

- chymhlethdod y ffurflen gais. Disgrifiodd yr ymatebwyr i'r arolwg y ffurflen fel un 'gymhleth,' 'dryslyd' ac 'anodd ei deall'
- natur helaeth a hirfaith y ffurflen gais. Nododd rhai ymatebwyr i'r arolwg fod y ffurflen 'yn hir' ac yn cynnwys 'llawer o gwestiynau'.
- anawsterau a wynebwyd gan y rhai ag ADY wrth lenwi'r ffurflen e.e. awtistiaeth
- gwybod pa adrannau o'r ffurflen y dylid eu llenwi. Er enghraifft, 'roedd llawer o adrannau ac nid oedd yn glir pa rai oedd angen eu llenwi'
- yr angen am lawer o wybodaeth ategol. Nododd yr ymatebwyr fod 'angen llawer o wybodaeth' yn enwedig o ran incwm aelwyd rhieni ac amgylchiadau'n ymwneud â thai
- dod o hyd i'r dogfennau ategol angenrheidiol. Nododd un ymatebydd o'r fath i'r arolwg ei bod wedi bod yn anodd 'dod o hyd i'r holl ddogfennau â gwybodaeth amdanynt'.
- anawsterau o ran deall rhai cwestiynau a therminoleg. Nododd yr ymatebwyr i'r arolwg fod y ffurflen yn cynnwys 'llawer o dermau nad

oeddwn i erioed wedi'u clywed o'r blaen...roedd y cwestiynau'n anodd eu deall;' 'roedd geiriad y cwestiynau'n gymhleth' ac 'i rywun nad Saesneg yw ei iaith gyntaf, roedd y ffurflen gais yn anodd iawn a gallai fod yn symlach'

- heriau o ran cwblhau’r cwestiynau ynghylch cenedligrwydd a statws mewnfudo, gan gynnwys y ffaith ei bod yn anodd dod o hyd i'r adran gywir i’w chwblhau.

7.19 Roedd rhai o'r materion a godwyd yn ymwneud yn benodol â'u profiad o lenwi ffurflen bapur e.e. gwneud camgymeriad ac angen dechrau eto gan ddefnyddio ffurflen arall a delio â dogfen hir e.e. 'Roedd yna lawer o bapur i ddarllen drwyddo neu i'w arwyddo.'

7.20 Roedd barn y rhai a gyfrannodd at y gwaith maes ansoddol am y broses ymgeisio yn gymysg, ac yn aml yn dibynnu ar a oeddent wedi defnyddio'r ffurflen bapur neu'r system ar-lein.

7.21 Roedd gan gynrychiolwyr ysgolion brofiad o'r broses ymgeisio ar bapur yn bennaf ac fe'i disgrifiwyd fel proses 'gymhleth,' 'heriol,' a 'lletchwith,' gan nodi bod y gofynion o ran darparu tystiolaeth yn 'feichus.' Yn yr un modd, disgrifiodd derbynyddion yr LCA mewn ysgolion eu profiad o’r ffurflen bapur fel un hir, manwl ac anodd. Roeddent hefyd yn teimlo bod yr amser a gymerodd i brosesu ceisiadau yn ‘rhwystredig’ gydag ymatebwyr fel arfer yn nodi bod yn rhaid iddynt aros am bump i chwe wythnos nes iddynt dderbyn taliadau (er bod y taliadau bob amser yn cael eu hôl-ddyddio), ac eraill yn disgrifio oedi hwy o hyd at dri mis.

7.22 Er bod eu profiad o’r broses ymgeisio ar-lein yn gyfyngedig, roedd cynrychiolwyr o ysgolion ac ymgeiswyr am LCA yn sôn yn gadarnhaol am y datblygiad ac yn credu y byddai hyn yn symleiddio’r broses: 'roeddwn i'n falch iawn o glywed' [cynrychiolydd ysgol].' Roeddent yn obeithiol y byddai'r broses ar-lein yn haws, yn gyflymach, yn fwy rhyngweithiol a greddfol gydag ymgeiswyr yn cael eu cyfeirio at gwestiynau sy'n berthnasol iddynt hwy.

7.23 Roedd gan gynrychiolwyr colegau AB fwy o brofiad o’r broses ar-lein a disgrifiwyd sut yr oedd y system awtomataidd yn llai brawychus ac yn

dileu’r risg y byddai dysgwyr yn colli’r ffurflen gais yn ystod y broses. Credwyd hefyd ei fod yn arwain at ymateb cyflymach o ran cymhwystra a thalu'r cyllid wedyn (er y gellid priodoli hyn hefyd i'r ffaith i'r system ar-lein gael ei chyflwyno ym mis Tachwedd ar ôl i'r rhan fwyaf o geisiadau gael eu cyflwyno ar ddechrau'r flwyddyn academaidd). Roedd derbynyddion LCA a oedd wedi defnyddio'r system ar-lein hefyd yn tueddu i'w disgrifio fel 'gweddol hawdd' neu 'ddim yn rhy anodd', er bod y broses wedi ymddangos yn frawychus i ddechrau. Disgrifiodd un ymatebydd sut yr oedd wedi rhoi cynnig ar lenwi’r ffurflen bapur ac wedi methu ond ei fod wedi cael y broses ar-lein yn syml iawn wedyn.

7.24 Dywedodd ymgeiswyr am LCA a chanddynt ADY a'u rhieni fod y broses ymgeisio yn heriol i'w chwblhau heb gymorth ychwanegol. Roedd un derbynnydd LCA, er enghraifft, a oedd â dyslecsia a dyspracsia wedi ei chael hi'n arbennig o anodd a disgrifiodd sut yr oedd wedi cymryd oriau i gwblhau'r fersiwn bapur. Mewn coleg arall, roedd rhiant a phlentyn ag ADY wedi cael y ffurflen gais yn amhosibl i'w chwblhau ac wedi troi at gymorth gan aelod o staff y coleg. Disgrifiodd un derbynnydd LCA ag ADY cymhleth y profiad:

> 'Roedd yn ffurflen erchyll. Anferthol. Fyddai hi byth wedi gallu ei llenwi ei hun. Fe wnes i ei llenwi ar ei rhan. Roedd yn boen. Potsh. Does gan bob plentyn ddim oedolyn sy'n gallu gwneud hyn ar eu rhan. Mae'n lletchwith, a hynny'n ddiangen.' (Rhiant derbynnydd LCA mewn coleg AB)

7.25 Disgrifiodd ymatebwyr oedd â phrofiad o fod mewn gofal y broses ymgeisio fel 'lladdfa' a'u bod wedi ei chael hi'n anodd ei chwblhau gan nad oedd ganddynt fynediad at y wybodaeth ofynnol yn aml, megis eu tystysgrif geni neu fanylion yswiriant gwladol. Disgrifiodd un cyfrannwr o’r fath, er enghraifft, sut yr oedd yn rhaid iddo dalu £30 i gael gafael ar ei fanylion yswiriant gwladol er mwyn cael y cyllid.

**Enghraifft o astudiaeth achos: Derbynnydd LCA â phrofiad o fod mewn gofal**

Mae achos Sam[87] yn arbennig o gymhleth oherwydd iddi fynd i ofal yn ystod yr haf cyn mynd i'r chweched dosbarth. Nid oedd yn gallu mynd yn ôl i gartref ei theulu ac felly nid oedd yn gallu cael mynediad at y dogfennau yr oedd eu hangen arni i wneud cais am LCA.

Bu’r gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio gyda’r ysgol i drefnu’r dogfennau angenrheidiol (llythyrau ategol a chopi o’r dystysgrif geni) ac yn helpu i agor cyfrif banc i Sam.

Fodd bynnag, roedd Sam yn credu bod hyn wedi cymryd gormod o amser. Er gwaethaf y cymorth a gafodd, cymerodd tan fis Chwefror iddi dderbyn ei thaliad cyntaf.

**Cymorth a gafwyd gyda'r broses ymgeisio**

7.26 Dywedodd y rhan fwyaf o'r rhai sy'n derbyn LCA ar hyn o bryd neu'r rhai sydd wedi'i dderbyn yn y gorffennol eu bod wedi cael cymorth gan eu rhieni i helpu i gwblhau'r broses ymgeisio. Soniodd rhai am droi at frodyr a chwiorydd neu ffrindiau am gymorth. Disgrifiodd un derbynnydd LCA, er enghraifft, fod ei rieni'n gyndyn o rannu’r wybodaeth ac nad oeddent am i staff ysgol neu goleg weld gwybodaeth gyfrinachol am eu hincwm neu fudd-daliadau. Disgrifiodd rhai derbynyddion LCA hefyd pa mor anodd yw cael sgyrsiau gyda’u rhieni am eu hincwm:

> 'does 'na'r un plentyn eisiau cael y math yna o sgwrs mewn gwirionedd.' (Derbynnydd LCA presennol).

7.27 Dywedodd staff chweched dosbarth eu bod yn tueddu i wirio bod disgyblion wedi cyflwyno eu ceisiadau ar ddechrau Blwyddyn 12, a dim ond yn achlysurol y dywedwyd eu bod wedi darparu cymorth penodol i ddisgyblion gwblhau ffurflenni cais. Dywedodd cynrychiolwyr colegau AB eu bod yn cynnig mwy o gymorth ymarferol yn gyffredinol, yn enwedig i ddysgwyr ADY a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL). Mewn un coleg AB bu sefydliad elusennol yn gweithio gyda rhieni ESOL i'w galluogi i

[87] Nid dyma ei henw iawn.

lenwi'r ffurflen gais yn gywir. Yn aml roedd gan golegau AB lawer mwy o ddysgwyr a oedd yn derbyn LCA ac roedd hynny'n cyfyngu ar y capasiti a'r adnoddau a oedd ar gael i gefnogi dysgwyr yn ddigonol gyda'u cais.

7.28 Yn bennaf, cafodd y rhai sy'n derbyn LCA ar hyn o bryd a'r rhai sydd wedi'i dderbyn y gorffennol ac sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal gymorth gan gynghorwyr personol a gofalwyr i gwblhau eu ceisiadau, ond mewn rhai achosion adroddwyd eu bod wedi cael cymorth gan staff arbenigol yn y coleg AB. Yn benodol, roedd gweithiwr cymdeithasol yn eu cynorthwyo i lenwi’r ffurflen gais, gan eu bod yn gallu darparu gwybodaeth i brofi eu bod yn ymgeiswyr â phrofiad o fod mewn gofal.

**Awgrymiadau i wneud y broses ymgeisio yn haws**

7.29 Cafwyd sawl awgrym gan gyfranwyr y grwpiau ffocws ynghylch sut y gellid gwneud y broses ymgeisio yn haws, gyda rhai yn ymwneud â charfannau neu sefyllfaoedd penodol. Mae'r awgrymiadau'n cynnwys:

- symleiddio’r iaith a’i gwneud yn fwy cyfeillgar i bobl ifanc: 'mae'r ffurflenni'n llawn jargon' [derbynnydd LCA]
- gosod gofynion llai caeth e.e. derbyn tystysgrif geni fer yn hytrach na'r fersiwn lawn yn unig
- sicrhau bod y ffurflen gais ar gael mewn mwy o ieithoedd na dim ond Cymraeg a Saesneg
- ei gwneud yn gliriach pa adrannau o’r ffurflen gais (papur ac ar-lein) sydd angen mewnbwn gan eraill (h.y. rhiant/gwarcheidwad) a darparu blwch ticio ar gyfer y rhai sydd ag atwrneiaeth sydd angen llenwi’r ffurflen ar ran derbynnydd LCA ag ADY neu anableddau
- y  broses ymgeisio i gynnig arweiniad ar ble i gael gafael ar wybodaeth nad yw ar gael iddynt ar hyn o bryd (e.e. copi o dystysgrif geni neu rif yswiriant gwladol)
- sicrhau proses drosglwyddo fwy didrafferth os bydd dysgwr yn symud rhwng canolfannau dysgu. Ar hyn o bryd mae oedi cyn derbyn taliadau tra bod y wybodaeth yn cael ei throsglwyddo, a rhaid hysbysu'r SLC

- galluogi unigolion eraill heblaw am y gweithiwr cymdeithasol i gadarnhau bod dysgwr mewn gofal er mwyn osgoi oedi diangen
- cysylltu'r broses ymgeisio â gwybodaeth a gedwir gan y llywodraeth am yswiriant gwladol, credyd cynhwysol, a budd-daliadau eraill er mwyn osgoi gorfod dod o hyd i dystiolaeth a dogfennaeth

  'Roedd yn rhaid i mi ddangos fy holl ddogfennau Credyd Cynhwysol. Dylid cysylltu'r systemau â'i gilydd. Dylwn i allu rhoi fy rhif yswiriant gwladol a dylen nhw allu gweld beth dw i'n ei gael - dyna maen nhw'n ei wneud gyda phethau eraill - pam na allan nhw ei wneud gyda hyn? Dyw pob rhiant ddim eisiau datgelu eu sefyllfa ariannol i'w plant ychwaith.' (Rhiant i dderbynnydd LCA)

**Cyfrifon banc**

7.30 Roedd gan y rhan fwyaf o dderbynyddion LCA gyfrifon banc eisoes, ond cofiodd rhai iddynt agor cyfrif yn benodol er mwyn derbyn yr LCA. Dywedodd holl ddysgwyr Blwyddyn 11 a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws fod ganddynt gyfrifon banc yn eu henw eisoes. Dywedodd y rhan fwyaf o'r dysgwyr y soniwyd amdanynt uchod mai dim ond y nhw oedd â mynediad at eu cyfrifon banc.

7.31 Dwy garfan o ddysgwyr a ddywedodd fod gan eraill fynediad at eu cyfrifon banc oedd y rhai ag ADY neu anableddau cymhleth, a lleiafrif o'r cyfranogwyr â phrofiad o fod mewn gofal. Er bod gan y rhan fwyaf o ddysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal eu cyfrifon banc eu hunain ble mai dim ond y nhw allai gael mynediad iddynt, soniodd tri eu bod wedi rhannu mynediad a soniodd un nad oedd ganddo fynediad at ei arian (gan gynnwys y lwfans LCA). Soniodd un bod yn rhaid iddo ddadlau â'i awdurdod lleol er mwyn cael mynediad at ei arian yn 18 oed.

**Enghraifft o astudiaeth achos: Dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal gyda mynediad cyfyngedig i'w cyfrif banc**

Disgrifiodd un dysgwr â phrofiad o fod mewn gofal sut yr oedd yn gorfod rhoi ei daliadau LCA i'w rieni maeth. Dywedodd ei rieni maeth wrtho os na fyddai'n gwneud hyn, ni fyddai'n derbyn yr LCA, ac ni roddwyd dim o'r arian i'r dysgwr o gwbl. Roedd y dysgwr wedi codi'r mater hwn yn ddiweddarach, ond oherwydd ei fod yn anodd ei brofi, nid oedd modd gwneud dim:

'Aeth fy LCA i gyfrif fy ngofalwyr maeth, ac fe wnaethant wrthod ei roi i mi. Yn y pen draw, fe wnaeth y gofalwyr ei gadw iddyn nhw eu hunain.'

Dywedodd dysgwr arall â phrofiad o fod mewn gofal nad oedd yn derbyn unrhyw LCA ar yr adeg yr oedd ei angen arno ond ei fod wedi'i dderbyn yn ddiweddarach gan fod ei deulu maeth wedi ei gynilo ar ei gyfer heb ddweud wrtho ar y pryd. Nid oedd y dysgwr yn gwbl fodlon ynghylch y ffaith nad oedd ganddo ddim llais o ran yr arian yr oedd ganddo hawl i'w dderbyn, ni waeth beth oedd y bwriad.

Dywedodd dysgwr â phrofiad o fod mewn gofal a oedd wedi bod mewn cartref plant, er iddo dderbyn yr LCA, nad oedd ganddo fynediad o gwbl at yr arian bryd hynny. Nid oedd gan y dysgwr gerdyn banc ac ni roddodd y cartref yr LCA iddo fel arian parod.

**Ymgeiswyr aflwyddiannus am yr LCA a'u barn ynglŷn â chanlyniad y cais**

7.32 O blith yr 82 o ymatebwyr i'r arolwg y bu eu cais am LCA yn aflwyddiannus, roedd pob un ond tri yn dal i astudio mewn ysgol neu goleg.

7.33 Roedd y mwyafrif (73 y cant neu 59 o ymatebwyr i'r arolwg) yn gwybod pam fod eu cais wedi bod yn aflwyddiannus ond nid oedd chwarter (27 y cant neu 22 o ymatebwyr) yn gwybod y rheswm[88]. Y prif reswm a nodwyd gan yr ymatebwyr i'r arolwg am y ffaith y bu eu cais yn aflwyddiannus oedd bod incwm eu cartref yn rhy uchel:

[88] Ni wnaeth un ymatebydd ateb y cwestiwn.

'Rwy'n meddwl ei bod yn annheg bod y trothwy incwm aelwydydd mor isel, roeddwn ychydig yn uwch na hynny ac rydym yn dal i gael trafferth oherwydd costau byw, byddai cael yr LCA wedi lleddfu eithaf tipyn ar y straen'

'Roeddwn i wedi ypsetio braidd oherwydd roedd LCA yn fy helpu i ymdopi â'm sefyllfa ariannol a dim ond £100 dros y trothwy oeddwn i. Rwyf wedi bod yn cael trafferth prynu bwyd ar gyfer y coleg a thrafferth gydag arian byth ers hynny'

‘Mae fy rhieni’n ennill £2 yn fwy na'r trothwy’

'Rwy'n meddwl ei fod yn annheg gan fod incwm fy aelwyd yn gymwys, ond nid ar gyfer y flwyddyn a gwnaethoch chi ei nodi.' (Pob un gan ymatebwyr i’r arolwg)

7.34 Mewn rhai achosion, roedd gan ymgeiswyr aflwyddiannus am yr LCA frodyr a chwiorydd hŷn a oedd wedi derbyn y lwfans, ond nid oedden nhw'n gymwys (o bosibl oherwydd nad oedd y brodyr a'r chwiorydd hyn mewn addysg amser llawn mwyach) er nad yw incwm eu cartref wedi newid:

'Dylwn i gael LCA. Mae fy rhieni'n gweithio yn yr un swydd ar yr un tâl â phan oedd fy mrodyr yn cael LCA'

'y flwyddyn flaenorol cafodd fy mrawd LCA a chefais i ddim er bod ein dau riant yn gweithio a dim ond un oedd yn gweithio pan wnes i gais'

'Cafodd fy nghais ei wrthod oherwydd doedd gen i ddim brawd neu chwaer iau yn y coleg/ysgol uwchradd. Cefais wybod mai'r rheswm fod y cais wedi cael ei wrthod yw oherwydd bod fy mrawd yn y brifysgol' (Pob un gan ymatebwyr i’r arolwg)

7.35 Cyfeiriodd llond llaw o ymgeiswyr aflwyddiannus a gymerodd ran yn yr arolwg at resymau eraill gan gynnwys:

- byw yn Lloegr: 'achos dwi'n byw yn Lloegr'
- ddim yn astudio digon o oriau yn y coleg
- cais heb gael ei dderbyn gan SLC o fewn y terfynau amser

- heb lenwi’r ffurflen yn gywir, gan gynnwys oherwydd anawsterau ieithyddol e.e. ‘Dw i'n meddwl mai'r rheswm pam fy mod i ddim wedi'i gael yw achos bod fy mam ddim yn gallu siarad Saesneg’ (Ymgeisydd aflwyddiannus am yr LCA a ymatebodd i'r arolwg)
- nid yw’r coleg yn barod i weinyddu’r cynllun: 'nid oedd y coleg yr aeth fy mab iddo yn fodlon cwblhau'r gwaith papur angenrheidiol felly ni chafodd yr LCA bu'n rhaid i mi ei dynnu o'r coleg gan nad oeddwn i'n gallu fforddio ei anfon yno hebddo'. (Rhiant ymgeisydd aflwyddiannus am yr LCA a ymatebodd i'r arolwg)

7.36 Roedd nifer o’r ymgeiswyr aflwyddiannus am LCA a gymerodd ran yn yr arolwg yn dod o aelwydydd un rhiant ac yn arbennig o ddig nad oeddent yn cael yr LCA:

> 'er bod fy mam yn ennill mwy na'r isafswm, mae hi'n rhiant sengl gyda dau o blant gan gynnwys fi, felly mae arian yn brin iawn ar gyfer bwyd tra fy mod i yn y coleg.' (Rhiant ymgeisydd aflwyddiannus am yr LCA a ymatebodd i'r arolwg)

## 8. Cytundebau Dysgu LCA a monitro presenoldeb

8.1 Mae'r bennod hon yn trafod canfyddiadau'r gwaith maes mewn perthynas â'r defnydd o Gytundebau Dysgu'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA), gofynion presenoldeb, monitro presenoldeb a'r goblygiadau i daliadau'r lwfans. Mae'r bennod yn seiliedig yn bennaf ar farn staff Canolfannau Dysgu a gyfwelwyd yn ogystal â'r rhai sy'n derbyn LCA ar hyn o bryd a'r rhai sydd wedi'i dderbyn yn y gorffennol.

**Gweinyddu Cytundebau Dysgu LCA**

8.2 Eglurodd staff Canolfannau Dysgu fod Cytundebau Dysgu LCA yn ddogfennau ar wahân i Gytundebau Dysgu ysgolion neu golegau. Gall hyn weithiau achosi dryswch i'r dysgwr, yn enwedig mewn lleoliadau AB: cyfaddefodd aelodau o un grŵp ffocws a oedd yn dderbynyddion LCA Addysg Bellach (AB) eu bod wedi anwybyddu e-bost Cytundeb Dysgu cychwynnol yr LCA gan eu bod eisoes wedi llofnodi eu Cytundeb Dysgu gyda'r coleg. Mae'r mater hwn yn dueddol o gael ei godi a'i ddatrys pan fydd dysgwyr yn derbyn eu taliad LCA.

8.3 Mae ysgolion yn gweithredu fersiynau papur o Gytundebau Dysgu LCA yn bennaf, er i un ysgol adrodd ei bod yn e-bostio Cytundeb Dysgu LCA at ddysgwyr a'u rhieni/gwarcheidwaid. Nododd un ysgol fod eu Cytundeb Dysgu LCA yn ddogfen dwy dudalen fer iawn sy'n nodi gwybodaeth am absenoldebau cymwys a chanllawiau ar wyliau.

8.4 Dywedodd colegau AB a gyfrannodd at y gwaith maes eu bod yn gweinyddu Cytundebau Dysgu LCA fel dogfennau ar-lein, a bod dysgwyr yn eu llofnodi'n electronig. Er enghraifft, nododd staff mewn un coleg AB eu bod yn e-bostio Cytundeb Dysgu'r LCA at ddysgwyr a'u bod yn gallu ei lofnodi'n electronig drwy borth y coleg. Pwysleisiodd staff AB y gallai dysgwyr ddatgan unrhyw amgylchiadau esgusodol a allai ei gwneud yn anodd iddynt fodloni gofyniad Cytundeb Dysgu LCA wrth lofnodi'r ddogfen, yn unol â'r canllawiau LCA.

8.5 Dywedodd colegau AB, oherwydd y nifer fawr o dderbynyddion LCA, eu bod yn dyrannu llawer o adnoddau staff i sefydlu prosesau LCA ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Mae hyn fel arfer yn golygu nodi pa

ddysgwyr sydd wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais a gwirio i sicrhau eu bod i gyd wedi llofnodi Cytundeb Dysgu LCA:

> 'Mae'r LCA braidd yn drwsgl. Mae llawer o wirio, a pharu data a gwybodaeth a threfnu pethau' (Cynrychiolydd staff AB).

8.6 Mae ysgolion yn tueddu i gymryd mwy o amser i esbonio gofynion Cytundebau Dysgu LCA, ac maent yn aml yn gwneud hynny yn unigol ar ôl i'r SLC gadarnhau bod eu cais wedi bod yn llwyddiannus. Dywedodd staff ysgol:

> 'pan fyddan nhw'n llofnodi'r cytundeb dysgu, dw i'n siarad â nhw i gyd yn unigol a dw i'n dweud wrthyn nhw 'rydych chi'n cael eich talu i ddod i'r ysgol, felly mae'n rhaid i chi ddod i'r ysgol' ac maen nhw'n deall y rheolau.' (Staff ysgol)

> 'Rwy'n mynd drwy gytundeb y dysgwr gyda phob un yn unigol ac yn nodi'r meini prawf presenoldeb a beth rydym wedi'i gynnwys ynddo. Mae angen darparu unrhyw dystiolaeth i gefnogi absenoldeb o fewn tair wythnos i ddyddiad yr absenoldeb. Felly mae 'na ychydig o hyblygrwydd.' (Staff ysgol).

8.7 Nid oedd llawer o dystiolaeth bod effaith barhaus y pandemig COVID-19 wedi effeithio ar y prosesau a fabwysiadwyd i weinyddu Cytundebau Dysgu LCA, ac eithrio colegau yn parhau â phrosesau gweinyddu ar-lein a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod hwnnw.

**Ymwybyddiaeth a barn dysgwyr ar Gytundebau Dysgu LCA**

8.8 Roedd yr hyn yr oedd derbynyddion presennol yr LCA a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws yn ei gofio am Gytundebau Dysgu LCA yn eithaf amwys ar y cyfan, gyda rhai yn fwy gwybodus nag eraill. Er hynny, roedd gan ddysgwyr ddealltwriaeth dda iawn o oblygiadau llofnodi’r cytundeb o ran y gofynion presenoldeb, ac ategodd staff, yn enwedig staff mewn SABau, hynny gan ychwanegu:

> 'maen nhw'n gwybod y rheolau ... ond dydyn nhw ddim yn eu darllen a bod yn onest. Dyw'r rhieni ddim yn gwneud hynny ychwaith (Cynrychiolydd staff AB)

'Rwy'n cofio llofnodi i gael arian am ddim. Wnes i ddim ei ddarllen a dweud y gwir.' (Derbynnydd LCA mewn coleg AB).

8.9 Roedd rhai a oedd wedi derbyn yr LCA yn y gorffennol yn cofio bod eu Canolfan Ddysgu wedi rhoi pwys ar eu hysbysu am Gytundeb Dysgu'r LCA iddynt er mwyn sicrhau eu bod yn ei ddeall a'u bod yn ymwybodol o'r angen i'w lofnodi o fewn cyfnod o 13 wythnos o ddechrau'r flwyddyn academaidd. Roedd derbynyddion LCA blaenorol eraill o'r farn na ddigwyddodd hynny, a bod llai o ffocws ar y ddogfen.

'Rhoddodd y coleg lawer o ffocws arno [Cytundeb Dysgu'r LCA] er mwyn ceisio ein darbwyllo i ddod i mewn.' (Cyn-dderbynnydd LCA)

**Monitro presenoldeb**

8.10 Canfuwyd bod lefel y presenoldeb sy'n ofynnol gan dderbynyddion LCA i fod yn gymwys ar gyfer y taliad yn amrywio. Er enghraifft, nododd staff mewn dwy ysgol fod angen presenoldeb o 95 y cant gan y derbynyddion a nododd traean fod angen iddynt gael presenoldeb o 100 y cant. Mae rhai ysgolion ond yn mynnu bod angen i ddysgwyr fod yn bresennol ar gyfer eu gwersi tra bod eraill yn gofyn iddynt fod yn bresennol ar gyfer cyfnodau cofrestru hefyd.

'Mae'n rhaid iddyn nhw gael presenoldeb o 100 y cant. Allan nhw ddim methu unrhyw gyfnod cofrestru nac unrhyw wers. Os ydyn nhw, fyddan nhw ddim yn cael y taliad' (Cynrychiolydd staff ysgol)

8.11 Yn yr un modd, mae colegau AB yn mabwysiadu gwahanol feini prawf presenoldeb. Er enghraifft, dywedodd rhai fod angen i dderbynyddion LCA gael presenoldeb o 100 y cant bob diwrnod o'r wythnos tra bod eraill yn gofyn am bresenoldeb o 100 y cant gan ddysgwyr ar gyfer y dyddiau hynny pan fyddant yn cael gwersi. Dywedodd colegau eu bod yn mabwysiadu lefelau gwahanol o ddisgresiwn: er enghraifft mae dau goleg yn caniatáu hyd at 10 diwrnod o salwch fesul derbynnydd yn ystod y flwyddyn, tra bod un o'r rhain hefyd yn caniatáu pum niwrnod ychwanegol o absenoldeb i ofalwyr ifanc. Cafwyd peth awgrym y gall dysgwyr LCA 'chwarae'r system' pan ddaw'n fater o adrodd am absenoldebau, er mwyn osgoi colli eu lwfans. Mewn rhai achosion, cyfaddefodd derbynyddion LCA eu bod wedi

hysbysu eu hysgol neu goleg eu bod yn sâl ond mewn gwirionedd eu bod wedi colli'r bws neu roedd y bws yn hwyr, gan nad oedd yr olaf yn rheswm a oedd yn cyfrif fel absenoldeb awdurdodedig. Nododd trydydd coleg fod derbynyddion LCA yn cael hyd at dri achos o salwch y tymor (heb nodyn meddyg) ac ystyrir unrhyw absenoldebau pellach fel absenoldeb anawdurdodedig oni bai bod dysgwr yn darparu tystiolaeth i'r gwrthwyneb.

8.12 Yn ddiddorol ddigon, roedd y gofynion presenoldeb a nodwyd gan y rhai a oedd wedi derbyn LCA yn y gorffennol yn llawer ehangach na'r hyn a awgrymwyd gan Ganolfannau Dysgu a gyfwelwyd, yn amrywio o rhwng 85 y cant i 100 y cant. Roedd dehongliad ehangach hefyd o ran y ffordd y dyfarnwyd y lwfans, yn bennaf oherwydd bod y derbynyddion blaenorol a gyfwelwyd wedi mynychu ystod ehangach o ysgolion a cholegau nag a gynhwyswyd yn sampl yr astudiaeth achos. Disgrifiwyd agweddau rhai lleoliadau fel rhai 'llym iawn' ac ystyriwyd bod eraill yn fwy cymesur. Roedd gan y rhai a oedd wedi derbyn LCA yn y gorffennol a oedd wedi astudio yn yr ysgol rhyw frith gof bod eu presenoldeb wedi cael ei fonitro ar gyfer pob gwers gan athrawon, ac roedd sawl un yn cofio cael sesiynau dal i fyny bob wythnos gyda swyddog lles neu swyddog monitro i ddilysu absenoldebau.

> 'Ambell waith [fe wnes i golli gwersi'n fwriadol] oherwydd bod gennyf gyfrifoldebau gartref neu doeddwn i ddim yn teimlo'n dda iawn, byddwn i'n e-bostio ac yn esbonio ac weithiau bydden nhw'n caniatáu LCA, ond ar adegau eraill bydden nhw'n defnyddio cosb felly byddwn i'n colli taliadau.' (Cyn-dderbynnydd LCA).

8.13 Galwodd aelodau’r Rhwydwaith Gwasanaethau Myfyrwyr SAB am ganllawiau mwy cyson ynghylch presenoldeb gan fod y canllawiau presennol yn agored i’w dehongli ac wedi arwain at gynnig anghyfartal i ddysgwyr. Bu aelodau’r grŵp ffocws ar gyfer dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal hefyd yn myfyrio ar y mater hwn, gan eu bod mewn sefyllfa dda i gymharu’r gofynion presenoldeb a osodwyd gan wahanol ysgolion a cholegau, y nodwyd eu bod yn amrywio o 75 i 95 y cant. Ar y naill law, roedd y dysgwyr hyn yn meddwl bod y ffaith bod modd i Ganolfannau Dysgu addasu eu gofynion yn unol ag amgylchiadau lleol yn beth da ond ar y llaw arall, roeddent yn meddwl bod y gwahaniaethau rhwng polisïau yn

annheg. Awgrymodd y grŵp y dylid teilwra’r gofynion a nodir mewn Cytundebau Dysgu LCA yn unol ag anghenion unigol er mwyn eu gwneud yn fwy personol. Roedd yr arfer da hwn eisoes yn cael ei roi ar waith mewn un lleoliad a fynychwyd gan un dysgwr â phrofiad o fod mewn gofal ac a elwid yn ystyriaeth 'Addasrwydd i astudio' yn y Cytundeb Dysgu LCA.

8.14 Defnyddir data cofrestru ysgolion, fel arfer drwy System Rheoli Gwybodaeth Ysgolion (SIMS), i wirio presenoldeb derbynyddion LCA. Dywedodd ysgolion eu bod yn rhagweithiol iawn (yn fwy felly na cholegau AB) wrth wirio diffyg presenoldeb, ac yn y rhan fwyaf o achosion cynhelir yr ymarfer hwn cyn rhannu data presenoldeb gyda'r SLC ar gyfer rhyddhau taliadau. Roedd hyn oherwydd bod gan ysgolion nifer llai o dderbynyddion LCA sy'n ei gwneud yn dasg hylaw, yn ogystal â'r ffaith bod swyddogion chweched dosbarth ar gael a allai neilltuo amser i'r dasg. Roedd yn dilyn felly bod derbynyddion LCA mewn ysgolion yn adrodd am lai o broblemau'n ymwneud â diffyg taliadau na'u cyfoedion a oedd yn y coleg.

8.15 Eglurodd un cynrychiolydd ysgol, er enghraifft, y bydd ei swyddog chweched dosbarth yn anfon neges destun at rieni holl ddisgyblion y chweched dosbarth sy’n absennol o’r ysgol y bore hwnnw, gan gynnwys y rhai sy’n derbyn LCA, i ddarganfod pam mae disgybl yn absennol. Yna caiff y wybodaeth hon ei rhoi ar gofrestr yr ysgol a'i defnyddio, os yw'n briodol, fel sail i adrodd ar unrhyw ddata absenoldeb anawdurdodedig i'r SLC. Mewn ysgol arall, bydd cynrychiolydd staff yn ffonio rhieni bob dydd Gwener i ganfod pam mae disgyblion wedi bod yn absennol yn ystod yr wythnos honno. Mewn ysgol arall, mae'r swyddog chweched dosbarth yn anfon e-bost yn rhagweithiol at yr holl dderbynyddion LCA sydd ag absenoldeb anawdurdodedig ar y gofrestr yn gofyn iddynt ddod â llythyr o gartref i egluro’r absenoldeb:

> 'Rwy'n gwirio siartiau dosbarth [i weld] a oes ganddyn nhw gofnod presenoldeb llawn. Os byddaf yn gweld absenoldeb anawdurdodedig byddaf yn e-bostio pob disgybl ac yn mynd ar eu holau. Ar adegau rwy'n mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol] oherwydd mae'n gas gen i feddwl y byddan nhw'n colli eu taliadau.' (Cynrychiolydd staff yr ysgol).

8.16 Mewn lleoliadau AB, mae mwy o gyfrifoldeb ar dderbynyddion LCA i hysbysu'r coleg am achosion o absenoldeb. Er enghraifft, esboniodd cyfranogwyr mewn dau grŵp ffocws coleg bod yn rhaid iddynt roi gwybod am unrhyw absenoldebau dros y ffôn cyn 9am ar y diwrnod ei hun, a gall hyn fod yn heriol. Yn un o'r lleoliadau hyn, esboniodd derbynyddion LCA a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws na allent roi gwybod am unrhyw absenoldebau cyn y diwrnod ei hun, er enghraifft, os oedd ganddynt apwyntiad meddygol wedi'i drefnu ymlaen llaw.

**Ai presenoldeb yw'r maen prawf mwyaf priodol**

8.17 Fel y dangosir yn Nhabl 8.1, roedd 61 y cant o ymgeiswyr LCA a gymerodd ran yn yr arolwg o'r farn mai presenoldeb mewn ysgol neu goleg oedd y ffordd orau o ddyfarnu'r LCA. Roedd cyfran uwch o ymatebwyr i’r arolwg â phrofiad o fod mewn gofal, sef 67 y cant, o’r farn bod hyn yn briodol tra bod cyfran ychydig yn is o ymatebwyr sy'n ofalwyr ifanc, sef 59 y cant, yn meddwl ei fod yn briodol. Nid yw’n syndod o ystyried y profiadau mwy negyddol a gyfleuwyd drwy’r gwaith maes ansoddol bod dysgwyr yn y coleg ychydig yn llai tueddol o feddwl hyn, gyda 60 y cant yn cytuno a 28 y cant yn anghytuno mai presenoldeb oedd y ffordd orau o ddyfarnu’r lwfans. Mae hyn yn cymharu â 67 y cant o ddysgwyr ysgol a oedd yn cytuno a 21 y cant a oedd yn anghytuno mai presenoldeb oedd y ffordd orau o ddyfarnu'r lwfans.

**Tabl 8.1: Ai presenoldeb yw'r ffordd orau o ddyfarnu'r LCA**

| | Pob ymatebydd i'r arolwg | | Ymatebwyr i'r arolwg â phrofiad o fod mewn gofal | | Ymatebwyr i'r arolwg ag ADY | | Ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn ofalwyr ifanc | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Ie | 1,674 | 61% | 102 | 67% | 340 | 63% | 273 | 59% |
| Na | 723 | 26% | 37 | 24% | 137 | 25% | 142 | 31% |
| Ddim yn gwybod / Heb ateb | 334 | 12% | 13 | 9% | 53 | 10% | 46 | 10% |
| Cyfanswm | 2,731 | 100% | 152 | 100% | 540 | 100% | 461 | 100% |

Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3, Mawrth 2024. Nid yw'r cyfanswm yn cyfateb i 100 y cant oherwydd talgrynnu

8.18 Casglodd y gwaith maes safbwyntiau gwrthgyferbyniol ynghylch ai presenoldeb oedd y maen prawf mwyaf priodol ar gyfer dyfarnu'r LCA. Roedd y rhan fwyaf o gynrychiolwyr staff ysgol ac AB yn meddwl ei fod yn briodol mewn egwyddor ac yn arf effeithiol, yn enwedig wrth geisio mynd i'r afael â lefelau presenoldeb is mewn addysg yn gyffredinol ers y pandemig. Fodd bynnag, dywedodd sawl aelod o staff AB fod mwy o ddysgwyr yn colli taliadau LCA ers y pandemig COVID-19, oherwydd bod lefelau absenoldeb yn uwch yn gyffredinol. Dadleuodd un aelod o staff AB fod eu dysgwyr yn wynebu cryn dipyn yn fwy o broblemau personol nawr nag a oedd yn wir yn hanesyddol, o ran nifer y materion a wynebwyd yn ogystal â'u difrifoldeb, ac roedd hyn yn codi cwestiynau ynghylch priodoldeb parhaus presenoldeb fel maen prawf ar gyfer yr LCA.

8.19 At hynny, roedd rhai staff colegau AB ac ysgolion yn cydnabod eu bod nhw eu hunain yn parhau i gael cyflog pan fyddent yn absennol o'r gwaith, ac felly nid oeddent yn teimlo'n gyfforddus bod dysgwyr agored i niwed yn colli'r lwfans oherwydd eu bod yn absennol o'r ysgol neu'r coleg. Eglurodd cynrychiolwyr ysgol hefyd eu bod yn ceisio mabwysiadu dull pragmataidd o ymdrin ag absenoldebau disgyblion, yn bennaf oherwydd nad ydynt am i ddysgwyr sy'n agored i niwed golli eu taliadau LCA, er nad oeddent yn gyffredinol yn petruso cyn nodi eu bod yn absennol os na chafwyd rheswm dilys.

8.20 Mynegodd cynrychiolydd UCM Cymru a gyfwelwyd farn gref na ddylai'r LCA fod yn gysylltiedig â phresenoldeb a dadleuodd na ddylai dyfarnu taliadau fod yn seiliedig ar lefelau presenoldeb. Credwyd bod y math hwn o fodel ariannu yn wahanol i ddarpariaeth cyllid myfyrwyr arall ac yn cosbi'r grwpiau sydd fwyaf agored i niwed fel gofalwyr ifanc a dysgwyr anabl. Roedd cynrychiolydd UCM Cymru a gyfwelwyd hefyd o'r farn na ddylai fod unrhyw amodau ynghlwm wrth y lwfans, ond pe bai'n cael ei ystyried yn angenrheidiol byddai'n fwy priodol cysylltu'r lwfans â barn oddrychol gan Ganolfan Ddysgu bod dysgwyr yn gwneud cynnydd addysgol derbyniol.

8.21 Roedd llawer o'r rhai sy'n derbyn LCA ar hyn o bryd ac sydd wedi'i dderbyn yn y gorffennol yn cydnabod effeithiolrwydd dyfarnu'r LCA yn seiliedig ar bresenoldeb, ac roedd hyn yn gymhelliant pwysig iddynt:

> 'Yn bersonol, rwy'n meddwl mai dyma'r ffordd orau gan ei fod yn gwobrwyo pobl sy'n dod i'r coleg ac yn gwneud eu gwaith ac yn cosbi'r rhai sy'n gwrthod dod i'r coleg i wneud eu gwaith.' (Cyn-dderbynnydd LCA)

> 'Fe wnaeth yr LCA weithio i mi oherwydd fe wnaeth i mi fynd i'r ysgol hyd yn oed pan nad oeddwn i eisiau gwneud hynny.' (Cyn-dderbynnydd LCA)

> 'Roeddwn i'n mynd i ddod i'r coleg ond mae'n debyg na fyddwn i wedi mynd i lawer o wersi. Heb yr LCA byddwn i fwy na thebyg yn gadael rhai gwersi ac yn dod i mewn yn hwyr.' (Derbynnydd LCA mewn coleg AB)

**Problemau'n ymwneud â monitro presenoldeb**

8.22 Roedd y prif fater a godwyd gan dderbynyddion presennol a blaenorol yr LCA, yn enwedig y rhai mewn colegau a’r rhai mewn ysgolion a oedd yn mabwysiadu prosesau llai rhagweithiol, yn ymwneud â thaliadau LCA a gollwyd oherwydd yr hyn a oedd yn eu barn hwy yn absenoldebau anawdurdodedig annheg. Soniodd llawer am enghreifftiau o arian yn cael ei atal oherwydd nad oedd athrawon neu ddarlithwyr wedi cwblhau cofrestr gwers yn gywir, neu nad oedd athro neu ddarlithydd wedi bod yn bresennol ar gyfer y wers eu hunain. Awgrymodd staff a gyfwelwyd, yn enwedig mewn lleoliadau AB lle roedd y broblem fwyaf, fod y rhesymau dros beidio â gwneud taliadau i'w briodoli i lawer o ffactorau gan gynnwys dysgwyr nad oeddent yn adrodd am absenoldeb mewn modd amserol, darlithwyr yn methu â chwblhau cofrestrau dysgwyr yn gywir, a’r SAB ddim yn darparu’r wybodaeth gywir i SLC. Roedd y materion hyn yn bryder gwirioneddol i nifer o dderbynyddion LCA:

> 'mae gormod o bethau'n gweithio yn eich erbyn chi, mae'n eithaf pryderus, ar ddiwedd pob gwers mae'n rhaid i mi ofyn am sicrwydd gan y tiwtor bod fy mhresenoldeb wedi'i farcio ar y gofrestr, mae'n risg ac mae angen y taliadau LCA arnaf.' (Derbynnydd LCA mewn coleg AB)

8.23 Problemau'n ymwneud â phresenoldeb oedd y mater mwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr i’r arolwg wrth ateb y cwestiwn penagored terfynol

a ofynnodd beth yr hoffent ei weld yn cael ei newid am yr LCA, gyda thros bedwar o bob deg (609 o blith 1,469 o ymatebion, neu 41 y cant) yn galw am ofynion presenoldeb mwy goddefgar, neu am eu haddasu neu eu dileu. Roedd llawer o’r sylwadau hefyd yn beirniadu annhegwch canfyddedig y dull, a darparwyd sawl enghraifft o ddysgwr yn cael ei gosbi oherwydd camgymeriad ar ran y darlithydd neu’r athro a nododd ei fod yn absennol pan oedd yn bresennol:

> 'er fy mod yn meddwl bod presenoldeb yn bwysig ar gyfer derbyn LCA, rwy'n teimlo ei fod ychydig yn annheg i fyfyrwyr a allai fod angen amser i ffwrdd am resymau dilys ond sy'n dal i gwblhau'r gwaith'
>
> 'dylem gael mwy nag un absenoldeb y tymor'
>
> '[dylai fod yn] haws cael absenoldebau awdurdodedig neu lefel presenoldeb o 95% nid 100%' (Pob un gan ymatebwyr i’r arolwg).

8.24 Dywedodd y rhai a oedd â salwch hirdymor, problemau iechyd meddwl, anabledd neu gyfrifoldebau gofalu eu bod yn gweld y dull presennol o gofnodi absenoldebau yn arbennig o anodd yn eu hamgylchiadau nhw. Cynigiodd yr ymatebwyr i'r arolwg y sylwadau canlynol:

> 'nid yw defnyddio presenoldeb yn iawn gan fod gennyf broblemau gyda'm stumog sy'n golygu bod gennyf apwyntiadau ysbyty ac weithiau rwy'n sâl ac felly'n methu mynd i'r coleg ac felly'n colli fy arian am yr wythnos gyfan a dyw hynny ddim yn iawn'
>
> 'hoffwn iddyn nhw ddeall bod yna bobl â phroblemau iechyd, problemau meddyliol a chorfforol, sydd ar LCA ond na allant ddod i'r coleg bob dydd'
>
> 'mae'r gofynion presenoldeb yn llym yn enwedig ar gyfer myfyrwyr ag anableddau. Dydw i ddim wedi cael unrhyw daliad ers misoedd oherwydd fy mod i wedi colli ychydig oriau yma ac acw oherwydd fy awtistiaeth a gorbryder difrifol'
>
> 'mae presenoldeb o 100% er mwyn derbyn lwfans yn anodd, yn enwedig fel gofalwr ifanc'

> 'dylai gofalwyr ifanc gael y cyfle i gael mwy o ddiwrnodau o absenoldeb y maent yn dal i gael LCA amdanynt oherwydd nid ein bai ni yw e'

> 'mae angen mwy o oddefgarwch ar gyfer gofalwyr ifanc sy'n gymwys ar gyfer LCA'

> 'dyw hi ddim yn iawn eich bod chi'n colli LCA os ydych chi'n colli un marc neu wers. Rwy'n ofalwr ifanc i'm rhieni anabl felly weithiau rwy'n colli gwers neu'n cyrraedd yn hwyr sy'n fy atal rhag cael fy LCA am bythefnos! Ar adegau eraill dydy fy athro ddim wedi fy marcio'n bresennol pan fyddaf yno, ac mae hyn wedi fy atal rhag cael LCA' (Pob un gan ymatebwyr i'r arolwg).

8.25 Cyfeiriodd derbynyddion LCA mewn colegau'n aml at yr heriau y bu'n rhaid iddynt eu goresgyn i gywiro unrhyw gamgymeriadau yn y gofrestr er mwyn gallu ôl-ddyddio taliadau. Roedd hyn yn aml yn cynnwys trafodaeth gyda'r LCA neu'r swyddog cyllid i ganfod pa wers neu sesiwn yr oeddent wedi cael eu marcio'n absennol ar ei chyfer, yna trafodaeth bellach gyda'r darlithydd perthnasol i gywiro'r data hyn. Darparwyd un enghraifft o'r fath gan riant dysgwr a oedd yn derbyn LCA ar hyn o bryd, a oedd yn astudio cwrs galwedigaethol mewn coleg AB:

> 'Cawsom dipyn o ofid yn ddiweddar, roedd gan [enw'r plentyn] gofnod presenoldeb o 100 y cant ac oherwydd ei bod yn gwneud mor dda fe ofynnon nhw iddi wneud mwy o ddosbarthiadau. Roedd dryswch o ran cofrestru ei phresenoldeb a thiwtoriaid ddim yn ei chofrestru ac effeithiodd hynny ar ei LCA am gyfnod. Cymerodd hynny beth amser i'w ddatrys ond yn y pen draw cawsom yr arian yn ôl. Doeddwn i ddim yn credu bod hynny'n deg.' (Rhiant derbynnydd LCA mewn coleg AB)

8.26 Nid oes gan y rhan fwyaf o dderbynyddion LCA unrhyw ddull o wirio eu gwybodaeth am bresenoldeb cyn i Ganolfannau Dysgu rannu hyn gyda'r SLC er mwyn osgoi atal taliadau'n amhriodol, er bod eithriadau e.e. dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd â phrofiad o fod mewn gofal y gallai wirio ei gofnod presenoldeb ar-lein drwy ap y coleg. Nid yw derbynyddion LCA ychwaith yn cael unrhyw wybodaeth am swm y taliad y byddant yn ei dderbyn drwy hysbysiad pythefnosol SLC o'r dyddiad talu. Awgrymodd rhai

dysgwyr y byddai'n fuddiol cael gafael ar y wybodaeth hon cyn gynted â phosibl fel y gallent ddechrau datrys y mater yn gyflymach. Cafodd colli taliadau LCA effaith negyddol ar ddysgwyr, yn ogystal â'u rhieni:

> 'mae'n achosi llawer o straen oherwydd dw i ddim yn gwybod ydw i'n mynd i gael fy nghofnodi fel presennol ai peidio. Weithiau byddaf yn cael neges yn dweud na fyddai'n cael yr LCA a dydw i ddim yn deall pam, achos dwi wedi bod yn bresennol.' (Derbynnydd LCA mewn coleg AB)

8.27 Galwodd sawl ymatebydd i'r arolwg (75 o ymatebwyr) am well cyfathrebu ynghylch yr amserlen daliadau sydd i ddod. Awgrymodd rhai y byddai neges destun neu e-bost rheolaidd i'w hatgoffa pryd y byddai eu taliad nesaf yn debygol o gyrraedd yn ddefnyddiol[89]. Gofynnodd eraill am wybodaeth fanylach ynghylch pam yr oedd taliadau'n debygol o gael eu hatal neu pam y byddent yn hwyr:

> 'cael negeseuon testun rheolaidd pan fyddwch yn derbyn taliadau'
>
> 'amserlen swyddogol ar-lein yn nodi pryd mae'r taliad LCA yn cyrraedd'
>
> 'rhannu diweddariadau drwy e-bost ar unrhyw newidiadau a wnaed i'r swm sy'n cael ei dalu nesaf'
>
> 'rwy'n credu y dylai slipiau talu fod ar gael oherwydd weithiau dydw i ddim yn derbyn fy arian a dydw i ddim yn gwybod pam'
>
> 'cael gwybod pam efallai nad ydych yn ei gael neu gael gwybod os nad ydych yn cael y swm llawn a'r rheswm am hynny'. (Pob ymatebydd i'r arolwg)

8.28 Roedd mater allweddol arall a godwyd gan y rhai sy'n derbyn LCA ar hyn o bryd a'r rhai sydd wedi'i dderbyn yn y gorffennol, yn ogystal â rhai aelodau o staff, yn ymwneud â'r ffaith eu bod yn colli eu lwfans wythnosol os byddant yn colli un wers, ac roedd awgrym bod dysgwyr yn colli eu cymhelliant i sicrhau presenoldeb da ar gyfer gweddill dyddiau'r wythnos o ganlyniad i hynny:

[89] Gan dderbyn bod yr SLC yn darparu hysbysiadau o'r fath i dderbynyddion.

'dydw i ddim yn hoffi'r ffaith y gallwch chi golli un awr o ddosbarth, ac yna chewch chi ddim arian am yr wythnos gyfan. Dydw i ddim yn cytuno â hynny o gwbl' (derbynnydd LCA presennol mewn coleg AB)

'pan fyddwch yn colli gwers/diwrnod dylid didynnu'r ganran honno yn unig, nid gwerth wythnos gyfan o LCA' (Ymatebydd i'r arolwg)

'rwy'n meddwl mai'r peth mwyaf sy'n taro'r dysgwyr yw pan fyddan nhw'n colli'r bws neu rywbeth felly. Fe wnaethon nhw fethu'r wers gyntaf, fe wnaethon nhw gyrraedd yr ail wers, ond oherwydd iddyn nhw fethu'r wers gyntaf honno, maen nhw wedi colli eu harian am yr wythnos gyfan. Mae hynny'n eu digalonni.' (Staff AB).

8.29 Ar wahân i bresenoldeb, ni chanfu'r gwaith maes fod ysgolion neu golegau yn atal taliadau LCA am resymau eraill megis ymddygiad gwael neu gyflawniad academaidd anfoddhaol. Yn gyffredinol, nid oedd fawr o awydd gan unrhyw garfan i fabwysiadu set ehangach o feini prawf. Roedd y grŵp ffocws gyda dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal yn eithriad, ac roedd un dysgwr yn cofio bod gofyn iddo fodloni meini prawf ehangach er mwyn derbyn yr LCA, sef cwrdd â therfynau amser gwaith cwrs a 'gorfod cael marc llwyddo sylfaenol' er mwyn cael y taliadau.

**Effaith Covid**

8.30 Cyflwynodd llawer o Ganolfannau Dysgu, yn enwedig colegau AB, Gytundebau Dysgu LCA ar-lein yn ystod y pandemig ac mae'r rhain wedi parhau ers hynny.

8.31 Pan oedd dysgu'n digwydd o bell yn ystod y pandemig, rhoddodd Canolfannau Dysgu gadarnhad o bresenoldeb i SLC er mwyn rhyddhau taliadau cymwys. Roedd absenoldebau myfyrwyr oherwydd salwch, hunanynysu neu gau canolfan ddysgu oherwydd COVID-19, yn cael eu trin fel absenoldebau awdurdodedig, yn ôl disgresiwn y Canolfannau Dysgu[90].

[90] Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru ar gyfer y Flwyddyn Academaidd 2020/21 ar gael yn Hysbysiadau Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru ar gyfer ymarferwyr cyllid myfyrwyr | Cyllid Myfyrwyr Cymru

Parhawyd â'r trefniadau yn ôl disgresiwn hyn ar gyfer y flwyddyn academaidd 2021/22[91].

[91] Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru ar gyfer y Flwyddyn Academaidd 2021/22 ar gael yn Hysbysiadau Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru ar gyfer ymarferwyr cyllid myfyrwyr | Cyllid Myfyrwyr Cymru

# 9. Y defnydd o'r LCA a'i bwysigrwydd

9.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu sut y mae'r rhai sy'n derbyn yr LCA yn defnyddio eu lwfans a sut y mae'r rhai nad ydynt yn derbyn yr LCA yn talu am bethau. Mae'n seiliedig yn bennaf ar yr arolwg o ymgeiswyr am LCA, grwpiau ffocws gyda'r rhai sy'n derbyn yr LCA ar hyn o bryd a'r rhai nad ydynt yn derbyn LCA, gwaith maes gyda dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal, cyfweliadau â'r rhai sydd wedi derbyn LCA yn y gorffennol, a chyfweliadau â rhieni derbynyddion LCA. Mae hefyd yn ystyried y canfyddiadau ac unrhyw dystiolaeth a ddarparwyd gan randdeiliaid, gan gynnwys staff Canolfannau Dysgu, am y defnydd o'r LCA ymhlith dysgwyr.

**Sut y mae dysgwyr yn gwario'r LCA**

9.2 Mae Tabl 9.1 yn dangos sut y mae derbynyddion yr LCA a gymerodd ran yn yr arolwg sydd wedi'u lleoli mewn colegau ac ysgolion yn defnyddio eu LCA. Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg nodi'r categorïau y maent yn gwario eu lwfans arnynt, a gallent ddewis mwy nag un opsiwn. Mae'r tabl yn dangos sut y bu i'r ymatebwyr raddio'r categorïau gwariant hyn yn ôl pa mor aml y cyfeiriwyd at bob opsiwn. Fe wnaeth derbynyddion LCA a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws hefyd restru'r opsiynau hyn mewn modd tebyg, a bwyd yn yr ysgol neu'r coleg yw'r hyn y cyfeiriwyd ato amlaf, yna llyfrau ac offer ac yna gostau teithio a chludiant.

**Tabl 9.1: Sut y mae'r ymatebwyr i arolwg LCA mewn lleoliadau coleg ac ysgol yn gwario eu LCA**

| | Pob derbynnydd LCA sydd yn y coleg a'r ysgol | Derbynyddion LCA sydd yn y coleg | Derbynyddion LCA sydd yn yr ysgol |
|---|---|---|---|
| Brecwast neu ginio yn yr ysgol/coleg | 73% | 77% | 61% |
| Llyfrau neu offer ysgol/coleg | 52% | 50% | 57% |
| Teithio i'r ysgol/coleg | 49% | 49% | 48% |
| Ei gynilo ar gyfer y dyfodol | 38% | 34% | 48% |
| Dillad | 29% | 25% | 26% |
| Teithiau ysgol/coleg | 19% | 17% | 23% |
| Mynd allan | 17% | 15% | 22% |
| Helpu i dalu costau bwyd cartref | 15% | 16% | 13% |
| Helpu i dalu biliau cartref | 9% | 8% | 9% |
| Rhent i rieni/gwarcheidwaid | 4% | 4% | 4% |
| Gwyliau | 2% | 2% | 2% |
| Rhywbeth arall | 3% | 3% | 2% |
| Ddim yn gwybod | 1% | 1% | 1% |
| Nifer yr ymatebwyr | 2,540 | 1,834 | 706 |

Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3, Mawrth 2024. 2,540 o dderbynyddion LCA sydd yn y coleg a'r ysgol. Roedd modd i'r ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn

9.3 Mae dysgwyr yn defnyddio’u LCA amlaf i dalu am fwyd, boed hynny’n frecwast neu ginio, tra byddant yn yr ysgol neu’r coleg. Hwn oedd yr opsiwn mwyaf cyffredin a nodwyd gan dderbynyddion LCA a gymerodd ran yn yr arolwg (73 y cant, fel y dangosir yn Nhabl 9.1) a derbynyddion LCA a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws (a nodwyd gan 30 o blith y 52 o gyfranogwyr). Mae cyfran uwch o dderbynyddion coleg yn defnyddio'r LCA at y diben hwn. Roedd y rhai a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws a oedd yn y coleg, yn arbennig, yn cwyno bod cinio yn eu sefydliad yn ddrud, ac y byddai'n hawdd gwario'r rhan fwyaf o'u lwfans ar hynny.

9.4 Yr ail gategori gwariant y cyfeiriwyd ato amlaf oedd adnoddau addysgol megis llyfrau neu offer sydd ei angen ar gyfer yr ysgol neu'r coleg. Nodwyd hyn gan 52 y cant o dderbynyddion LCA a gymerodd ran yn yr arolwg a chan ychydig dros hanner (29 o blith 52) y rhai a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws. Soniodd y rhai a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws eu bod yn ei wario ar offer fel esgidiau diogelwch, offer iechyd a harddwch, offer barbwr, a Chyfarpar Diogelu Personol (PPE):

'roedd y clipwyr ei hun yn costio £40 – dyna'r arian wedi mynd am yr wythnos felly roeddwn i'n byw ar becynnau bwyd' (Derbynnydd LCA mewn coleg AB).

9.5 Y trydydd categori a gafodd ei grybwyll amlaf oedd teithio a chludiant i'r ysgol neu'r coleg, a hynny gan 49 y cant o dderbynyddion LCA a gymerodd ran yn yr arolwg a 42 y cant o'r rhai a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws (22 o blith 52). Daeth yn amlwg yn ystod sgyrsiau grwpiau ffocws fod yn rhaid i rai cyfranogwyr ddefnyddio eu LCA at y diben hwn gan nad oeddent yn cael cludiant am ddim neu â chymhorthdal i'r ysgol neu'r coleg. Roedd hyn yn aml yn amrywio o fewn yr un lleoliad addysgol e.e. roedd yn rhaid i un o'r rhai a gymerodd ran mewn grŵp ffocws dalu £90 y mis am ei docyn bws tra bod cyfranogwr arall, a oedd yn byw mewn sir wahanol, yn cael ei docyn am ddim.

9.6 Mae cyfran nodedig, sef 38 y cant o'r rhai a holwyd, hefyd yn cynilo eu LCA (neu ran o'u LCA) ar gyfer y dyfodol, ac roedd derbynyddion mewn ysgolion yn fwy tebygol o ddefnyddio'r LCA at y diben hwn (48 y cant) na derbynyddion yn y coleg (34 y cant). Ychydig iawn o'r rhai a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws (wyth o blith y 52) a ddywedodd ar eu ffurflen eu bod yn cynilo'r LCA, er bod mwy wedi nodi hyn yn ystod y trafodaethau, yn bennaf oherwydd eu bod yn tueddu i gynilo eu LCA at ddibenion penodol neu i brynu pethau penodol, megis cynilo ar gyfer gwersi gyrru, i brynu gliniadur, neu ar gyfer mynd i'r brifysgol. Esboniodd un o'r rhai a gymerodd ran mewn grŵp ffocws ei fod yn ei gynilo ar gyfer costau annisgwyl ond nid oedd gan eraill gynlluniau pendant ar gyfer eu cynilion:

'Rwyf fel arfer yn ei wario ar bethau ar gyfer yr ysgol, yna rwy'n rhoi'r gweddill yn rhywle gwahanol, felly os bydd rhywbeth arall yn codi, yna mae gen i'r arian ar gyfer hynny. Rwy'n ei ddefnyddio i dalu am geisiadau'r Brifysgol' (Derbynnydd LCA yn yr ysgol a gymerodd ran mewn grŵp ffocws)

'Dydw i ddim yn ei wario ar hyn o bryd. Rwy'n ei adael yn fy nghyfrif banc' (Derbynnydd EMA sy'n derbyn gofal).

9.7 Fel y dangosir yn Nhabl 9.1, dim ond cyfran fach o'r derbynyddion a gymerodd ran yn yr arolwg sy’n defnyddio eu LCA i helpu i gyfrannu at gostau eu haelwyd, gan gynnwys costau bwyd, biliau a rhent i’w rhieni neu warcheidwaid. Roedd nifer y rhai a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws sy'n defnyddio eu LCA yn y modd hwn hefyd yn eithaf bach e.e. nododd wyth o blith y 52 eu bod yn cyfrannu at gost bwyd neu filiau eu cartref a nododd un ei fod yn cyfrannu at y rhent. Soniodd llond llaw o'r rhai a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws eu bod weithiau'n benthyca rhywfaint o’u harian LCA i'w rhieni. Er enghraifft, dywedodd un cyfranogwr fod 'Mam yn benthyca gen i pan fydd hi'n brin o arian.' Ategwyd hyn gan staff colegau ac ysgolion a roddodd enghreifftiau achlysurol o ddysgwyr a oedd yn rhannu eu lwfans gyda'u teuluoedd. Roedd staff mewn ysgolion yn fwy tueddol o ddweud mai arian y dysgwr oedd yr LCA i raddau helaeth:

> 'mae'n siŵr bod rhai ohonyn nhw'n rhoi arian i'w rhieni, ond rwy'n gweld bod y rhan fwyaf o'r myfyrwyr yma yn defnyddio'r arian ar eu cyfer nhw eu hunain' (Cynrychiolydd staff ysgol).

9.8 Pwysleisiodd y rhai a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws, er nad oeddent yn gwneud cyfraniad ariannol tuag at gostau’r aelwyd, bod y ffaith eu bod yn derbyn yr LCA yn lleddfu’r pwysau ar incwm yr aelwyd, gan nad oedd yn rhaid i rieni neu warcheidwaid roi arian iddynt neu nid oedd rhaid iddynt orfod 'gofyn am ddeg punt' nawr ac yn y man. Roedd y dysgwyr yn credu bod hyn yn eu helpu i ddod yn annibynnol yn ariannol a lleihau eu dibyniaeth ar incwm eu rhieni:

> 'mae'n helpu fy Mam i beidio â gorfod prynu pethau i mi ar gyfer yr ysgol' (derbynnydd grŵp ffocws LCA yn yr ysgol)
>
> 'mae'n lleddfu llawer o'r pwysau a'r gofid os nad oes rhaid iddyn nhw wario arian ar lyfrau sydd eu hangen arnoch chi' (Derbynnydd EMA mewn ysgol, a gymerodd ran mewn grŵp ffocws).

9.9 Nododd dau dderbynnydd â phrofiad o fod mewn gofal fod yr LCA yn arbennig o ddefnyddiol o ran eu helpu i dalu costau cartref:

> 'Ran o'r ffordd drwy fy nghwrs, fe wnes i symud i'm lle fy hun. Yn sicr, fe wnaeth fy helpu i dalu fy miliau dŵr, nwy a thrydan. Roedd un

wythnos (LCA) yn talu am tua mis neu fis a hanner o fy mil dŵr (Derbynnydd â phrofiad o fod mewn gofal a gymerodd ran mewn grŵp ffocws)

‘Roeddwn i'n ffodus, es i nôl at fy rhieni, ond oherwydd bod person ychwanegol yn y tŷ byddwn yn rhoi £40 y mis o fy LCA iddyn nhw er mwyn gwneud yn siŵr fy mod i'n cyfrannu at y biliau’ (Derbynnydd â phrofiad o fod mewn gofal a gymerodd ran mewn grŵp ffocws).

9.10 Ymhlith y pethau eraill y dywedodd derbynyddion yr arolwg eu bod yn defnyddio’r LCA ar eu cyfer, roedd:

- gwersi gyrru. Soniodd rhai o'r derbynyddion a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws eu bod yn defnyddio’r lwfans ar gyfer gwers yrru wythnosol, a bod y £40 yn fwy na digon ar gyfer awr o wers yrru yr wythnos.
- tanwydd ar gyfer teithiau car. Soniodd rhai o'r derbynyddion a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws eu bod yn defnyddio car i gyrraedd yr ysgol neu’r coleg weithiau neu’n talu am danwydd i gyrraedd eu swydd ran-amser.
- gwersi megis gweithgareddau chwaraeon a gwersi cerdd
- hobïau, fel crefftau a gemau
- tanysgrifiadau, gan gynnwys tanysgrifiadau ffôn symudol a ffrydio cerddoriaeth
- bwyd iddyn nhw eu hunain y tu allan i'r ysgol/coleg. Crybwyllwyd hyn hefyd gan chwarter y rhai a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws (gyda 15 o blith 52 o gyfranogwyr yn nodi hyn ar y ffurflenni a ddosbarthwyd) gan gynnwys y rhai sy’n prynu cinio yn rhywle arall gan ei fod yn aml yn rhatach.

9.11 Roedd yr LCA yn cael ei ddefnyddio gan ddysgwyr mewn un ysgol arbennig i'w helpu i ddatblygu sgiliau bywyd fel siopa, defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, ymweld â chaffi neu weithgareddau fel nofio. Yn yr achos hwn mae’r ysgol yn gofyn i bob teulu am gyfraniad o £20 tuag at y

gweithgareddau hyn yn yr ysgol, ac mae'r swm hwn wedi cynyddu dros amser, felly mae'r LCA yn gyfraniad pwysig at y costau hyn:

> 'Mae gen i lawer o fyfyrwyr sydd angen mynd allan i ddysgu sut i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, dysgu sut i siopa, ac ati. Ac mae'r pethau hynny'n ddrud iawn y dyddiau hyn a heb yr LCA mae'n amhosibl i rai teuluoedd sicrhau bod eu plant yn gallu cymryd rhan. Roeddwn i'n arfer gofyn am £10 yr wythnos 10 mlynedd yn ôl. Nawr mae angen £20 yr wythnos dim ond i fynd i un siop yr wythnos, i fynd i gaffi. Ond bydden ni'n hoffi gwneud mwy' (Cynrychiolydd staff mewn ysgol arbennig).

9.12 Roedd llond llaw o dderbynyddion LCA a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws, yn enwedig y rhai a oedd â swydd ran-amser hefyd, yn ei chael hi'n anodd gwahaniaethu sut roeddent yn gwario eu lwfans:

> 'mae'r cyfan yn cael ei gyfuno gyda fy arian gwaith' (Derbynnydd LCA sydd yn yr ysgol).

**P'un a yw'r LCA yn hanfodol neu'n braf ei gael**

9.13 Roedd union hanner yr holl dderbynyddion LCA a gymerodd ran yn yr arolwg ac a oedd yn astudio mewn ysgol neu goleg yn ystyried bod y lwfans yn ffynhonnell incwm hanfodol tra bod y rhan fwyaf o'r hanner arall yn ystyried ei fod yn weddol bwysig, fel y dangosir yn Nhabl 9.2. Roedd derbynyddion yr LCA mewn colegau yn rhoi mwy o bwys ar y lwfans o gymharu â'r rhai mewn ysgolion, gan adleisio canfyddiadau'r gwerthusiad blaenorol a gynhaliwyd yn 2014.

**Tabl 9.2: Pwysigrwydd yr LCA i ddysgwyr mewn colegau ac ysgolion**

| | Pob derbynnydd LCA mewn colegau ac ysgolion | Derbynyddion LCA sydd yn y coleg | Derbynyddion LCA sydd yn yr ysgol |
|---|---|---|---|
| Hanfodol – ni allwn ymdopi hebddo | 50% | 53% | 44% |
| Eithaf pwysig - mae'n helpu llawer | 45% | 43% | 49% |
| Mae'n braf ei gael - mae'n helpu ychydig | 5% | 4% | 7% |
| Nifer yr ymatebwyr | 2,540 | 1,834 | 706 |

Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3, Mawrth 2024. 2,540 o dderbynyddion LCA sydd yn y coleg a'r ysgol.

9.14 Roedd bron i dri chwarter y derbynyddion LCA a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws (38 o blith 52 o gyfranogwyr) yn ystyried bod yr LCA yn bwysig iawn neu'n eithaf pwysig iddynt, tra bod y chwarter arall (14) yn ei ystyried yn llai pwysig. Awgrymodd staff a gyfwelwyd mewn ysgolion a cholegau fod cyfran o'u derbynyddion LCA yn hynod ddibynnol ar yr LCA, a bod y ddibyniaeth hon yn dod yn amlwg iawn pan oedd eu taliadau'n cael eu hatal am faterion yn ymwneud ag absenoldeb.

9.15 Roedd dwy ran o bump o'r holl dderbynyddion LCA mewn colegau ac ysgolion, a gymerodd ran yn yr arolwg, yn ystyried bod y lwfans yn bwysig iawn o ran helpu i dalu costau cynyddol ar gyfer eitemau hanfodol fel bwyd, nwy, a thrydan tra bod 31 y cant yn ystyried bod y lwfans yn eithaf pwysig. Unwaith eto, roedd derbynyddion a oedd yn y coleg yn rhoi mwy o bwys ar yr LCA er mwyn helpu i dalu'r costau cynyddol hyn.

**Tabl 9.3: Pwysigrwydd yr LCA o ran talu costau cynyddol ar gyfer eitemau hanfodol fel bwyd, nwy a thrydan**

| | Pob derbynnydd LCA mewn colegau ac ysgolion | Derbynyddion LCA sydd yn y coleg | Derbynyddion LCA sydd yn yr ysgol |
|---|---|---|---|
| Pwysig iawn | 40% | 43% | 34% |
| Eithaf pwysig | 31% | 30% | 32% |
| Ddim y naill na'r llall | 17% | 16% | 18% |
| Ddim yn arbennig o bwysig | 6% | 5% | 7% |
| Ddim yn bwysig o gwbl | 3% | 2% | 5% |
| Ddim yn gwybod | 3% | 3% | 3% |
| Nifer yr ymatebwyr | 2,540 | 1,834 | 706 |

Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3, Mawrth 2024. 2,540 o dderbynyddion LCA sydd yn y coleg a'r ysgol.

9.16 Thema allweddol a godwyd yn ystod y gwaith ansoddol oedd pwysigrwydd yr LCA o ran helpu i liniaru straen ariannol ar y derbynyddion a'u teuluoedd. Dadleuodd y rhai a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws fod yr LCA yn helpu i liniaru straen ariannol iddynt hwy yn ogystal â'u rhieni, a lleihau eu dibyniaeth ar aelodau'r teulu i'w cefnogi:

> 'Byddwn yn ei chael hi'n anodd iawn hebddo' (Derbynnydd LCA mewn coleg AB)

> 'LCA yw fy mhrif ffynhonnell incwm. Mae'n ysgafnhau'r pwysau ar fy nheulu' (Derbynnydd LCA mewn coleg AB).

9.17 Fe wnaeth llawer o'r rhai sydd wedi derbyn yr LCA yn y gorffennol y pwynt hwn hefyd, gan ddadlau bod eu defnydd o'r LCA i dalu am eitemau personol (dillad, hylendid, hanfodion ac ati) wedi lleihau'r pwysau ariannol ar eu rhieni:

> 'roedd gallu gofalu am fy anghenion fy hun drwy'r LCA yn bendant wedi helpu fy nheulu' (Cyn-dderbynnydd LCA a gyfwelwyd)

> 'roedd yn help mawr i fy nheulu wybod faint bynnag o jyglo oedd yn rhaid iddyn nhw ei wneud, bod arian ar gael i dalu fy nghostau coleg' (Cyn-dderbynnydd LCA a gyfwelwyd).

9.18 Yn absenoldeb y cyllid LCA, byddai'r pethau neu'r gweithgareddau y byddai'r derbynyddion a gymerodd ran yn yr arolwg yn mynd hebddynt yn cyfateb yn fras i'r pethau yr oeddent yn gwario eu lwfans arnynt fwyaf. Mae Tabl 9.4 yn dangos y categorïau gwariant y byddai ymatebwyr i'r arolwg mewn colegau ac ysgolion yn mynd hebddynt yn absenoldeb y lwfans. Er enghraifft, roedd 68 y cant o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg a oedd yn y coleg neu'r ysgol (1,649 o'r ymatebwyr) a oedd yn cael yr LCA o'r farn y byddent yn mynd heb fwyd neu'n prynu llai o fwyd tra roeddent yn yr ysgol neu'r coleg; gyda chyfran uwch o dderbynyddion yn y coleg yn nodi hyn. Roedd bron i hanner, 46 y cant neu 1,113 o ymatebwyr, yn meddwl y byddent yn mynd heb lyfrau neu offer ar gyfer ysgol neu goleg. Byddai ychydig dros draean, sef 37 y cant, yn peidio â mynd allan gyda'u ffrindiau yn absenoldeb yr LCA ac roedd derbynyddion mewn ysgolion yn fwy tueddol o aberthu hyn na dysgwyr a oedd yn y coleg. Y prif wariant arall y byddai derbynyddion LCA yn mynd hebddo fyddai teithio (teithio i'r coleg neu'r ysgol, tocynnau bws, gwersi gyrru, tanwydd ar gyfer eu car).

**Tabl 9.4: Y categorïau gwariant y byddai derbynyddion sydd yn y coleg neu'r ysgol, a gymerodd ran yn yr arolwg, yn mynd hebddynt, yn peidio â'u prynu, neu'n prynu llai ohonynt heb yr LCA**

| | Pob derbynnydd LCA sydd yn y coleg a'r ysgol | Derbynyddion LCA sydd yn y coleg | Derbynyddion LCA sydd yn yr ysgol |
|---|---|---|---|
| Brecwast neu ginio yn yr ysgol/coleg | 68% | 72% | 57% |
| Llyfrau neu offer ysgol/coleg | 46% | 45% | 49% |
| Mynd allan | 37% | 35% | 41% |
| Dillad | 35% | 34% | 36% |
| Teithiau ysgol/coleg | 28% | 27% | 33% |
| Bwyd yn y cartref | 16% | 16% | 14% |
| Gwyliau | 11% | 11% | 11% |
| Trydan neu nwy yn y cartref | 7% | 7% | 6% |
| Rhywbeth arall | 8% | 8% | 8% |
| Nifer yr ymatebwyr | 2,540 | 1,834 | 706 |

Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3, Mawrth 2024. 2,540 o dderbynyddion LCA sydd yn y coleg a'r ysgol. Gallai'r ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn.

9.19 Mae trafodaethau gyda dysgwyr a rhieni ynghylch yr hyn a fyddai wedi digwydd pe na baent wedi derbyn yr LCA yn awgrymu y byddent wedi

gorfod gweithio mewn swyddi rhan-amser neu gynyddu eu horiau gwaith i ddiwallu eu hanghenion ariannol. Byddai hyn wedi arwain at golli diwrnodau coleg neu gael llai o amser i ganolbwyntio ar eu hastudiaethau. Soniodd rhai dysgwyr sydd eisoes yn gweithio’n rhan-amser fod yr LCA yn caniatáu iddynt ddewis swyddi nad oedd yn cymryd eu holl amser, gan roi ymdeimlad o ryddid a hyblygrwydd iddynt.

9.20 Yn ogystal â hynny, heb yr LCA, roedd dysgwyr yn rhagweld y byddai'n rhaid iddynt fynd heb fwyd ac eitemau hanfodol eraill fel offer, cyflenwadau, a hyd yn oed hanfodion fel dillad. Soniodd rhai am achosion penodol lle y byddai diffyg cymorth ariannol wedi amharu ar eu gallu i ddilyn gweithgareddau fel pasio prawf gyrru neu gymryd rhan mewn teithiau a digwyddiadau allgyrsiol.

9.21 Byddai absenoldeb yr LCA hefyd wedi rhoi mwy o straen ariannol ar eu rhieni neu warcheidwaid. Roedd dysgwyr yn cydnabod y byddai'n rhaid i'w teuluoedd fod wedi aberthu pethau neu ysgwyddo beichiau ariannol ychwanegol i'w cefnogi. Mynegodd rhai deimladau o euogrwydd ynghylch y posibilrwydd o roi rhagor o faich ar eu teuluoedd, yn enwedig os oeddent yn gwario arian ar eitemau nad ydynt yn hanfodol tra bod eu teuluoedd yn cael trafferthion ariannol.

> 'Mae'n debyg y byddwn i wedi gorfod gofyn i mam a byddai hi wedi cael mwy o drafferth, o ran y sefyllfa rydyn ni ynddi nawr' (Dysgwr presennol ym mlwyddyn 11 )
>
> 'Byddwn i wedi gallu gorffen y cwrs ond byddwn wedi mynd â bwyd o adref gan adael llai o fwyd i fy nheulu' (Cyn-dderbynnydd LCA o goleg AB).

9.22 At hynny, roedd dysgwyr yn cydnabod, heb yr LCA, efallai y byddent wedi ailystyried eu llwybrau addysg, gan ddewis cyrsiau ag elfennau prentisiaeth o bosibl neu hyd yn oed ddewis gwaith amser llawn yn hytrach nag astudiaethau pellach. Roedd yr heriau ariannol a wynebwyd ganddynt yn ystod addysg bellach yn gwneud i rai dysgwyr gwestiynu eu gallu i fforddio addysg uwch yn y dyfodol, er eu bod yn ymwybodol o’r cymorth ariannol sydd ar gael.

9.23 Roedd effaith peidio â derbyn yr LCA yn ymestyn y tu hwnt i bryderon ariannol i iechyd a llesiant meddyliol. Soniodd rhai dysgwyr eu bod yn teimlo dan lai o straen a'u bod yn pryderu llai gyda chymorth ariannol yr LCA, ac roedd hynny'n caniatáu iddynt ganolbwyntio mwy ar eu hastudiaethau a gweithgareddau allgyrsiol. Rhoddodd yr LCA hefyd ymdeimlad o annibyniaeth a balchder i rai dysgwyr, gan eu galluogi i gyfrannu at gostau'r cartref a dilyn eu nodau addysgol heb deimlo'n ddibynnol ar eu teuluoedd.

> '[Petawn i wedi derbyn yr LCA] dydw i ddim yn meddwl y byddwn i wedi poeni cymaint.' (Myfyriwr mewn coleg AB nad oedd yn derbyn yr LCA)

> 'Roedd [fy merch] yn bryderus iawn, ac roedd hi'n meddwl ei fod yn annheg, o weld gweddill ei chyd-ddisgyblion yn ei gael...mae rhai ohonyn nhw'n cael prydau am ddim, a gwisg ysgol am ddim...' (Rhiant myfyriwr mewn coleg AB nad oedd yn derbyn yr LCA)

> 'Byddwn i wedi cwblhau'r cwrs ond ar adegau pan fyddwn i wedi gorfod gwneud mwy o waith cyflogedig neu wedi colli cyfleoedd cymdeithasol - fyddai hynny ddim wedi cael gormod o effaith arnaf yn academaidd ond efallai y byddai wedi effeithio ar fy iechyd meddwl.' (Cyn-dderbynnydd LCA yn yr ysgol).

**Y garfan nad ydynt yn derbyn LCA**

9.24 Mae'r adran hon yn seiliedig ar farn 79 o ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn dal i astudio mewn ysgol neu goleg ond a oedd wedi gwneud cais aflwyddiannus am yr LCA yn ogystal â phum trafodaeth grŵp ffocws a gynhaliwyd gyda'r rhai nad oeddent yn derbyn LCA mewn colegau. Mae'r adran hon yn ystyried eu barn ynghylch sut y maent yn ymdopi'n ariannol a pha wahaniaeth y byddai derbyn yr LCA yn ei wneud.

9.25 Roedd pob un ond pedwar o'r 79 o ymatebwyr i'r arolwg nad oeddent yn derbyn yr LCA (95 y cant) o'r farn y byddai derbyn y lwfans yn gwneud gwahaniaeth mawr (62 o ymatebwyr) neu ychydig o wahaniaeth (13 o ymatebwyr) iddynt. Nododd y pedwar arall nad oeddent yn gwybod neu ni wnaethant ymateb. Roedd y rhan fwyaf (91 y cant neu 72 o blith 79 o ymatebwyr) hefyd o'r farn y byddai derbyn y lwfans yn gwneud

gwahaniaeth mawr (46 o ymatebwyr) neu ychydig o wahaniaeth (26 o ymatebwyr) iddynt hwy a'u teulu o ran talu costau cynyddol eitemau hanfodol fel bwyd, nwy a thrydan. Dim ond pum ymatebydd nad oeddent o'r farn hon, nid oedd un yn gwybod ac ni wnaeth un ymateb.

9.26 Mae'r pethau mwyaf cyffredin y mae'r garfan a gymerodd ran yn yr arolwg yn mynd hebddynt neu'n prynu llai ohonynt oherwydd nad ydynt yn derbyn yr LCA yn cyd-fynd i raddau helaeth iawn â'r hyn yr oedd derbynyddion yr LCA yn gwario'r lwfans arno:

- bwyd yn yr ysgol neu'r coleg (72 y cant neu 57 o ymatebwyr)
- llyfrau neu offer ar gyfer yr ysgol neu'r coleg (54 y cant neu 43 o ymatebwyr)
- mynd allan gyda ffrindiau (53 y cant neu 42 o ymatebwyr)
- dillad (47 y cant neu 37 o ymatebwyr)
- teithiau ysgol neu goleg (38 y cant neu 29 o ymatebwyr)
- gwyliau (32 y cant neu 25 o ymatebwyr)
- bwyd yn y cartref (20 y cant neu 16 o ymatebwyr)
- trydan neu nwy yn y cartref (10 y cant neu wyth o ymatebwyr).

9.27 Pe baent yn derbyn yr LCA, byddai'r garfan a gymerodd ran yn yr arolwg yn ei wario'n bennaf mewn ffordd debyg i dderbynyddion yr LCA, gan gynnwys:

- bwyd yn yr ysgol neu'r coleg (71 y cant neu 56 o ymatebwyr)
- llyfrau neu offer ar gyfer yr ysgol neu'r coleg (63 y cant neu 50 o ymatebwyr)
- teithio i'r ysgol neu'r coleg (56 y cant neu 44 o ymatebwyr)
- cynilo ar gyfer y dyfodol (38 y cant neu 30 o ymatebwyr)
- dillad (28 y cant neu 22 o ymatebwyr)
- teithiau ysgol neu goleg (44 y cant neu 35 o ymatebwyr)
- bwyd yn y cartref (27 y cant neu 21 o ymatebwyr)

- mynd allan gyda ffrindiau (23 y cant neu 18 o ymatebwyr)
- biliau’r cartref (19 y cant neu 15 o ymatebwyr)
- gwyliau (naw y cant neu saith o ymatebwyr)
- rhent i rieni/gwarcheidwaid (naw y cant neu saith o ymatebwyr).

9.28 Roedd yr adborth gan y rhai nad oeddent yn derbyn yr LCA a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws yn adleisio barn y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg. Roedd yn amlwg bod y garfan hon yn wynebu caledi ariannol, yn mynd heb eitemau hanfodol gan gynnwys bwyd, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn bryderus iawn am eu sefyllfa ariannol. Roeddent yn meddwl y byddai derbyn yr LCA yn gwella eu bywydau'n sylweddol gan y byddai’n lleddfu straen ariannol ar eu teuluoedd, yn lleihau'r angen iddynt weithio oriau hir mewn swyddi rhan-amser, ac yn eu galluogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol y tu allan i’r coleg. Roedd y garfan nad oedd yn derbyn y lwfans yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn annheg iawn o'u cymharu â'u cyfoedion, gan grybwyll yn aml ei bod yn annheg i'r rhai sy'n derbyn LCA hefyd gael mynediad at gronfa caledi'r coleg, a ariennir drwy'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Er enghraifft, trafododd un grŵp ffocws y ffaith y gallai’r rhai sy’n derbyn LCA adennill cost gwisg ysgol a chostau teithio sy’n gysylltiedig â lleoliad gwaith o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn, ond nid oedd hyn opsiwn iddynt hwy.

**Y garfan a benderfynodd beidio â pharhau â'u haddysg**

9.29 Gofynnodd yr arolwg nifer fach o gwestiynau i'r rhai nad oeddent wedi parhau i astudio yn yr ysgol neu'r coleg. Roedd 70 o'r ymatebwyr i'r arolwg yn perthyn i'r categori hwn ac o blith y rhain roedd y mwyafrif (66 o ymatebwyr i'r arolwg) yn rhai y bu eu cais am LCA yn llwyddiannus ac roedd tri wedi bod yn aflwyddiannus[92]. Roedd y tri ymatebydd hyn o'r farn y gallai fod wedi bod yn bosibl iddynt fod wedi aros ymlaen mewn ysgol neu goleg pe bai eu cais am LCA wedi bod yn llwyddiannus.

9.30 Nid oedd y prif resymau pam nad oedd y garfan hon wedi parhau i astudio yn yr ysgol neu'r coleg yn gysylltiedig â materion ariannol, ac roeddent yn cynnwys y canlynol:

- nid oeddent yn mwynhau eu cwrs (47 y cant neu 33 o ymatebwyr)
- wedi dod o hyd i swydd (20 y cant neu 14 o ymatebwyr)
- rhesymau iechyd personol (20 y cant neu 14 o ymatebwyr)
- rhesymau eraill (14 y cant neu 10 o ymatebwyr) fel mynd i wlad arall a neu ddim yn gallu cyd-dynnu ag eraill ar y cwrs
- y cwrs wedi dod i ben (13 y cant neu naw o ymatebwyr).

9.31 Nododd pump o blith y 70 o ymatebwyr (saith y cant) na allent fforddio aros mewn addysg ac ychwanegodd un o'r rhain 'gan nad oeddwn yn derbyn yr LCA oedd ei angen arnaf, nid oedd gennyf ddewis ond gadael [ysgol uwchradd] ac ennill arian fy hun'.

9.32 Pan ofynnwyd yn benodol iddynt a oeddent yn poeni o gwbl am sut y byddent wedi ymdopi'n ariannol pe baent wedi parhau i astudio yn yr ysgol neu'r coleg, dywedodd y mwyafrif (64 y cant) eu bod yn poeni llawer (26 o blith 70 o ymatebwyr) neu'n poeni ychydig (19 o blith 70 o ymatebwyr), fel y nodir yn Nhabl 9.5.

[92] Nid oedd un yn gwybod.

**Tabl 9.5: Poeni ynghylch ymdopi'n ariannol pe baent wedi parhau i astudio yn yr ysgol neu'r coleg**

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Llawer | 26 | 37% |
| Ychydig | 19 | 27% |
| Ddim felly | 18 | 26% |
| Ddim o gwbl | 4 | 6% |
| Ddim yn gwybod / Ddim yn cofio | 3 | 4% |
| Cyfanswm | 70 | 100% |

Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3, Mawrth 2024. Y rhai nad oeddent wedi aros yn yr ysgol neu'r coleg.

9.33 Y prif bethau yr oedd y garfan hon yn bryderus ynghylch talu amdanynt, pe baent wedi parhau â'u haddysg, oedd (yn nhrefn pwysigrwydd):

- bwyd pan oeddent yn yr ysgol neu'r coleg
- mynd allan
- llyfrau neu offer ar gyfer yr ysgol neu'r coleg
- dillad
- teithiau ysgol neu goleg
- bwyd yn y cartref.

9.34 Dywedodd un rhan o bump (21 y cant neu 15 o blith 70) nad oedd ganddynt unrhyw bryderon ynghylch talu am bethau pe baent wedi parhau â'u haddysg.

## 10. Y gwahaniaeth a wneir


10.1 Mae'r bennod hon yn ystyried y gwahaniaeth y mae'r LCA yn ei wneud i'r rhai sy'n ei dderbyn a'r gwahaniaeth y gallai ei wneud i'r rhai nad ydynt yn ei dderbyn.

10.2 Mae’r bennod hon yn seiliedig ar farn ymatebwyr i’r arolwg, derbynyddion LCA presennol, y rhai sydd wedi derbyn LCA yn y gorffennol, dysgwyr Blwyddyn 11, y rhai nad ydynt yn derbyn LCA a rhieni. Mae hefyd yn ystyried barn staff Canolfannau Dysgu a rhanddeiliaid eraill lle y bo'n berthnasol.

**Penderfyniad i barhau mewn addysg**

10.3 Fel y dangosir yn Ffigur 10.1, roedd 88 y cant o ymgeiswyr LCA a gymerodd ran yn yr arolwg (2,390 o ymatebwyr) o’r farn bod y posibilrwydd o dderbyn yr LCA yn bwysig iawn (57 y cant) neu’n eithaf pwysig (31 y cant) i’w galluogi i barhau â'u haddysg a dim ond tri y cant a oedd yn meddwl nad oedd yn bwysig.

**Ffigur 10.1: Pwysigrwydd derbyn yr LCA er mwyn gallu aros mewn addysg [Nifer yr ymatebwyr=2,731]**




Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3, Mawrth 2024. Yr holl ymatebwyr

10.4 Roedd hefyd yn wir y byddai 72 y cant o dderbynyddion yr LCA a gymerodd ran yn yr arolwg (1,828 o ymatebwyr) wedi parhau â'u haddysg ond ni fyddai 17 y cant (428 o ymatebwyr) wedi gwneud hynny oni bai am y

lwfans. Roedd derbynyddion yr LCA mewn ysgolion yn fwy tebygol o ddweud y byddent yn bendant neu o bosib wedi aros mewn addysg (84 y cant) na derbynyddion a oedd yn y coleg (69 y cant). Mae’r cyfrannau hyn ychydig yn is na’r rhai a gasglwyd yn ystod y gwerthusiad blaenorol o’r LCA a gynhaliwyd yn 2014, pan oedd tua thri chwarter y derbynyddion a oedd yn y coleg a bron pob un o’r derbynyddion a oedd yn yr ysgol yn meddwl y byddent yn bendant neu o bosibl wedi cofrestru ar eu cwrs beth bynnag yn absenoldeb yr LCA, tra bod un rhan o bump yn meddwl y byddent yn bendant ddim neu'n annhebygol o fod wedi dilyn eu cwrs heb y lwfans[93].

10.5 Yn ystod y gwaith maes ansoddol, mynegodd y rhai sy'n derbyn yr LCA ar hyn o bryd a'r rhai sydd wedi'i dderbyn yn y gorffennol agweddau tebyg tuag at rôl yr LCA yn eu penderfyniadau i symud ymlaen i addysg bellach.

10.6 Darparodd trafodaethau gyda dysgwyr fwy o ddealltwriaeth o’r berthynas gymysg rhwng yr LCA a’u penderfyniad i aros mewn addysg ôl-16. Nododd rhai dysgwyr nad oedd derbyn yr LCA wedi cael fawr o effaith ar eu penderfyniad i barhau â’u haddysg, yn bennaf oherwydd eu bod wedi gwneud eu penderfyniad i aros mewn addysg cyn clywed am yr LCA. Amlygodd eraill ei bwysigrwydd o ran lleddfu straen ariannol a chyfrannu at ansawdd cyffredinol eu bywyd.

10.7 Pwysleisiodd sawl dysgwr fod ei gymhelliant i aros mewn addysg yn deillio o awydd i sicrhau dyfodol gwell. Roeddent yn mynegi dyheadau ar gyfer addysg uwch, gwell cyfleoedd gyrfa, a thwf personol. I'r dysgwyr hyn, nid yr LCA oedd y prif ffactor a oedd yn dylanwadu ar eu penderfyniad ond yn hytrach roedd yn fodd o leddfu'r beichiau ariannol sy'n gysylltiedig ag addysg. At ei gilydd, roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo mai eu hawydd i wneud cynnydd gyda'u hastudiaethau neu'r gyrfaoedd o'u dewis oedd y prif ffactor a ddylanwadodd ar eu penderfyniadau.

> ‘Fe wnes i ystyried mynd yn syth i weithio ond drwy fynd i’r coleg, byddaf yn mynd ymhellach, yn gyflymach yn yr un diwydiant’
> (Derbynnydd LCA sydd mewn coleg AB)

[93] Gwerthusiad o'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg | LLYW.CYMRU t.111

'Ar ôl hyn dw i eisiau gwneud Prentisiaeth. Fe wnes i Lefel 2 a nawr Lefel 3. Mae parhau ag addysg yn opsiwn da' (Derbynnydd LCA presennol sydd mewn coleg AB)

'Meddyliais am y coleg, ond arhosais ymlaen oherwydd dyna lle roedd fy ffrindiau. Fe wnaeth yr ysgol lawer o addewidion' (Derbynnydd LCA sydd yn yr ysgol)

'[Rydych chi'n aros ymlaen] i gael cymwysterau ychwanegol, i gael y swydd rydych chi ei heisiau' (Dysgwr presennol ym mlwyddyn 11)

'Gwella sgiliau Saesneg a chael mwy o brofiad' (Cyn-dderbynnydd LCA o goleg AB)

'Roeddwn i eisiau cael addysg uwch yn gyffredinol a symud oddi cartref.' (Cyn-dderbynnydd LCA o goleg).

10.8 Soniodd rhai dysgwyr am y ffaith nad oeddent yn ymwybodol o'r LCA cyn dechrau eu haddysg ôl-16, gan nodi bod eu penderfyniad i barhau ag addysg wedi'i ysgogi gan ffactorau eraill fel nodau academaidd, cynlluniau ar gyfer astudiaethau pellach, ac anogaeth gan rieni ac athrawon. Dywedwyd y byddent wedi parhau â'u haddysg p'un a fyddent wedi derbyn yr LCA ai peidio.

10.9 Fodd bynnag, roedd yna hefyd ddysgwyr a rhieni a oedd yn cydnabod pwysigrwydd yr LCA yn eu proses gwneud penderfyniadau. Iddynt hwy, roedd y posibilrwydd o dderbyn yr LCA yn ystyriaeth bwysig, gan y byddai'n helpu i leihau pwysau ariannol, caniatáu mwy o amser ar gyfer astudio, a'u galluogi i weithio llai o oriau mewn swyddi cyflogedig. Er iddynt gydnabod bod ffactorau eraill a ddylanwadodd ar eu penderfyniad, megis dyheadau gyrfa a nodau academaidd, chwaraeodd yr LCA ran mewn sicrhau eu bod yn parhau â'u haddysg.

'Gallwn i fod wedi penderfynu cael swydd, a fyddai hynny ddim wedi bod yn syniad da iawn fwy na thebyg' (Derbynnydd LCA presennol â phrofiad o fod mewn gofal)

'Wnaeth e ddim effeithio'n fawr ar fy mhenderfyniad, ond mae'n ysgafnhau'r pwysau ariannol ar fy rhieni' (Derbynnydd LCA sydd yn yr ysgol).

10.10 Amlygodd y rhai nad ydynt yn derbyn y LCA ar hyn o bryd yr heriau a wynebwyd ganddynt o ran cyllid ac effaith peidio â derbyn yr LCA. Soniwyd am bryderon ynglŷn â gallu fforddio deunyddiau cwrs, costau cludiant, a threuliau eraill sy'n gysylltiedig ag addysg.

10.11 Roedd cynrychiolwyr Canolfannau Dysgu yn credu bod yr LCA wedi cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr yn parhau â'u haddysg i raddau, ond ni allent ddarparu tystiolaeth feintiol ar gyfer hynny. Disgrifiodd cynrychiolwyr colegau AB sut yr oedd rhieni a dysgwyr yn dod yn fwy gwybodus am y cymorth ariannol posibl a oedd ar gael iddynt, gyda niferoedd cynyddol bellach yn disgwyl cael cymorth o’r fath.

10.12 Credai un cynrychiolydd AB, er y gall yr LCA gael dylanwad cadarnhaol ar benderfyniadau i ddychwelyd i addysg, mewn rhai achosion y gall rhieni wthio dysgwyr i aros mewn addysg er mwyn derbyn budd-dal plant a’r LCA, er efallai nad dyma’r dewis cywir i’r dysgwr o reidrwydd.

10.13 Yn gyffredinol, er nad yr LCA oedd yr unig ffactor a oedd yn gwneud i fyfyrwyr benderfynu aros mewn addysg ôl-16, chwaraeodd rôl sylweddol o ran lliniaru straen ariannol, eu galluogi i ganolbwyntio mwy ar eu hastudiaethau, a chyfrannu at eu llesiant yn gyffredinol. Gellir gweld y patrwm hwn o ymatebion ar draws ymatebion gan grwpiau amrywiol o dderbynyddion LCA a'r rhai nad ydynt yn derbyn LCA gan gynnwys cyfranogwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

10.14 Nid oedd dau gynrychiolydd o Ganolfannau Dysgu a gyfwelwyd yn ystod y gwaith maes yn credu bod yr LCA wedi cael effaith ystyrlon ar benderfyniadau dysgwyr i aros mewn addysg ac yn meddwl bod ffactorau cryfach ar waith megis awydd i ennill cymhwyster neu fynd ymlaen i addysg uwch yn y tymor hwy.

**Presenoldeb yn y coleg a'r ysgol**

10.15 Roedd 87 y cant o dderbynyddion yr LCA a gymerodd ran yn yr arolwg o'r farn bod y lwfans yn bendant neu o bosibl wedi eu helpu i fynd i'r ysgol

neu'r coleg yn fwy rheolaidd, fel y dangosir yn Nhabl 10.1. Roedd derbynyddion mewn colegau ychydig yn fwy tebygol o gredu hynny: roedd 69 y cant o dderbynyddion a oedd yn y coleg (1,264 o ymatebwyr) yn meddwl bod yr LCA yn bendant wedi eu helpu i fynd i'r coleg yn fwy rheolaidd.

**Tabl 10.1: P'un a yw'r LCA yn helpu'r derbynyddion i fynd i'r ysgol neu'r coleg yn fwy rheolaidd**

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ydy, yn bendant | 1,716 | 67% |
| Ydy, o bosib | 504 | 20% |
| Dim un na'r llall | 211 | 8% |
| Na, dim felly | 66 | 3% |
| Na, yn bendant ddim | 35 | 1% |
| Ddim yn gwybod neu heb ateb | 25 | 1% |
| Cyfanswm | 2,557 | 100% |

Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3, Mawrth 2024. Ymgeiswyr llwyddiannus am LCA sy'n astudio ar hyn o bryd.

10.16 Yn ystod y trafodaethau, nododd bron i dri chwarter (38 o blith 52) y rhai sy'n derbyn LCA ar hyn o bryd a thros hanner (10 o blith 17) y rhai sydd wedi derbyn LCA yn y gorffennol fod yr LCA wedi cael dylanwad cadarnhaol ar eu presenoldeb. Nodwyd bod y cymhelliant ariannol yn eu hannog i fynychu dosbarthiadau'n rheolaidd, hyd yn oed ar ddiwrnodau pan nad ydynt efallai eisiau mynd i'r ysgol. Roedd consensws ymhlith y dysgwyr bod yr LCA wedi cael effaith fawr ar bresenoldeb, yn enwedig ar gyfer pynciau fel Safon Uwch Bagloriaeth Cymru, lle y gallai presenoldeb fod yn anghyson fel arall. Roeddent yn credu bod yr egwyddor o gysylltu'r LCA â phresenoldeb yn gadarn, gan ei fod yn annog presenoldeb rheolaidd ymhlith y rhai sy'n ei dderbyn.

> 'Doeddwn i byth yn mynd i'r ysgol – ond mae'r arian yn help i mi ddod yma. Doeddwn i ddim yn gallu fforddio mynd i'r ysgol. Rwy'n gwybod mai 64 y cant oedd fy mhresenoldeb yn yr ysgol. Rwyf hefyd yn gwybod ei fod ymhell dros 90 y cant yma – felly rwy'n dod oherwydd bod mwy o gymhelliant i mi wneud hynny. (Derbynnydd LCA mewn coleg AB)

'Hebddo mae'n debyg na fyddwn i'n gallu dod i'r coleg mor aml.' (Derbynnydd LCA mewn coleg AB)

‘Mae cael LCA yn bendant yn gwneud i mi fynd i'r coleg yn amlach’ (Ymatebydd i’r arolwg)

'Rwy'n hynod ddiolchgar fy mod i'n cael LCA, gan ei fod wedi fy helpu i wella fy mhresenoldeb sy'n helpu fy addysg. Mae'n gymhelliant i wneud yn well yn yr ysgol.' (Ymatebydd i'r arolwg)

10.17 Cydnabu sawl dysgwr fod ofni colli taliadau LCA yn gymhelliant cryf i fynd i ddosbarthiadau'n rheolaidd. Soniwyd am achosion lle roedd y bygythiad o golli'r LCA yn eu gorfodi i fynychu hyd yn oed pan oeddent yn teimlo'n sâl neu'n wynebu heriau eraill. Gwelwyd hyn hefyd fel gwendid posibl yn y system, gyda dysgwyr yn nodi o bryd i’w gilydd bod y gofyniad presenoldeb uchel yn teimlo’n rhy llym ac y byddai’n eu hannog i fynychu hyd yn oed pan nad ydynt yn ddigon iach i wneud hynny o bosibl.

10.18 I rai myfyrwyr, roedd yr LCA yn cael ei weld fel math o incwm am ddysgu, a oedd yn gwneud i fynd i'r coleg deimlo'n debycach i swydd. Roedd hyn yn eu helpu i flaenoriaethu presenoldeb a gweld addysg fel modd o gael cymorth ariannol.

10.19 Fodd bynnag, dywedodd rhai myfyrwyr nad oedd yr LCA yn cael fawr ddim effaith, os o gwbl, ar eu presenoldeb oherwydd bod ganddynt gymhelliant eisoes i fynychu dosbarthiadau'n rheolaidd. Soniwyd y byddai eu lefelau presenoldeb wedi aros yn uchel hyd yn oed heb y cymhelliant ariannol, yn enwedig ymhlith y rhai a oedd eisoes yn ymroddedig iawn i symud ymlaen i addysg uwch neu ar hyd llwybrau gyrfa penodol.

'Byddai fy mhresenoldeb yn uwch na 95 y cant beth bynnag [heb yr LCA]'. (Derbynnydd LCA mewn coleg AB)

10.20 At hynny, tynnodd rhai dysgwyr sylw at fanteision ehangach yr LCA y tu hwnt i bresenoldeb yn unig. Dywedodd rhai o'r dysgwyr a gyfrannodd at y grwpiau ffocws mai’r LCA oedd eu profiad cyntaf o gael eu harian eu hunain, a bod hyn wedi rhoi ymdeimlad o annibyniaeth iddynt.

10.21 Ar gyfer y rhai nad oeddent yn derbyn yr LCA, roedd dros dri chwarter yr ymgeiswyr LCA aflwyddiannus a oedd yn dal yn yr ysgol neu'r coleg (62 o blith 72 o ymatebwyr) o'r farn y byddai derbyn yr LCA yn eu helpu i fynychu'n fwy rheolaidd. Roedd dysgwyr yn y coleg yn fwy tueddol o nodi hynny.

10.22 Mynegodd y rhai nad oeddent yn derbyn yr LCA hefyd amryw o bryderon ynghylch peidio â chael y lwfans a'i effaith bosibl ar eu lefelau presenoldeb. Amlygodd rhai rwystrau ariannol, gan nodi bod cost cludiant i'r coleg yn ormodol ar adegau, a chredent y gallai LCA fod wedi lleddfu'r baich hwn. Soniwyd hefyd fod y llwyth gwaith yn y coleg yn golygu bod angen gwneud gwaith adolygu ychwanegol gartref, gan wneud presenoldeb yn fwy heriol.

10.23 Er bod y myfyrwyr hyn yn ystyried bod eu lefelau presenoldeb yn dda er gwaetha'r ffaith nad oeddent yn derbyn yr LCA, roeddent yn cydnabod pe baent yn derbyn y lwfans, y byddent fwy na thebyg yn gwneud pob ymdrech i fynychu pob gwers. Fodd bynnag, roeddent hefyd yn ystyried bod gofynion presenoldeb yr LCA yn annheg, yn enwedig gan fod rhai wedi nodi eu bod wedi gweld ffrindiau yn colli taliadau am fethu dim ond un wers oherwydd gwallau gweinyddol (fel athro yn eu marcio'n absennol yn ddamweiniol) neu amgylchiadau na ellir eu hosgoi.

> 'Os ydych chi'n colli gwers, yna does gennych chi ddim bwyd am wythnos.' (Myfyriwr mewn coleg AB nad oedd yn derbyn yr LCA)

10.24 At ei gilydd, er bod cyfraddau presenoldeb y dysgwyr hyn yn uchel, roeddent yn teimlo y byddai cael LCA yn rhoi cymhelliant ychwanegol iddynt fynychu'r coleg, yn enwedig os oeddent yn wynebu rhwystrau fel salwch neu broblemau cludiant.

10.25 Roedd cynrychiolwyr ysgolion, yn arbennig, yn argyhoeddedig bod derbyn yr LCA yn cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb ac roedd rhai yn gallu darparu tystiolaeth o hyn:

- roedd un ysgol wedi edrych ar y gwahaniaeth a gafodd LCA ar ei chyfraddau presenoldeb. Roedd gan y rhan fwyaf o'u dysgwyr a oedd yn derbyn yr LCA ffigurau presenoldeb rhwng 95 a 98 y cant a

oedd yn uwch na'r ffigurau presenoldeb cyfartalog ar draws y chweched dosbarth cyfan (93 y cant)

- nododd ysgol arall mai eu dysgwyr LCA oedd â'r cyfraddau presenoldeb gorau yn yr ysgol

  'Mae tâl am bresenoldeb da yn gweithio'. (Cynrychiolydd staff ysgol)

10.26 Roedd cynrychiolwyr colegau AB hefyd yn gyffredinol o'r farn bod yr LCA yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i lefelau presenoldeb ond dim ond tystiolaeth o natur fwy anecdotaidd a ddarparwyd. O ystyried bod derbynyddion LCA yn cynnwys grwpiau mwy agored i niwed, roedd staff AB yn credu y byddai eu presenoldeb wedi bod yn is heb yr LCA.

**Cyfraddau presenoldeb derbynyddion LCA mewn un coleg AB**


Dangosodd un coleg a ddarparodd ddata presenoldeb i'r tîm ymchwil fod cyfraddau presenoldeb derbynyddion LCA yn debyg i gyfraddau presenoldeb y coleg yn gyffredinol. Er enghraifft:

- roedd presenoldeb y rhai a oedd yn astudio ar gyfer cymwysterau Safon Uwch a chymwysterau sgiliau yr un fath, sef 86 y cant
- roedd presenoldeb derbynyddion LCA ar gyrsiau galwedigaethol arbenigol yn 85 y cant, o gymharu ag 82 y cant yn gyffredinol
- roedd presenoldeb derbynyddion LCA ar gyrsiau peirianneg a chyfrifiadura yn 82 y cant, o gymharu ag 85 y cant yn gyffredinol.

**Cymryd rhan mewn gwersi**

10.27 Fel y dangosir yn Ffigur 10.2, dywedodd 60 y cant o dderbynyddion LCA a gymerodd ran yn yr arolwg a oedd yn astudio ar hyn o bryd fod derbyn yr LCA yn golygu eu bod yn bendant neu o bosibl yn cymryd mwy o ran mewn gwersi. Nid oedd llawer o wahaniaeth ym marn y derbynyddion ar sail y lleoliad addysgol yr oeddent yn ei fynychu.

**Ffigur 10.2: A yw derbynyddion LCA yn fwy abl i gymryd rhan mewn gwersi oherwydd y lwfans [Nifer yr ymatebwyr=2,557]**




Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3, Mawrth 2024. Ymgeiswyr llwyddiannus am LCA sy'n astudio ar hyn o bryd.

10.28 Mae trafodaethau gyda dysgwyr sy'n cael yr LCA ar hyn o bryd neu sydd wedi'i gael yn y gorffennol yn adlewyrchu amrywiaeth o safbwyntiau ynghylch ei effeithiolrwydd o ran gwella ymgysylltiad dysgwyr â gwersi a chyrsiau. Ni oedd y rhai a oedd wedi derbyn yr LCA yn y gorffennol yn teimlo'n gyffredinol bod yr LCA wedi cael effaith ar lefel eu hymgysylltiad, gyda thua dwy ran o dair (12 o blith 17) yn nodi nad oedd wedi gwneud unrhyw wahaniaeth. Er bod rhai dysgwyr presennol wedi nodi na chafodd yr LCA unrhyw effaith sylweddol ar eu gallu i gymryd rhan mewn gwersi, tynnodd eraill sylw at ei bwysigrwydd o ran hwyluso mynediad at adnoddau a chyfleoedd sy'n gwella eu profiad addysgol.

10.29 Pwysleisiodd rhai dysgwyr ei effaith gadarnhaol ar eu gallu i gymryd rhan mewn gwersi. Soniwyd am ddefnyddio cyllid LCA i brynu deunyddiau angenrheidiol ar gyfer eu hastudiaethau ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau addysgol, gan amlygu manteision ymarferol yr LCA. Tynnodd eraill sylw at y cymorth ariannol a ddarperir gan yr LCA, gan nodi y byddent yn ei chael hi’n anodd fforddio costau sy’n gysylltiedig â chyrsiau megis teithiau gwaith maes, llyfrau, a deunyddiau celf, hebddo. Mae hyn yn awgrymu bod yr LCA yn chwarae rhan hollbwysig o ran galluogi dysgwyr i gymryd rhan lawn mewn agweddau amrywiol ar eu profiad addysgol.

Soniodd un dysgwr am ddefnyddio rhan o’i lwfans LCA i brynu Chromebook, y mae’n ei ddefnyddio’n bennaf ar gyfer gwaith ysgol.

> 'Rhaid i bobl sy'n astudio pynciau llenyddol a chelf bob amser brynu eu deunyddiau eu hunain. Alla i ddim dweud wrthych faint dw i wedi ei wario eleni ac mae rhai o'r llyfrau yn eithaf arbenigol.' (Derbynnydd LCA sydd yn yr ysgol).

10.30 Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth barn ymhlith dysgwyr ynghylch effaith yr LCA ar eu hymgysylltiad. Mynegodd rhai bryderon fod y pwysau sy’n gysylltiedig â chynnal presenoldeb er mwyn derbyn taliadau LCA yn bwrw cysgod dros eu gallu i ganolbwyntio’n llawn a chymryd rhan lawn mewn gwersi. Roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu tynnu rhwng yr angen am gymorth ariannol a'r awydd i ymgysylltu'n ystyrlon â'u hastudiaethau, gan arwain at orbryder a phryder; 'mae'r pryder bob amser yno' (Derbynnydd presennol LCA yn y coleg). Nododd rhai dysgwyr, er eu bod nhw eu hunain yn cymryd rhan yn eu gwersi, eu bod wedi gweld bod rhai o'u cyfoedion yn mynychu'r coleg oherwydd y cymhelliant ariannol a ddarparwyd gan yr LCA yn bennaf.

10.31 Dywedodd tua thri chwarter y rhai nad oeddent yn derbyn yr LCA a oedd yn dal mewn addysg y byddai derbyn yr LCA yn eu galluogi i gymryd mwy o ran mewn gwersi, fel y dangosir yn Nhabl 10.2.

**Tabl 10.2: A fyddai derbyn LCA yn galluogi'r rhai nad ydynt yn ei dderbyn i gymryd mwy o ran mewn gwersi**

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Byddai, yn bendant | 42 | 53% |
| Byddai, o bosib | 17 | 22% |
| Dim un na'r llall | 13 | 16% |
| Na, mae'n annhebygol | 2 | 3% |
| Na, yn bendant ddim | 1 | 1% |
| Ddim yn gwybod neu heb ateb | 4 | 5% |
| Cyfanswm | 79 | 100% |

Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3, Mawrth 2024. Ymgeiswyr aflwyddiannus am LCA sy'n astudio ar hyn o bryd.

10.32 Dywedodd y mwyafrif helaeth o’r rhai nad oeddent yn derbyn yr LCA a oedd yn dal mewn addysg y byddai derbyn yr LCA yn eu galluogi i gymryd

mwy o ran mewn gwersi, gyda bron i ddwy ran o dair o’r garfan hon (51 o blith 79 o ymatebwyr) o’r farn y byddai'n bendant yn galluogi hynny.

**Cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol**

10.33 Roedd tua 73 y cant o'r rhai a holwyd yn meddwl bod y ffaith eu bod yn derbyn yr LCA yn golygu eu bod yn bendant neu o bosibl yn fwy tebygol o allu cymryd rhan mewn gweithgareddau a theithiau allgyrsiol, fel y dangosir yn Nhabl 10.3. Roedd yr ymateb gan ddysgwyr yn y coleg ac mewn ysgolion yn debyg.

**Tabl 10.3: A yw derbynyddion LCA yn fwy abl i gymryd rhan mewn teithiau a gweithgareddau allgyrsiol**

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ydyn, yn bendant | 1,080 | 42% |
| Ydyn, o bosib | 802 | 31% |
| Dim un na'r llall | 404 | 16% |
| Na, dim felly | 108 | 4% |
| Na, yn bendant ddim | 59 | 2% |
| Ddim yn gwybod neu heb ateb | 104 | 4% |
| Cyfanswm | 2,557 | 100% |

Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OBD, Mawrth 202. Ymgeiswyr llwyddiannus am LCA sy'n astudio ar hyn o bryd. Nid yw colofn cyfanswm y gyfran yn cyfateb i 100 y cant oherwydd talgrynnu.

10.34 Yn ystod y trafodaethau, pwysleisiodd dysgwyr a rhieni bwysigrwydd LCA o ran eu cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. Dywedodd tri chwarter (40 o blith 52) o’r rhai sy'n derbyn LCA ar hyn o bryd eu bod yn fwy abl i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel teithiau a gweithgareddau allgyrsiol oherwydd eu bod yn derbyn yr LCA, ond dim ond llai na thraean (5 o blith 17) o’r rhai dderbyniodd y lwfans yn flaenorol a oedd yn teimlo yr un fath. Fodd bynnag, nododd dysgwyr presennol fod yr LCA yn eu galluogi i fforddio teithiau a chymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol sy'n gysylltiedig â'u cyrsiau. Roedd y cymorth ariannol hwn yn lleihau pryderon am dreuliau ac yn caniatáu iddynt ganolbwyntio ar y gweithgareddau eu hunain, gan gyfrannu at brofiad addysgol mwy cyfoethog.

10.35 Roedd cydnabyddiaeth ymhlith dysgwyr y gallai'r LCA o bosibl eu cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol yn y dyfodol, yn enwedig teithiau maes a gwibdeithiau, a oedd yn cael eu hystyried yn ddrud.

Mynegodd y dysgwyr eu bod yn rhagweld y posibilrwydd o ddefnyddio cyllid LCA i dalu costau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau o'r fath, gan wella eu cyfleoedd dysgu.

10.36 Amlygodd rhai dysgwyr gyfyngiadau o ran eu mynediad at weithgareddau allgyrsiol oherwydd cyfyngiadau ariannol. Soniwyd am achosion yn y gorffennol, pan nad oeddent yn derbyn yr LCA, lle nad oeddent wedi gallu talu am deithiau neu weithgareddau eu hunain, gan bwysleisio rôl yr LCA o ran goresgyn y rhwystrau hyn a'u galluogi i gymryd rhan. Yn ogystal â hynny, soniodd y dysgwyr am enghreifftiau penodol lle roedd yr LCA yn eu cefnogi'n uniongyrchol i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. Er enghraifft, defnyddiwyd cyllid LCA i dalu costau fel bwyd ar gyfer teithiau, gan alluogi dysgwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau na fyddent wedi gallu eu fforddio fel arall.


10.37 At ei gilydd, er nad oedd rhai dysgwyr yn priodoli effaith sylweddol i LCA ar eu cyfranogiad mewn gweithgareddau allgyrsiol, tynnodd eraill sylw at ei rôl hanfodol o ran hwyluso mynediad at gyfleoedd o’r fath. Prif fanteision yr LCA o ran cefnogi ymgysylltiad dysgwyr y tu allan i'r ystafell ddosbarth oedd eu galluogi i fforddio teithiau, talu treuliau a goresgyn rhwystrau ariannol.

**Amser i astudio y tu allan i oriau ysgol/coleg**

10.38 Archwiliodd y gwaith maes a oedd derbyn yr LCA yn golygu bod derbynyddion yn cael mwy o amser rhydd y tu allan i oriau ysgol neu'r coleg oherwydd nad oedd yn rhaid iddynt gymryd swydd â thâl neu nad oedd yn rhaid iddynt weithio cymaint o oriau mewn swydd â thâl, y gallent ei ddefnyddio wedyn at ddibenion eraill, gan gynnwys amser astudio. Fel y dangosir yn Ffigur 10.3, roedd 52 y cant o dderbynyddion LCA a gymerodd ran yn yr arolwg (1,328 o ymatebwyr) yn meddwl bod ganddynt fwy o amser i astudio y tu allan i oriau ysgol neu'r coleg oherwydd eu bod yn derbyn yr LCA ond nid oedd 21 y cant (543 o ymatebwyr) o'r un farn. Roedd derbynyddion mewn ysgolion, sef 57 y cant (403 o ymatebwyr), yn fwy tebygol o feddwl bod derbyn yr LCA yn rhoi mwy o amser iddynt astudio y tu allan i'r ysgol. Nid oedd rhyw 27 y cant (686 o ymatebwyr) yn

gwybod neu ni wnaethant ateb, sy’n awgrymu y gallent fod wedi’i chael hi’n anodd ateb, o bosibl oherwydd bod 23 y cant o dderbynyddion LCA a gymerodd ran yn yr arolwg (614 o blith 2,627 o ymatebwyr), sef yr un gyfran â’r rhai nad oeddent yn cael LCA, hefyd yn gweithio mewn swydd ran-amser.

**Ffigur 10.3: A oes gan dderbynyddion LCA fwy o amser i astudio y tu allan i oriau ysgol neu coleg [Nifer yr ymatebwyr=2,557]**




Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3, Mawrth 2024. Ymgeiswyr llwyddiannus am LCA sy'n astudio ar hyn o bryd.

10.39 Fel y dangosir yn Nhabl 10.4, roedd tua dwy ran o dair o'r rhai nad oeddent yn derbyn LCA a ymatebodd i'r arolwg o'r farn y byddai derbyn y lwfans yn rhoi mwy o amser iddynt astudio y tu allan i'r ysgol neu'r coleg. Nid oedd unrhyw wahaniaeth barn ar gyfer y cwestiwn hwn rhwng yr ymatebwyr i'r arolwg nad oeddent yn derbyn LCA a oedd yn y coleg a'r ysgol.

**Tabl 10.4: P'un a fyddai gan y rhai nad ydynt yn derbyn yr LCA ar hyn o bryd fwy o amser i astudio y tu allan i'r ysgol neu'r coleg pe baent yn derbyn y lwfans**

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Byddai | 54 | 68% |
| Na fyddai | 7 | 9% |
| Ddim yn gwybod neu heb ateb | 18 | 23% |
| Cyfanswm | 79 | 100% |

Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3, Mawrth 2024. Ymgeiswyr aflwyddiannus am LCA sy'n astudio ar hyn o bryd.

10.40 Yn ystod y trafodaethau, mynegodd y rhai a oedd wedi derbyn LCA yn y gorffennol farn gymysg ynghylch a oedd yr LCA wedi darparu mwy o amser iddynt astudio y tu allan i'r ysgol/coleg (nododd 8 o blith 17 ei fod wedi gwneud gwahaniaeth) ac a allent weithio llai o oriau o ganlyniad i'r LCA (roedd 10 o blith 17 yn gweithio llai o oriau). Yn ystod y trafodaethau gyda'r rhai sy'n derbyn LCA ar hyn o bryd, dywedodd tua'u hanner eu bod yn gweithio ar hyn o bryd (23 o blith 52), tra bod cyfran ychydig yn is o'r rhai nad ydynt yn derbyn LCA yn gweithio ar hyn o bryd (6 o blith 18). Roedd dysgwyr a rhieni yn cytuno'n gyffredinol bod yr LCA yn darparu amser ychwanegol y tu allan i'r ysgol, yn bennaf oherwydd bod llai o angen i gael swydd ran-amser neu i weithio cymaint. Nododd sawl dysgwr nad oedd yn gweithio yr anhawster o gydbwyso gwaith rhan-amser â'u hymrwymiadau academaidd. Amlygwyd heriau'n ymwneud â chwblhau aseiniadau a'r diffyg amser sydd ar gael ar gyfer gwaith ychwanegol oherwydd eu hamserlenni coleg. Roedd rhai wedi ceisio gweithio ond yn ei chael hi'n rhy anodd cydbwyso hynny â'u hastudiaethau.

10.41 Roedd dysgwyr nad oeddent yn gweithio ar hyn o bryd ond a oedd wedi dal swyddi rhan-amser yn y gorffennol yn cydnabod bod yr LCA yn lliniaru'r angen i weithio, gan ganiatáu iddynt neilltuo mwy o amser i'w hastudiaethau. Roeddent yn teimlo bod y cymorth ariannol a ddarparwyd gan yr LCA yn lleihau'r pwysau i gael incwm ychwanegol drwy gyflogaeth, yn enwedig yn ystod y tymor.

10.42 Soniodd eraill fod yr LCA wedi eu galluogi i roi'r gorau i weithio'n rhan-amser a chanolbwyntio'n gyfan gwbl ar eu hastudiaethau. Cyfeiriodd rhai

dysgwyr at natur feichus eu cyrsiau neu – yn achos un myfyriwr drama – yr angen i fynychu clyweliadau fel rhesymau dros roi'r gorau i weithio. Roeddent yn ddiolchgar am y sefydlogrwydd ariannol a ddarparwyd gan yr LCA, a oedd yn caniatáu iddynt flaenoriaethu eu haddysg heb yr angen am incwm ychwanegol.

10.43 Nododd rhai dysgwyr, er eu bod yn gweithio ar hyn o bryd, y byddai'r LCA o bosibl yn lleihau eu dibyniaeth ar gyflogaeth ac yn darparu mwy o hyblygrwydd o ran rheoli eu hamser. Roeddent yn rhagweld y byddai cyllid LCA yn lleihau straen ariannol ac yn caniatáu iddynt weithio llai o oriau, gan eu galluogi i ganolbwyntio ar eu gwaith cwrs ac adolygu.

> 'Mae'n creu mwy o straen oherwydd, mae gweithio yn mynd â'ch amser, ond nawr, dw i eisiau adolygu, ond mae gen i waith ar yr un pryd. Felly byddai cael [yr LCA] yn help mawr, oherwydd fyddai dim rhaid i mi weithio cymaint, a byddai gen i fwy o amser i astudio a gwneud pethau rwy'n eu hoffi wedyn.' (Dysgwr blwyddyn 11 presennol)

> 'Mae gweithio mewn swydd gyflogedig yn rhoi llawer o straen arnoch chi ... gyda TGAU nawr ac arholiadau ar y gorwel.' (Dysgwr blwyddyn 11 presennol)

10.44 Fodd bynnag, roedd rhai dysgwyr hefyd yn credu na fyddai'r LCA yn cael llawer o effaith ar eu hangen i weithio mewn swydd ran-amser. Mynegwyd bwriad ganddynt i barhau i weithio ni waeth a fyddent yn derbyn LCA ai peidio, a hynny oherwydd dewisiadau personol, yr awydd i gael profiad gwaith, neu'r angen i gynnal eu hunain yn ariannol, yn enwedig yn ystod gwyliau'r haf.

> 'Y profiad, mae'n rhywbeth i'w wneud – dw i wastad yn diflasu.' (Myfyriwr mewn coleg AB nad oedd yn derbyn yr LCA)

10.45 Nododd eraill fod yr LCA yn darparu sefydlogrwydd ariannol, gan ganiatáu iddynt ddilyn gweithgareddau allgyrsiol neu hobïau yn hytrach na chwilio am waith. Er enghraifft, esboniodd rhai dysgwyr mewn un ysgol fod yr LCA yn caniatáu iddynt wario arian ar hobïau, gan roi bywyd iddynt y tu allan i'r ysgol a'r cartref. Mae hyn yn ddefnyddiol o ran cefnogi eu llesiant, gwneud rhywbeth y tu hwnt i'w hastudiaethau, a'u cefnogi i ddatblygu sgiliau (fel

sgiliau cerddorol) a gofalu am eu hiechyd meddyliol a chorfforol. Roedd dysgwr arall â phrofiad o fod mewn gofal yn gwerthfawrogi’r cyfleoedd newydd y gallai’r LCA eu cynnig (fel ymweld â dinasoedd newydd ar deithiau dydd) a’r ymdeimlad o annibyniaeth oddi wrth ei rieni maeth.

> 'Pe baen nhw'n cael gwared ar yr LCA, dw i'n meddwl y byddai hynny'n cael effaith fawr oherwydd fy mod i'n gwneud y rhan fwyaf o'm hobïau drwy'r LCA. Y cyfan y byddwn i'n ei wneud fyddai, mynd i'r ysgol, dod adref, a dyna ni.' (Derbynnydd LCA sydd yn yr ysgol)
>
> 'Byddwn i'n mynd yn ddiog.' (Derbynnydd LCA sydd yn yr ysgol)
>
> 'Byddai fy mywyd yn fwy diflas hebddo.' (Derbynnydd LCA sydd yn yr ysgol).

10.46 Awgrymodd cynrychiolwyr Canolfannau Dysgu a gyfwelwyd yn ystod y gwaith maes hefyd fod cysylltiad rhwng dysgwyr yn cymryd swydd ran-amser ac effaith negyddol ar bresenoldeb. Roedd y rhan fwyaf o’r farn bod derbyn yr LCA yn lleihau’r angen i dderbynyddion weithio mewn swyddi rhan-amser er eu bod hefyd yn adrodd yn gyffredinol bod dysgwyr (gan gynnwys derbynyddion LCA) yn troi fwyfwy at waith rhan-amser i gael dau ben llinyn ynghyd.

10.47 Ar y cyfan, mae'r ymatebion yn nodi er bod gan yr LCA rôl bwysig o ran lliniaru pwysau ariannol a galluogi dysgwyr i neilltuo mwy o amser i'w hastudiaethau neu weithgareddau eraill, mae amgylchiadau unigol a dewisiadau cyflogaeth yn amrywio ymhlith myfyrwyr. Er bod rhai dysgwyr yn dewis gweithio ochr yn ochr â'u hastudiaethau am amrywiol resymau, mae eraill yn dibynnu ar yr LCA am gymorth ariannol, gan ganiatáu iddynt flaenoriaethu eu haddysg.

**Y gwahaniaeth a wneir i raddau a chymwysterau**

10.48 Nododd tua dwy ran o dair o'r rhai sydd wedi derbyn LCA yn y gorffennol, pe na baent wedi derbyn y lwfans, byddent wedi cwblhau’r cwrs beth bynnag (11 o blith 17) ac nad oedd derbyn yr LCA wedi cael unrhyw effaith ar eu graddau (12 o blith 17). Fodd bynnag, amlygodd trafodaethau gyda dysgwyr presennol a rhieni y gred gyffredinol bod yr LCA yn debygol o gael dylanwad cadarnhaol ar berfformiad academaidd. Mynegodd llawer y farn y

byddai'r LCA yn hwyluso gwell graddau drwy leddfu pryderon ariannol a galluogi dysgwyr i ganolbwyntio mwy ar eu hastudiaethau. Nodwyd bod yr LCA yn darparu adnoddau ar gyfer deunyddiau addysgol megis llyfrau, beiros, a phadiau ysgrifennu, sy'n hanfodol i helpu dysgwyr i astudio. Yn ogystal â hynny, tynnodd dysgwyr sylw at bwysigrwydd yr LCA o ran cefnogi presenoldeb, gan eu bod yn credu bod presenoldeb uwch yn arwain at fwy o gyfleoedd dysgu a chanlyniadau academaidd gwell; 'achos os dw i'n cyrraedd mewn pryd, dw i'n dysgu mwy na rhywun sydd awr yn hwyr...' Soniodd rhai dysgwyr fod yr LCA yn rhoi cymhelliant iddynt fynychu dosbarthiadau'n rheolaidd ac ymgysylltu'n fwy effeithiol â'u gwaith.

> 'Byddwn i wedi teimlo'n euog pe na bawn i wedi cael y graddau, oherwydd eu bod yn gwario'r holl arian yma er mwyn i mi gael addysg.' (Derbynnydd LCA blaenorol â phrofiad o fod mewn gofal).

10.49 Nododd cynrychiolwyr Canolfannau Dysgu ar draws ysgolion a cholegau AB a gyfwelwyd yn ystod y gwaith maes fod cysylltiad cryf rhwng presenoldeb a chyrhaeddiad/deilliannau academaidd ac roedd rhai yn gallu darparu tystiolaeth bellach:

- roedd un coleg AB wedi gweld cynnydd amlwg mewn presenoldeb ymhlith dysgwyr Lefel 3 ar ôl iddynt dderbyn LCA a bod hyn wedi gwella cymwysterau a graddau
- mae un ysgol yn monitro cyrhaeddiad ei derbynyddion LCA drwy'r maes 'gwerth ychwanegol' yn y system Alps[94] a dywedodd ei fod wedi dangos bod dysgwyr yn perfformio'n dda yn erbyn y graddau a ragfynegwyd
- adroddodd ysgol arall fod pob derbynnydd LCA ym Mlwyddyn 13 eleni yn gwneud cais am le mewn prifysgol
- disgrifiodd un cynrychiolydd ysgol sut y mae derbynyddion LCA weithiau’n defnyddio’r arian i fynd i ddiwrnodau agored, felly mae’n ysgogi ac yn cynyddu eu dyheadau ar gyfer y dyfodol.

[94] Offeryn data addysg a meddalwedd dadansoddol a ddefnyddir gan ysgolion.

## 11. Cymhariaeth â gwledydd eraill

11.1 Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o'r cymorth ariannol sydd ar gael ar draws yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr. Mae'n defnyddio adolygiad desg o'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd yn ogystal â chanfyddiadau cyfweliadau a gynhaliwyd gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ac Adran Addysg Llywodraeth y DU. Mae'r bennod hefyd yn ystyried y gwaith maes a wneir mewn dwy Ganolfan Ddysgu, un yn goleg chweched dosbarth a'r llall yn goleg AB, sydd ar y ffin â Chymru a Lloegr.

**Lloegr**

11.2 Cyn trafod y cymorth ariannol sydd ar gael i ddysgwyr mewn addysg bellach yn Lloegr, mae'n werth tynnu sylw at rai gwahaniaethau yn y cyd-destun ehangach rhwng Cymru a Lloegr:

- rhaid i ddysgwyr yn Lloegr aros mewn addysg amser llawn; dechrau prentisiaeth; neu dreulio 20 awr neu fwy yr wythnos yn gweithio neu'n gwirfoddoli, tra byddant mewn addysg neu hyfforddiant rhan-amser nes eu bod yn 18 oed, ond yng Nghymru gall dysgwyr adael ar ddiwedd y flwyddyn academaidd ar ôl iddynt droi'n 16 oed
- mae hawl gan ddysgwyr difreintiedig mewn ysgolion a sefydliadau a ariennir gan AB yn Lloegr i gael Prydau Ysgol am Ddim[95], ond yng Nghymru dim ond dysgwyr mewn ysgolion sydd â hawl i hyn.

*Y Gronfa Bwrsariaeth*

11.3 Ar ôl cael ei chyflwyno'n wreiddiol ar draws pedair gwlad y DU, caewyd y cynllun LCA yn Lloegr yn 2011. Cyflwynwyd y Gronfa Bwrsariaeth 16-19[96] yn lle hynny ym mis Medi 2011 ac mae'n darparu cymorth ariannol i bobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau ariannol mawr i gymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16.

---

95 Free meals in further education funded institutions guide: 2023 to 2024 academic year - GOV.UK (www.gov.uk)
96 16 to 19 education: financial support for students - GOV.UK (www.gov.uk)

11.4 Mae dwy ran i'r Gronfa Bwrsariaeth[97]. Mae'r rhan gyntaf ar gael i grwpiau agored i niwed gan gynnwys y rhai sydd mewn gofal neu sydd wedi gadael gofal, y rhai ar gymhorthdal incwm neu Gredyd Cynhwysol a'r rhai sy'n derbyn Lwfans Byw i'r Anabl. Dyrennir bwrsariaethau blynyddol o hyd at £1,200 i alluogi unigolion i astudio mewn ysgol neu goleg AB a ariennir yn gyhoeddus yn Lloegr neu i fynychu cwrs hyfforddi, gan gynnwys profiad gwaith di-dâl. Rhaid i ddysgwyr wneud cais i gronfa ganolog am lwfans Cronfa Bwrsariaeth grŵp sy'n agored i niwed drwy eu lleoliad addysgol. Mae'n ofynnol i leoliadau addysgol gynnal asesiad unigol o anghenion y dysgwr i gyfrifo faint o gymorth ariannol sydd ei angen ar y dysgwr. Os bydd yn llwyddiannus, trosglwyddir cyllid i'r lleoliad addysgol i sicrhau ei fod ar gael i'r dysgwr agored i niwed mewn ffordd ac ar amlder a bennir gan yr ysgol neu'r coleg. Mae adborth gan yr Adran Addysg yn awgrymu mai'r gronfa flynyddol gyfartalog a ddyfernir i bob dysgwr agored i niwed sy'n gwneud cais yw tua £950.

11.5 Dyrennir gweddill y gronfa (a'r rhan fwyaf ohoni) i ysgolion, colegau, a darparwyr hyfforddiant fel y gallant nodi a chefnogi'r bobl ifanc sydd ei angen gyda Bwrsariaeth yn ôl Disgresiwn. Darperir cyllid yn uniongyrchol i bob Canolfan Ddysgu ac mae'n seiliedig ar nifer y dysgwyr cofrestredig ym mhob un, gyda phwysoliad ar lefelau amddifadedd lleol, costau teithio, a nifer y dysgwyr sy'n astudio am achrediad Lefel T[98]. Mae'r canllawiau'n nodi bod yn rhaid i Ganolfannau Dysgu osod a defnyddio incwm aelwydydd fel sail ar gyfer dyfarnu cymorth o dan y rhan hon o'r Gronfa, ond gall sefydliadau ddewis eu meini prawf cymhwystra eu hunain o ran y swm fesul dyfarniad, sut y telir myfyrwyr (arian parod neu mewn nwyddau)[99] ac, os cânt eu talu mewn arian parod, pa mor aml y cânt eu talu (e.e. wythnosol, tymhorol, neu flynyddol). Gall Canolfannau Dysgu gadw hyd at bump y cant o'u dyraniad cyllid i dalu costau gweinyddol. Mae adborth gan

16 to 19 Bursary Fund guide 2023 to 2024 academic year - GOV.UK (www.gov.uk)[97].

[98] Cymhwyster dwy flynedd ar gyfer pobl ifanc 16 i 19 oed a gynlluniwyd ar y cyd â chyflogwyr yw Lefelau T. Mae'n ofynnol i ddysgwyr ymgymryd â lleoliad mewn diwydiant fel rhan o'u cymwysterau Lefel T, sy'n golygu costau ychwanegol i ddysgwyr.

[99] Er enghraifft, ar ffurf tocyn teithio, prydau bwyd am ddim neu lyfrau.

yr Adran Addysg yn awgrymu mai’r gronfa flynyddol gyfartalog a ddyfernir i bob dysgwr drwy’r elfen yn ôl disgresiwn yw tua £500.

11.6 Gwerthuswyd y Gronfa Bwrsariaeth yn annibynnol rhwng 2012 a 2015[100] ac adroddwyd bod 357,300 o fyfyrwyr wedi cael dyfarniadau yn 2012/13 - sy'n cynrychioli tua 23 y cant o'r garfan 16 i 18 mewn addysg a dysgu seiliedig ar waith y flwyddyn honno. Awgrymodd y rhai a gyfrannodd at yr adolygiad hwn fod tua un rhan o bump o’r holl ddysgwyr mewn addysg bellach yn cael cymorth drwy’r Gronfa Bwrsariaeth ar hyn o bryd.

11.7 Daw'r gwerthusiad effaith i'r casgliad mai effaith gymharol fach a gafodd diddymu'r LCA a chyflwyno'r Gronfa Bwrsariaeth ar gyfranogiad a chyrhaeddiad ond bod hyn wedi effeithio'n anghymesur o negyddol ar bobl ifanc o deuluoedd incwm isel.[101] Canfu’r gwerthusiad mai un o brif gryfderau'r Gronfa Bwrsariaeth oedd yr hyblygrwydd yr oedd yn ei gynnig i Ganolfannau Dysgu deilwra cymorth i ddiwallu anghenion dysgwyr. Nodwyd rhai o anfanteision gweinyddol y Gronfa Bwrsariaeth fel anghydraddoldeb posibl yn y cymorth ariannol sydd ar gael i ddysgwyr sy'n astudio gyda gwahanol ddarparwyr a'r baich gweinyddol ar ddarparwyr. Roedd Canolfannau Dysgu a phobl ifanc yn sôn am effaith y Gronfa Bwrsariaeth ar gyfranogiad mewn termau cadarnhaol, a chytunodd y rhan fwyaf o dderbynyddion y bwrsariaethau a holwyd fel rhan o’r gwerthusiad eu bod yn gallu ymdopi’n well yn ariannol oherwydd y cymorth. Er y canfuwyd bod y Gronfa Bwrsariaeth yn targedu pobl ifanc a oedd yn wynebu’r anfanteision ariannol mwyaf, canfuwyd bod cyfran fach ond sylweddol o’r bobl ifanc nad oeddent yn cael cymorth yn cael trafferthion ariannol[102].

11.8 Mae adborth a gasglwyd gan ddwy Ganolfan Ddysgu yn Lloegr ger y ffin rhwng Cymru a Lloegr yn ystod ein hadolygiad yn awgrymu:

---

[100] Evaluation of the 16 to 19 Bursary Fund - GOV.UK (www.gov.uk)
[101] Gwerthusiad o effaith y Gronfa Bwrsariaeth 16-19 tud.12 sydd ar gael yn Evaluation of the 16-19 Bursary Fund - GOV.UK (www.gov.uk)
[102] Cronfa bwrsariaeth 16 to 19: gwerthusiad proses blwyddyn 3 tud. 14-15 ar gael yn Evaluation of the 16 to 19 Bursary Fund - GOV.UK (www.gov.uk )

- y defnyddir y Gronfa Bwrsariaeth i gefnogi dysgwyr o aelwydydd incwm isel. Ar hyn o bryd, y trothwyon cymhwystra yw £26,000 y flwyddyn o incwm cartref mewn un coleg AB, a £20,817 a £23,077 (yn unol â throthwyon LCA) mewn coleg arall. Dywedodd un SAB ei fod yn codi'r trothwy i £28,000 ar gyfer y flwyddyn academaidd 2024/25 tra bod yr ail yn bwriadu cynyddu'r trothwy i £25,000 i adlewyrchu costau byw uwch. Mae adborth gan yr Adran Addysg yn awgrymu bod y rhan fwyaf, os nad pob un, o'r Canolfannau Dysgu wedi cynyddu'r trothwyon yn ddiweddar neu'n bwriadu gwneud hynny
- gall dysgwyr sy'n hanu o Gymru gael mynediad i'r Gronfa Bwrsariaeth (yn ogystal â'r LCA), ac nid yw colegau AB yn gwahaniaethu rhwng dysgwyr sy'n hanu o Loegr a Chymru wrth ddyfarnu cymorth. Oherwydd y gwahanol drothwyon incwm aelwydydd mewn un lleoliad, efallai y bydd dysgwyr sy'n hanu o Gymru yn gallu cael mynediad i'r Gronfa Bwrsariaeth ond ni fyddant yn gymwys i gael yr LCA
- hyrwyddir y Gronfa Bwrsariaeth gan golegau AB drwy eu gwefannau, mewn diwrnodau neu nosweithiau agored, drwy bosteri o amgylch y campws a thrwy ohebiaeth gyda darpar ddysgwyr a dysgwyr presennol. Nid yw'n ymddangos ei fod yn effeithio rhyw lawer ar benderfyniad dysgwyr i gofrestru mewn addysg bellach, ond fe'i hystyrir yn hollbwysig i helpu dysgwyr i barhau â'u haddysg
- mae'r galw am y Gronfa Bwrsariaeth wedi cynyddu dros amser, gyda nifer y dysgwyr sy'n ymgeisio mewn un coleg AB wedi cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Roedd y ddwy Ganolfan Ddysgu a gymerodd ran yn yr ymchwil hwn yn cydnabod y byddai eu bwriad i gynyddu'r trothwyon y flwyddyn nesaf yn rhoi mwy o bwysau ar y Gronfa
- gweinyddir y gronfa mewn ffordd debyg i'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn yng Nghymru yn yr ystyr bod y gronfa'n cael ei defnyddio i dalu rhai o gostau'r dysgwr sy'n gysylltiedig ag addysg ôl-16, yn hytrach

na gwneud taliadau uniongyrchol i ddysgwyr. Rhaid i ddysgwyr wneud cais yn flynyddol am y Gronfa Bwrsariaeth ac mae'n ofynnol iddynt ddarparu tystiolaeth o incwm yr aelwyd er mwyn dangos eu bod yn gymwys. Gall colegau AB fabwysiadu rhywfaint o hyblygrwydd i gefnogi dysgwyr anghymwys a allai fel arall gael trafferthion ariannol e.e. os yw person ifanc wedi gorfod gadael cartref. Dywedodd un coleg AB ei fod wedi cefnogi tua 10 o ddysgwyr o gartrefi ag incwm o hyd at £28,000 yn ystod y flwyddyn academaidd hon (h.y. y tu hwnt i'w trothwy) oherwydd amgylchiadau personol megis 'cael pedwar o blant yn y tŷ … rhieni anabl … pa mor bell [mae'r dysgwr] yn gorfod teithio' a phe na bai wedi gwneud hynny 'heb y cymorth hwnnw ni fyddent yn dod i'r coleg ... a byddem yn colli'r cyllid myfyrwyr pe na baent yn dod'

- mae colegau AB yn cefnogi dysgwyr a'u teuluoedd gyda'r broses ymgeisio, os oes angen, ac mae hyn yn aml yn cynnwys darparu cymorth sy'n ymwneud â TG e.e. lanlwytho tystiolaeth i'r porth ymgeisio
- defnyddir y rhan fwyaf o'r Gronfa Bwrsariaeth i dalu costau teithio dysgwyr (amcangyfrifir ei fod yn cyfrif am hanner gwariant y Gronfa yn ôl yr Adran Addysg) er ei bod hefyd ar gael i dalu costau prydau yn y coleg, llyfrau ac offer ar gyfer cyrsiau a theithiau sy'n gysylltiedig â chyrsiau. Dywedodd un coleg sydd wedi'i leoli ger y ffin ei fod yn defnyddio'r Gronfa Bwrsariaeth i swmp-brynu tocynnau bws, ar gyfradd ostyngol gyda Trafnidiaeth Cymru ar gyfer dysgwyr sy'n hanu o Gymru, ac mae dysgwyr sy'n byw ar aelwydydd ag incwm o lai na £26,000 yn cael tocyn bws am ddim. Disgrifiodd y coleg arall sefyllfa debyg, lle mae'n ofynnol ar hyn o bryd i'r rhai sy'n derbyn cyllid o'r Gronfa Bwrsariaeth gyfrannu £150 tuag at gost tocyn teithio (a drefnir ac y telir amdano gan y coleg i'r awdurdod lleol ac a fyddai fel arall yn costio £960 y flwyddyn). Fodd bynnag, mae'r coleg yn bwriadu dileu'r cyfraniad y gofynnir amdano gan ddysgwyr y flwyddyn nesaf yn bennaf oherwydd 'nid yw rhai rhieni'n gallu fforddio talu hynny' (cynrychiolydd staff Canolfan Ddysgu ar y

Ffin) ond hefyd oherwydd y costau gweinyddol yr eir iddynt am swm cymharol fach o gyllid

- mae'r ddwy Ganolfan Ddysgu yn defnyddio'r Gronfa Bwrsariaeth i ychwanegu at y cyllid a gânt ar gyfer Prydau Ysgol Am Ddim (£2.53 fesul dysgwr y dydd[103]). Mewn un lleoliad adroddwyd bod dysgwyr cymwys yn cael lwfans dyddiol o £3.60 ar gyfer fwyd, ac yn y ddau leoliad ychwanegir y lwfans at gardiau adnabod myfyrwyr yn ddyddiol i'w defnyddio yn ffreutur y coleg. Dywedodd un o'r myfyrwyr a gyfwelwyd sy'n derbyn cyllid o'r Gronfa Bwrsariaeth fod bwyd y coleg yn ddrud, ac na fyddent yn gallu bwyta yno fel arall
- mae llyfrau cwrs, deunyddiau a theithiau yn cyfrif am gyfran lawer llai o wariant y Gronfa Bwrsariaeth yn y Canolfannau Dysgu a gyfwelwyd.

11.9 O ganlyniad i allu manteisio ar elfen 'yn ôl disgresiwn' y Gronfa Fwrsariaeth, mae dysgwyr sy'n hanu o Gymru o gartrefi incwm isel yn cael mwy o gymorth ariannol na'u cymheiriaid sy'n hanu o Loegr, ac mae eu sefyllfa'n cymharu'n ffafriol â phrofiad dysgwyr sy'n hanu o Gymru ac sy'n astudio mewn Colegau AB yng Nghymru, o ystyried argaeledd y Gronfa Ariannol Wrth Gefn mewn colegau AB yng Nghymru. Y prif wahaniaeth yw bod trothwyon incwm aelwydydd a bennir ar gyfer y Gronfa Bwrsariaeth yn tueddu i fod yn uwch na'r hyn a fabwysiadwyd ar gyfer y Gronfa Ariannol Wrth Gefn yng Nghymru. Gallai hyn olygu bod Canolfannau Dysgu yn Lloegr yn opsiwn mwy deniadol yn ariannol i rai dysgwyr sy'n hanu o Gymru os nad ydynt yn gallu cael mynediad at gludiant am ddim i'r coleg neu'r ysgol yng Nghymru a/neu os nad ydynt yn gymwys ar gyfer y Gronfa Ariannol Wrth Gefn.

[103] Ers y flwyddyn academaidd 2014/15, mae'r Asiantaeth Ariannu Addysg a Sgiliau wedi cyflwyno Prydau Ysgol am Ddim i ddysgwyr dan anfantais sy'n dilyn cyrsiau addysg bellach mewn sefydliadau a ariennir gan AB. Mae sefydliadau'n cael £2.53 fesul dysgwr ar gyfer y flwyddyn academaidd 2023/24 a gallant ddefnyddio cyllid o'r Gronfa Bwrsariaeth i wneud un dyraniad i ddysgwyr sy'n gymwys ar gyfer y ddau. Gweler Free meals in further education funded institutions guide: 2023 to 2024 academic year - GOV.UK (www.gov.uk)

11.10 Awgrymodd un cynrychiolydd staff Canolfan Ddysgu yn Lloegr fod yr LCA:

> 'yn rhoi mantais iddyn nhw [dysgwyr sy'n hanu o Gymru] ... mae ganddyn nhw fwy i'w wario yn y coleg ac i wneud mwy o weithgareddau hamdden' (Cynrychiolydd staff, wedi'i leoli mewn coleg AB yn Lloegr).

11.11 Awgrymodd cynrychiolydd arall o'r Ganolfan Ddysgu fod gwarged yn eu Cronfa Bwrsariaeth yn ddiweddar, yn bennaf oherwydd yr arbedion a wnaed dros gyfnod y pandemig pan na ddefnyddiwyd y gronfa i gyfrannu at gostau teithio dysgwyr, a oedd yn golygu eu bod wedi bod yn fwy hael nag y byddent fel arall o ran cefnogi myfyrwyr sy’n hanu o Gymru sy’n derbyn yr LCA dros y blynyddoedd diwethaf. Efallai na fydd hyn yn parhau yn y dyfodol o dan amodau gweithredu arferol, mewn ymgais i 'fod yn deg i'n holl fyfyrwyr.'

11.12 Y prif wahaniaeth rhwng y Gronfa Bwrsariaeth a’r LCA a amlygwyd gan gynrychiolwyr y Canolfannau Dysgu, yw y gellir defnyddio’r LCA i leddfu’r pwysau ar incwm aelwydydd gan ei fod yn ffynhonnell incwm i’r dysgwr ei defnyddio i dalu am gostau byw. Awgrymodd y ddau gynrychiolydd fod mwy o gyfle i gamddefnyddio'r LCA gan nad oes unrhyw gyfyngiadau ar sut y gall dysgwyr ei wario, o’i gymharu â’r Gronfa Bwrsariaeth sy’n cael ei dyrannu ar gyfer costau penodol sy'n codi o ymgymryd ag addysg bellach.

**Yr LCA yn yr Alban a Gogledd Iwerddon**

11.13 Mae dysgwyr yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn parhau i allu cael mynediad at yr LCA, sydd wedi aros yr un fath ar £30 yr wythnos yn y ddwy wlad. Fel sy'n wir yng Nghymru, mae ar gael i ddysgwyr 16 i 19 oed ac yn cael ei dalu bob pythefnos, mewn ôl-daliadau. Mae Tabl 11.1 yn crynhoi meini prawf a threfniadau gweinyddu’r gronfa yn y ddwy wlad, o gymharu â Chymru, ac mae’n werth nodi bod trothwyon incwm aelwydydd yr Alban yn uwch a bod y rhai yng Ngogledd Iwerddon yn is na Chymru. Ni chanfu'r gwaith maes pam y gosodwyd y trothwyon incwm aelwydydd ar y lefelau hyn yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac nid oedd y cyfranwyr yn ymwybodol o’r rhesymeg dros eu mabwysiadu.

**Tabl 11.1: Yr LCA yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru**

| | Yr Alban | Gogledd Iwerddon | Cymru |
|---|---|---|---|
| Trothwy incwm aelwydydd | Hyd at £24,421 a dim plant dibynnol eraill<br>Hyd at £26,884 a mwy nag un plentyn dibynnol[104] | Hyd at £20,500 heb unrhyw blant dibynnol eraill<br>Hyd at £22,500 gyda mwy nag un plentyn dibynnol | Hyd at £20,817 heb unrhyw blant dibynnol eraill<br>Hyd at £23,077 gyda mwy nag un plentyn dibynnol |
| Gwerth y dyfarniad | £30 yr wythnos | £30 yr wythnos, yn ogystal â thri thaliad bonws yn gysylltiedig â pherfformiad | £40 yr wythnos |
| Trefniadau gweinyddol | Awdurdodau lleol (ar gyfer ysgolion) a cholegau | SLC, gyda phrosesau tebyg i'r rhai a fabwysiadwyd yng Nghymru | SLC, gyda phrosesau tebyg i'r rhai yng Ngogledd Iwerddon |
| Amodau | Presenoldeb a chytuno ar Gynllun Dysgu | Presenoldeb a chytuno ar Gynllun Dysgu | Presenoldeb a chytuno ar Gynllun Dysgu |

*Yr LCA yn yr Alban*

11.14 Yn 2020/21, derbyniodd 25,030 o bobl ifanc daliadau LCA yn yr Alban[105]. Yn debyg i Gymru, gwelwyd gostyngiad graddol yn nifer y rhai sy'n derbyn LCA dros amser. O blith y rhai sy'n derbyn yr LCA, roedd 72 y cant yn ddisgyblion ysgol, 24 y cant yn fyfyrwyr coleg ac roedd y 4 y cant arall yn bobl ifanc ar gytundebau gweithgaredd. Amcangyfrifwyd bod tua 15.2 y cant o holl bobl ifanc yr Alban rhwng 16 a 18 oed yn cael LCA yn 2020/21. Mae'r gyfran wedi bod yn gostwng rhy fymryn ers 2016/17 pan oedd tua 18.7 y cant o'r boblogaeth 16 i 18 oed yn cael y lwfans. Gan ddefnyddio'r data a nodir yn Nhabl 4.2 yr adroddiad hwn, mae canran y dysgwyr sy'n cael LCA yng Nghymru fel cyfran o'r holl fyfyrwyr 16 i 18 oed wedi bod yn llawer uwch dros yr un cyfnod, er enghraifft 31 y cant yn 2020/21.

11.15 Roedd cyfran ychydig yn uwch o'r holl dderbynyddion LCA yn fenywod (52 y cant) tra bod 48 y cant yn ddynion yn 2020/21.

11.16 Bu gostyngiad nodedig yn y derbynyddion 18 oed a hŷn yn y coleg yn y blynyddoedd diwethaf, o bron i 1,970 yn 2016/17 i 265 yn 2020/21, wrth i

[104] Codwyd y trothwyon incwm hyn ddiwethaf ym mis Ionawr 2016.
[105] Education Maintenance Allowances: 2020-21 - gov.scot (www.gov.scot)

golegau newid o ddarparu taliadau LCA i fwrsariaethau ar gyfer myfyrwyr coleg 18 oed cymwys.

11.17 Yn ystod 2020/21, roedd 38 y cant o dderbynyddion LCA yn yr Alban yn dod o'r 20 y cant o ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf[106]. Dros amser, mae cyfran y derbynyddion LCA sy'n dod o'r ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf wedi cynyddu. Mae'r gyfran fel arfer wedi bod yn uwch ar gyfer myfyrwyr coleg (42 y cant yn 2020/21) nag ar gyfer myfyrwyr ysgol (37 y cant) ac mae hyn i'w briodoli'n rhannol i'r gyfran uwch o fyfyrwyr yng ngholegau'r Alban sy'n dod o ardaloedd o amddifadedd.

11.18 Roedd cyfanswm y gwariant ar LCA yn 2020/21 yn £22.1 miliwn[107]. O'r swm hwnnw, gwariwyd £16.8 miliwn ar dderbynyddion ysgol (76 y cant o gyfanswm y taliadau), £4.6 miliwn ar daliadau coleg (21 y cant) a £0.6 miliwn ar gytundebau gweithgaredd (3 y cant). Y taliad cyfartalog fesul derbynnydd LCA oedd £882 yn 2020/21. Cafodd derbynyddion LCA mewn ysgolion £933 ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn academaidd, derbyniodd myfyrwyr coleg £763 a chafodd derbynyddion cytundebau gweithgaredd £667. Mae'r gwahaniaeth yng ngwerthoedd y taliadau i'w priodoli'n bennaf i nifer yr wythnosau y mae pob math o dderbynnydd yn gymwys i gael y budd-dal ar eu cyfer dros y flwyddyn.

11.19 O ran y trefniadau gweinyddol, awdurdodau lleol sy'n gweinyddu'r LCA ac yn gwneud taliadau ar gyfer derbynyddion sydd yn yr ysgol a'r rhai â chytundebau gweithgaredd. Ar gyfer dysgwyr mewn colegau, mae Cyngor Cyllido'r Alban yn cyhoeddi canllawiau ar ran Llywodraeth yr Alban i golegau, sydd wedyn yn gweinyddu'r cynllun ar gyfer derbynyddion mewn colegau.

11.20 Disgwylir i dderbynyddion LCA lofnodi Cytundeb Dysgu LCA, sy'n nodi'r disgwyliadau o ran presenoldeb a gwaith cwrs. Rhaid iddo gael ei lofnodi

106 Gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog yr Alban.

107 Dyma'r swm a wariwyd ar daliadau LCA yn unig ac nid yw'n cynnwys costau eraill megis costau gweinyddol.

gan y dysgwr, gan riant neu oedolyn cyfrifol[108] a chan yr ysgol neu'r coleg y maent yn astudio ynddi/ynddo.

11.21 Mae adborth a gasglwyd yn ystod y cyfweliad gyda chynrychiolwyr Llywodraeth yr Alban yn awgrymu:

- bod manteision ac anfanteision i roi'r cyfrifoldeb o weinyddu'r LCA i awdurdodau lleol a cholegau (yn hytrach na'r SLC). Y brif fantais yw ei fod yn cael ei weinyddu gan leoliadau sydd â chyswllt uniongyrchol â dysgwyr a'r brif anfantais yw nad yw dysgwyr yn cael profiad o ddelio â'r SLC cyn gwneud cais am gyllid myfyrwyr Addysg Uwch (AU).
- mae'r ffocws ar bresenoldeb fel maen prawf yn gweithio'n dda a rhoddir mwy o hyblygrwydd i dderbynyddion LCA sy'n agored i niwed sy'n cael anhawster bodloni'r gofynion presenoldeb
- gellid hyrwyddo'r LCA yn well drwy'r cyfryngau cymdeithasol gan fod y cynllun wedi dibynnu ar ddulliau marchnata traddodiadol megis pamffledi hyd yma.

*Yr LCA yng Ngogledd Iwerddon*

11.22 Cyflwynwyd yr LCA am y tro cyntaf yng Ngogledd Iwerddon yn 2004 ac yn debyg i Gymru ar y pryd, roedd yn cynnwys tair lefel o lwfans (£30, £20, a £10, yn dibynnu ar lefelau incwm aelwyd y teulu) a thri thaliad bonws (a dalwyd ym mis Ionawr a Mehefin, a phan oedd dysgwyr yn dychwelyd ym mis Medi). Yn dilyn adolygiad o'r LCA yn 2011[109] ac ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod 2012, gwnaed nifer o newidiadau i'r cynllun o'r flwyddyn academaidd 2013/14 ymlaen i gefnogi'r rhai mwyaf anghenus.

11.23 Bu rhywfaint o drafodaeth ar y pryd ynghylch a ddylai'r LCA fod yn gyson â'r trothwyon incwm aelwydydd a ddefnyddir ar gyfer Prydau Ysgol am

[108] Nid oes angen llofnod rhiant os ydynt yn astudio'n llawn amser yn y coleg, wedi gwahanu oddi wrth eu teulu ac wedi cael eu hasesu'n annibynnol at ddibenion budd-daliadau neu os oes ganddynt anghenion cymorth ychwanegol sy'n golygu bod hynny'n anymarferol.

[109] Nid yw'r adolygiad, a gynhaliwyd gan PWC, wedi'i gyhoeddi ond gellir gweld trafodaeth a gynhaliwyd ym Mhwyllgor Cyflogaeth a Dysgu Cynulliad Gogledd Iwerddon yma: Review of Education Maintenance Allowance: Departmental Briefing (niassembly.gov.uk)Canfu'r adolygiad fod dwy ran o dair o dderbynyddion yr LCA wedi bwriadu parhau â'u haddysg beth bynnag a chasglwyd tystiolaeth bod myfyrwyr yn defnyddio'r LCA i gynilo arian.

Ddim, ond y farn oedd bod y trothwy incwm aelwydydd ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim yn rhy isel. Bu peth trafodaeth hefyd am gael gwared ar yr elfen bonws, ond roedd y dystiolaeth yn awgrymu bod hyn yn cael effaith gadarnhaol, ac felly penderfynwyd cadw'r elfen bonws.

11.24 Dywedodd swyddogion Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a gyfrannodd at yr adolygiad hwn fod adolygiad mewnol o'r LCA ar y gweill yn ogystal ag adolygiad mewnol ehangach o gymorth ariannol i fyfyrwyr AB. Gallai hyn arwain at ddull mwy strategol o ymdrin â chymorth i fyfyrwyr AB yn y dyfodol gan fod y ddau adolygiad yn cynnig y cyfle i ymchwilio i opsiynau megis cyfuno cynlluniau presennol, cyflwyno cynlluniau newydd yn ogystal â'r opsiwn o deilwra cynlluniau ar gyfer lleoliadau AB ac ysgolion. Adeg y gwaith maes ar gyfer yr adolygiad hwn, nid oedd yn hysbys os a phryd y byddai'r adolygiadau hyn yn cael eu cyhoeddi o ystyried nad oedd Cynulliad Gogledd Iwerddon yn cwrdd.

11.25 Mae rhai o'r prif wahaniaethau rhwng yr LCA yng Nghymru a Gogledd Iwerddon yn cynnwys:

- mae Canolfannau Dysgu Gogledd Iwerddon yn derbyn taliad gweinyddol o £25 fesul derbynnydd
- ni chyhoeddir unrhyw ddata am y nifer sy'n manteisio ar yr LCA na phroffil y rhai sy'n ei dderbyn yng Ngogledd Iwerddon
- mae tua dwy ran o dair o'r rhai sy'n cael LCA yng Ngogledd Iwerddon wedi'u lleoli mewn ysgolion, tra bod traean mewn colegau AB
- cynhelir arolygiadau rheolaidd o Ganolfannau Dysgu i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chanllawiau'r LCA.

**Y cymorth ariannol ehangach sydd ar gael yn yr Alban**

11.26 Roedd cyfranwyr o Lywodraeth yr Alban yn ymwybodol bod y sefyllfa o ran y cymorth i fyfyrwyr AB yn yr Alban yn 'gymhleth' ac roedd awydd i'w symleiddio. Roedd awydd hefyd i sicrhau gwell cyfatebiaeth rhwng y cymorth ariannol ar gyfer AB ac AU. Codwyd cwestiynau ynghylch a yw'r

LCA yn cyd-fynd â’r ddarpariaeth gyllido arall sydd ar gael, a oedd yn cynnwys y canlynol, y mae llawer ohonynt hefyd ar gael i fyfyrwyr AU[110]:

- y Fwrsariaeth AB i ddysgwyr 18 oed a throsodd i helpu gyda chostau byw, astudio, a threuliau teithio (gall colegau benderfynu a yw pobl ifanc 18 oed yn gwneud cais am yr LCA neu’r Fwrsariaeth AB). Gall dysgwyr gael mynediad at bedwar math o lwfans drwy'r Fwrsariaeth:
    - lwfans cynhaliaeth: gall dysgwyr sy'n byw gyda'u rhieni gael hyd at £99.35 yr wythnos os ydynt rhwng 18-24 oed a hyd at £125.55 yr wythnos os ydynt dros 25 oed neu'n hunangynhaliol. Mae dysgwyr sy'n byw oddi cartref yn cael hyd at £49.91 ar ben eu LCA os ydynt o dan 18 oed, a hyd at £125.55 yr wythnos os ydynt rhwng 18-24 ac yn cael eu cefnogi gan rieni neu'n ddysgwr hunangynhaliol. Mae dysgwyr yn cael llai o gyllid os yw incwm blynyddol eu haelwyd yn uwch na throthwyon penodol, ac yn achos y rhai dan 18 oed byddent yn cael llai o gyllid pe bai trothwy incwm eu haelwyd dros £20,351
    - treuliau astudio: megis ar gyfer dillad a deunyddiau astudio
    - costau teithio: a bennir gan amgylchiadau ac angen
    - lwfans llety: sy’n talu cost y rhent ac y gall dysgwyr o dan 18 oed gael mynediad at hwn yn ogystal â’r LCA
- Cronfa Gofal Plant Ddewisol ar gyfer y rhai sydd ag o leiaf un plentyn dibynnol
- Lwfans cynhaliaeth nad yw'n seiliedig ar brawf modd i'r rhai â phrofiad o fod mewn gofal[111]. Bwrsariaeth o £225 yr wythnos yw hwn i ddysgwyr 16 oed a hŷn. Nid oes terfyn oedran uchaf

110 Funding your college education - Student Information Scotland
111 Financial support for care-experienced students (studentinformation.gov.scot)

- Cronfa yn ôl Disgresiwn[112], a weinyddir gan golegau AB ac y cyfeirir ati fel Cronfa Caledi neu Gronfa Frys, i helpu gyda chostau byw, costau llety, costau gofal plant, a newidiadau mewn amgylchiadau teuluol a allai effeithio ar ddysgwyr yn ariannol
- cymorth ariannol i ddysgwyr sydd wedi gwahanu oddi wrth eu teuluoedd[113] sydd dan 25 oed nad ydynt bellach mewn cysylltiad â'u rhieni neu warcheidwaid
- Lwfans Dibynnydd sy'n darparu hyd at £67.55 yr wythnos i'r rhai sydd â chyfrifoldeb ariannol a chyfreithiol am bartner, gŵr neu wraig[114]
- Prydau Ysgol Am Ddim, sydd ar gael i ddysgwyr cymwys mewn ysgolion
- Grant dillad ysgol, sef grant blynyddol o £150 fesul plentyn o oedran ysgol uwchradd ar hyn o bryd[115].

**Y cymorth ariannol ehangach sydd ar gael yng Ngogledd Iwerddon**

11.27 O ran y cymorth ariannol ar gyfer dysgwyr 16 i 19 oed yng Ngogledd Iwerddon, gall dysgwyr gael hyd at £3,500 o gymorth mewn unrhyw flwyddyn academaidd. Gellir cael gafael ar hyn drwy ddwy o'r ffynonellau canlynol:

- yr LCA
- grantiau AB sy'n seiliedig ar brawf modd ar gyfer dysgwyr 19 oed a throsodd (neu os ydynt o dan 19 oed, rhaid dangos eu bod yn byw oddi cartref). Gall dysgwyr ond gwneud cais am yr LCA neu'r grant AB, nid y ddau
- y Grant Caledi, sef grant sy'n seiliedig ar brawf modd, a weinyddir gan golegau, a'i fwriad yw darparu cymorth ar gyfer costau teithio, llyfrau a deunyddiau cwrs, costau byw a bwyd. Dim ond cais am

112 Extra financial support for students (discretionary funding) (studentinformation.gov.scot)
113 Financial Support for Estranged Students - Scotland (studentinformation.gov.scot)
114 Students Caring for an Adult - Dependants Allowance (studentinformation.gov.scot)
115 Help with school clothing costs - mygov.scot

gymorth gyda chostau teithio y gall y rhai sy'n derbyn yr LCA ei wneud i'r gronfa Grant Caledi.

11.28 Yn ogystal â hynny, mae amrywiaeth o becynnau cymorth ariannol eraill ar gael ledled Gogledd Iwerddon, gan gynnwys:

- y cynllun gofal plant Care to Learn[116] sy'n cefnogi rhieni ifanc gyda chostau gofal plant
- Prydau Ysgol Am Ddim[117], sy'n ddarpariaeth sy'n seiliedig ar brawf modd ar gyfer pobl ifanc o dan 18 oed mewn ysgolion a cholegau, a weinyddir gan awdurdodau lleol
- cynllun cludiant o'r cartref i'r coleg (Home to College Transport)[118], a weinyddir gan awdurdodau lleol ar gyfer myfyrwyr ysgol a choleg ac sy'n darparu tocyn bws neu dacsi, yn dibynnu ar ofynion y myfyrwyr
- Lwfans Dillad[119], sy'n cynnwys grant gwisg ysgol o £67.20 sydd ar gael i ddysgwyr ysgol 15 oed a hŷn a chyfraniad o £26.40 i ddysgwyr yn yr ysgol a'r coleg[120] tuag at gost cit addysg gorfforol
- Cronfa Cymorth Ychwanegol[121] – cyllid sydd ar gael yn uniongyrchol i'r coleg i wneud addasiadau priodol i seilwaith er mwyn darparu ar gyfer amhariadau ac anableddau myfyrwyr
- Cynhyrchion mislif am ddim a ddarperir mewn ysgolion a cholegau[122].

[116] Care to Learn scheme | nidirect
[117] Free School Meals / Uniform Grants | Education Authority Northern Ireland (eani.org.uk)
[118] Home to School Transport | Education Authority Northern Ireland (eani.org.uk)
[119] School uniform and uniform grants | nidirect
[120] Os yw eu cwrs yn cynnwys addysg gorfforol.
[121] Extra financial help for students | nidirect
[122] Deddf Cynhyrchion Mislif (Darpariaeth Am Ddim) (Gogledd Iwerddon) 2022 (legislation.gov.uk) (Saesneg yn unig)

## 12. Y dyfodol

12.1 Mae'r bennod hon yn crynhoi'r negeseuon allweddol a gyfleuwyd yn ystod y gwaith maes am ddyfodol y cynllun Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA). Mae nifer o faterion ymwneud a dyluniad a gweithrediad y cynllun eisoes wedi'u trafod yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt yn cael eu hailadrodd yma. Nod y bennod hon yw ymdrin yn benodol â dau o gwestiynau ymchwil yr adolygiad: ai'r model LCA yw'r model mwyaf effeithiol ac effeithlon i gefnogi dysgwyr ynteu a ddylid ystyried modelau amgen; a sut y dylid parhau i adolygu meini prawf a gwerth y cymorth yn y dyfodol.

**Effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yr LCA o gymharu â modelau amgen eraill**

12.2 Roedd awydd cryf i weld yr LCA yn parhau ac i Lywodraeth Cymru barhau i roi cymorth ariannol uniongyrchol i ddysgwyr ôl-16 yn y dyfodol:

> 'Mae'r LCA yn rhoi sefydlogrwydd ariannol iddynt, llai i boeni amdano a sgiliau rheoli arian, annibyniaeth ac ymreolaeth a chredaf y dylai barhau.' (Cynrychiolydd staff AB)

12.3 Roedd cynrychiolwyr staff ysgol, yn arbennig, yn ffafrio dyfarnu'r cyllid yn uniongyrchol i ddysgwyr, yn hytrach na dyfarnu'r cyllid i ysgolion. Rhoddwyd dau reswm am hyn: roedd perygl y gallai cyllid o'r fath gael ei lyncu gan gyllidebau ansefydlog ysgolion ac roedd staff yn pryderu y gallent gael eu cyfyngu rhag gwario'r gronfa yn y ffordd sy'n diwallu anghenion dysgwyr yn y ffordd orau.

12.4 Mewn byd delfrydol, roedd awydd i gefnogi pob person ifanc 16 i 18 oed mewn addysg ôl-16 ond yn realistig derbyniwyd na fyddai hyn yn bosibl o fewn yr hinsawdd ariannol bresennol. Yn hytrach, roedd awydd cryf i weld y gronfa'n ehangu ac yn cael ei thargedu at garfan ehangach o ddysgwyr sy'n dod o aelwydydd â throthwy incwm ychydig yn uwch na'r hyn sydd ar waith ar hyn o bryd.

12.5 Er y cydnabuwyd bod yr LCA yn helpu i wella presenoldeb dysgwyr, bu cryn fyfyrio ar ei briodoldeb fel maen prawf parhaus ar gyfer derbyn y lwfans. Mynegodd staff Canolfannau Dysgu, rhanddeiliaid, a derbynyddion

LCA bryderon am y straen a’r pryder a brofir gan ddysgwyr pan oeddent yn absennol o’u gwersi oherwydd salwch. Credwyd bod y pryderon hyn wedi cynyddu yn sgil y cynnydd mewn costau byw, a dibyniaeth gynyddol dysgwyr ar yr LCA i'w cefnogi gyda chostau byw beunyddiol fel costau bwyd a theithio. Roedd awydd ymhlith rhai o staff y Canolfannau Dysgu a sawl rhanddeiliad i newid y meini prawf talu sy'n gysylltiedig â'r LCA i asesiad mwy goddrychol ar ran y Canolfannau Dysgu bod derbynnydd LCA yn gwneud cynnydd da gyda'i astudiaethau ac yn bodloni gofynion y cwrs, megis cwrdd â therfynau amser.

12.6 Mae’r pwyntiau allweddol a godwyd mewn perthynas â dyluniad y cynllun yn cael eu hailadrodd yma ac awgrymodd y cyfranwyr y dylai Llywodraeth Cymru fyfyrio arnynt ar gyfer y dyfodol:

- mae'r lwfans ar gael i ddysgwyr mewn amgylchedd anghyfartal iawn ac o'r herwydd mae'r LCA yn cael ei ddefnyddio gan ddysgwyr i lenwi bylchau yn y ddarpariaeth cymorth ôl-16 prif ffrwd, yn enwedig ar gyfer cludiant i leoliadau addysg a chymorth gyda chostau bwyd tra byddant mewn colegau AB. Roedd staff y Canolfannau Dysgu yn awyddus iawn i weld man cychwyn tecach i ddysgwyr yn cael ei rhoi ar waith
- mae'r LCA a'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn, i raddau helaeth, yn cefnogi yr un garfan o ddysgwyr mewn colegau AB, ac roedd y rhai a gyfrannodd at yr adolygiad yn credu bod dysgwyr o aelwydydd ag incwm isel iawn yn 'cael popeth' ond nad yw'r rhai y mae incwm eu haelwydydd ychydig dros y trothwy yn cael unrhyw gymorth
- roedd awydd i weld dull ychydig yn fwy haenog o gefnogi dysgwyr yn y dyfodol, a fyddai’n debycach i sut y mae myfyrwyr AU (Addysg Uwch) yn cael eu cefnogi gyda’u costau cynhaliaeth, a fyddai’n ystyried incwm yr aelwyd, nifer y dibynyddion ac amgylchiadau personol eraill megis pellter neu gost teithio i'r lleoliad addysgol, a'r costau sy'n gysylltiedig ag astudio cyrsiau penodol.

12.7 Mae pwynt arall, nad yw wedi’i drafod yn unman arall yn yr adroddiad hwn, a godwyd yn bennaf gan ymatebwyr i’r arolwg mewn ymateb i gwestiwn

penagored a ofynnodd beth, os o gwbl, yr hoffent ei weld yn cael ei newid am yr LCA, yn ymwneud â darparu cymorth ariannol yn ystod gwyliau'r ysgol a'r coleg. Awgrymodd sawl ymatebydd i’r arolwg (53 o ymatebwyr, neu ddau y cant o’r holl ymatebwyr i’r arolwg) y byddent yn elwa o gael cyllid LCA yn ystod gwyliau hanner tymor, gwyliau'r Nadolig a gwyliau’r Pasg gan eu bod yn ei chael hi'n arbennig o anodd yn ystod y cyfnodau hyn i gael dau ben llinyn ynghyd. Mae’r dyfyniadau a ganlyn yn dangos hyn, ac yn awgrymu bod yr LCA yn chwarae rhan bwysig o ran llenwi bylchau mewn incwm aelwydydd yn fwy cyffredinol:

> 'y drefn gyda gwyliau ysgol. Pan fydd hanner tymor neu rywbeth, mae bob amser yn amharu ar yr LCA a dydw i ddim yn ei gael am fis'
>
> 'dylen nhw gynnwys hanner tymor oherwydd mae £40 yn anodd am ddim ond pythefnos'
>
> 'gellid talu canran o'r LCA yn ystod y gwyliau'
>
> 'yn yr haf pan mae'r gwyliau'n hirach mae'n anodd i mi gan fod gen i ddau riant anabl ac rwy'n dibynnu ar yr LCA'
>
> 'Rwy'n meddwl y dylem dderbyn LCA yn ystod gwyliau'r coleg ond ar gyfradd is, er mwyn i ni allu parhau i brynu offer neu ddillad y gallai fod eu hangen arnom ar gyfer y tymor newydd neu dim ond i dalu costau bwyd na all ein teuluoedd eu talu.' (Pob un gan ymatebwyr i’r arolwg)

**Sut y dylid parhau i adolygu meini prawf a gwerth y cymorth yn y dyfodol**

12.8 Roedd awydd ymhlith staff Canolfannau Dysgu a rhanddeiliaid i weld Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i adolygu meini prawf y cynllun a gwerth y cymorth yn rheolaidd yn y dyfodol, yn hytrach nag ymateb mewn ffordd fwy ad-hoc i amgylchiadau allanol megis y cynnydd mewn costau byw. Yn yr ystyr hwn, roedd galw am roi'r un lefel o flaenoriaeth i'r maes polisi hwn ag a wneir i gymorth cyllid myfyrwyr AU sydd â phroses adolygu tymor hwy.

12.9 Awgrymodd y cyfranwyr y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i sicrhau gwell cyfatebiaeth rhwng meini prawf yr LCA a throthwyon yr isafswm cyflog cenedlaethol, y cyflog byw neu'r cyflog byw gwirioneddol.

Awgrymwyd hefyd y dylid sicrhau gwell cyfatebiaeth rhwng gwerth y dyfarniad a'r cynnydd mewn chwyddiant.

12.10 Yn olaf, ategodd staff Canolfannau Dysgu a rhanddeiliaid bwysigrwydd casglu barn dysgwyr a myfyrio ar hynny fel rhan o adolygiadau parhaus o’r LCA. Awgrymwyd y gellid ymgorffori cwestiynau safonedig mewn Arolygon Dysgwyr blynyddol a weinyddir gan Ganolfannau Dysgu, neu mewn arolwg penodol gan Lywodraeth Cymru (e.e. arolwg sy’n cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd i ymchwilio i brofiadau dysgwyr mewn addysg ôl-16 yn holi ynghylch a wnaeth dysgwyr gais am yr LCA) neu ofyn i'r SLC gasglu adborth gan ymgeiswyr am eu profiad o'r gronfa.

# 13. Casgliadau ac argymhellion

13.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu ein casgliadau a'n hargymhellion. Mae ein casgliadau wedi'u strwythuro i fynd i'r afael â chwe amcan penodol y fanyleb ymchwil.

**Pa effaith y mae'r LCA yn ei chael ar benderfyniadau dysgwyr i ymgymryd ag astudiaethau pellach?**

13.2 Nid yw'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) yn cael llawer o effaith ar benderfyniadau dysgwyr i ymgymryd ag astudiaethau pellach, gan y byddai'r rhan fwyaf o ddysgwyr wedi parhau â'u haddysg beth bynnag a'u bod yn gwneud eu penderfyniad cyn clywed am y lwfans sydd ar gael iddynt. Mae unigolion yn dewis parhau â'u haddysg am resymau cadarnhaol gan eu bod yn rhoi gwerth ar eu haddysg ac mae ganddynt uchelgeisiau gyrfa a/neu uchelgeisiau ar gyfer addysg uwch yn y dyfodol. Yn seiliedig ar y canfyddiadau a gasglwyd gan garfan fechan o ymgeiswyr LCA a benderfynodd beidio â pharhau â'u haddysg, mae’n ymddangos mai rhesymau ariannol sydd i'w gyfrif am hynny yn bennaf.

**Pa effaith y mae'r LCA yn ei chael ar ymgysylltiad dysgwyr â'u hastudiaethau?**

13.3 Mae'r LCA yn cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau presenoldeb ymhlith y rhai sy'n ei dderbyn, gan fod yr ofn o golli eu taliadau yn gymhelliant cryf iddynt fynychu. Ceir rhywfaint o dystiolaeth anecdotaidd gan Ganolfannau Dysgu bod y cynnydd diweddar yn y lwfans i £40 wedi gwella lefelau presenoldeb ymhellach. Mae rhywfaint o dystiolaeth anecdotaidd hefyd gan Ganolfannau Dysgu eu bod wedi gweld cynnydd yn nifer y derbynyddion LCA sy’n astudio yn eu sefydliadau yn ystod y flwyddyn academaidd hon (2023/24) ac adlewyrchir hynny gan gynnydd bach yn nifer y ceisiadau am LCA a gymeradwywyd a adroddwyd yn nata Gwybodaeth Reoli'r SLC.

13.4 Awgryma’r dystiolaeth hefyd fod y rhan fwyaf o ddysgwyr yn cymryd mwy o ran mewn gwersi a gweithgareddau a theithiau allgyrsiol oherwydd eu bod yn derbyn yr LCA. Mae effaith ganfyddedig y lwfans ar gyflawniad addysgol yn llai amlwg. Mae Dysgwyr a Chanolfannau Dysgu yn credu bod cysylltiad rhwng presenoldeb cryf a chyflawniad addysgol, ac mae’r dystiolaeth a

gasglwyd yn awgrymu bod yr LCA yn caniatáu i ddysgwyr ganolbwyntio ar eu hastudiaethau o ganlyniad i'r ffaith ei fod yn lleihau pwysau ariannol.

13.5 Er bod y dystiolaeth yn awgrymu'n gryf bod dyfarnu'r LCA ar sail lefelau presenoldeb derbyniol yn effeithiol, mae tystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr adolygiad hwn yn dangos y gallai gofynion presenoldeb llym roi dysgwyr, yn enwedig dysgwyr anabl, y rhai sy'n wael eu hiechyd a’r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu, dan anfantais. Colli taliadau oedd y broblem fwyaf a godwyd gan dderbynyddion yr LCA yn ystod yr adolygiad a chanfuwyd bod hyn yn achosi llawer o boen meddwl a phryder i ddysgwyr. Roedd dysgwyr o'r farn ei bod yn arbennig o annheg eu bod yn colli'r taliad cyfan o £40 am fethu dim ond un wers neu gyfnod cofrestru. Mae llawer o ddysgwyr wedi cael anhawster bodloni'r gofynion presenoldeb a osodir gan eu Canolfan Ddysgu ac roedd ystod eang o ffactorau i gyfrif am yr absenoldebau anawdurdodedig hyn, gan gynnwys problemau ar ochr y Canolfannau Dysgu. Byddem yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i sut y gellid ymgorffori mwy o hyblygrwydd yn y model talu ar sail presenoldeb ac a fyddai symud tuag at lwfansau dyddiol, yn hytrach na lwfansau wythnosol, yn achosi llai o straen a phryder i ddysgwyr.

**Pa effaith y mae'r LCA yn ei chael ar allu dysgwyr i ymdopi â phwysau ariannol?**

13.6 Mae'r LCA yn lleddfu straen a phryder ariannol ymhlith dysgwyr a'u teuluoedd ac mae'n chwarae rhan allweddol o ran cyfrannu at lesiant dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o'r derbynyddion yn ystyried ei fod yn hanfodol neu'n eithaf pwysig a'i fod yn lleihau dibyniaeth dysgwyr ar eu teuluoedd am gymorth ariannol. O gymharu, ceir tystiolaeth ddiamheuol bod y rhai nad ydynt yn derbyn LCA sy'n dod o aelwydydd incwm isel yn wynebu caledi ariannol, yn mynd heb eitemau hanfodol, ac yn bryderus iawn am eu sefyllfaoedd ariannol.

**Y meini prawf cymhwystra a gwerth y cymorth**

13.7 Canfu'r gwaith maes fod consensws cyffredinol y dylai'r LCA barhau, ac y dylai ganolbwyntio ar gefnogi dysgwyr o aelwydydd incwm isel yn ogystal â’r grwpiau esempt sy'n cael eu cwmpasu gan y canllawiau ar hyn o bryd.

Yn seiliedig ar yr adborth a gafwyd, byddem yn argymell fel mater o flaenoriaeth bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ymestyn y grwpiau esempt cymwys i gynnwys gofalwyr ifanc yn ogystal â dysgwyr a oedd yn cael Prydau Ysgol am Ddim yn ystod Blwyddyn 11.

13.8 Roedd consensws cyffredinol ymhlith yr holl gyfranwyr bod y trothwy incwm aelwydydd a osodwyd ar gyfer yr LCA bellach yn rhy isel ac nad yw wedi codi yn unol â'r cynnydd mewn incwm a chwyddiant. Mae tystiolaeth bod y trothwyon incwm aelwydydd ar gyfer rhai cronfeydd addysg bellach sydd ar gael y tu allan i Gymru, megis y Gronfa Bwrsariaeth yn Lloegr, yn cael eu hadolygu a'u cynyddu ar hyn o bryd yn unol â'r cynnydd mewn cyflogau. Roedd yn briodol i Lywodraeth Cymru fod wedi cynnal y trothwyon incwm aelwydydd yn dilyn yr adolygiad blaenorol er mwyn sicrhau bod y lwfans yn cael ei dargedu at y rhai â'r angen mwyaf. O ystyried y cynnydd mewn cyflogau a budd-daliadau a welwyd ers yr adolygiad hwnnw yn 2013/14, byddai'n briodol yn awr i Lywodraeth Cymru ymchwilio i godi'r trothwyon incwm hyn rhyw ychydig fel bod yr LCA yn parhau i gefnogi'r garfan o ddysgwyr y mae angen cymorth ariannol arnynt fwyaf.

13.9 Byddem yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru ystyried y tri opsiwn a ganlyn ar gyfer y dyfodol, a'r opsiwn cyntaf yw'r opsiwn yr ydym yn ei argymell. Mae'n bwysig nodi, er bod y tri opsiwn hyn yn seiliedig ar incwm unigolion, byddai angen cymhwyso'r trothwyon ar lefel aelwyd er mwyn pennu cymhwystra ar gyfer yr LCA yn y dyfodol:

- cysoni trothwyon yr LCA â throthwyon y cyflog byw gwirioneddol, sy'n £12.00 yr awr ar hyn o bryd. Gallai cysoni trothwy'r LCA â'r incwm y gall person ddisgwyl ei ennill drwy weithio'n llawn amser mewn swydd â chyflog byw gwirioneddol fod yn briodol yn y dyfodol. Er enghraifft, cyflog blynyddol presennol rhywun ar gyflog byw y DU fyddai £23,400[123], sydd £2,583 yn uwch na throthwy incwm aelwydydd blynyddol presennol yr LCA. Caiff y gyfradd ei hailgyfrifo'n flynyddol, a'i chyhoeddi bob mis Tachwedd, ac mae'n ystyried costau byw gwirioneddol

[123] Wedi'i gyfrifo ar sail £12 x 37.5x 52 = £23,4000 fel y nodir yma: FAQs | Living Wage Foundation

- cysoni ag un o'r trothwyon isaf ar gyfer cyllid cynhaliaeth myfyrwyr Addysg Uwch (AU) (sydd, ar hyn o bryd, yn £18,370 neu lai, hyd at £25,000 a hyd at £35,000). Efallai mai'r trothwy o £25,000 fyddai'r mwyaf priodol ar gyfer yr LCA, o ystyried meini prawf cymhwystra presennol y cynllun, a byddai dewis un trothwy yn helpu i sicrhau y gellir gweinyddu'r cynllun yn effeithlon. Byddai cysoni'r trothwy ag un o'r lefelau AU hyn hefyd yn sicrhau y gellid adolygu meini prawf yr LCA ar yr un pryd â chymorth ar gyfer AU
- cysoni gydag enillion wythnosol cyfartalog fel y rhai ar draws Prydain Fawr, a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn fisol[124]. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn ddata ar gyfer mis Chwefror 2024, ac maent yn nodi mai'r enillion wythnosol cyfartalog ym Mhrydain Fawr, wedi'u haddasu'n dymhorol, yw £672 (cyfanswm cyflog) a £633 (cyflog rheolaidd). O ystyried cyfanswm y tâl, byddai hynny'n rhoi cyflog blynyddol o hyd at £35,000. Un anfantais i ddefnyddio data Prydain Fawr yw na fyddai'n ystyried enillion wythnosol cyfartalog yng Nghymru yn unig, sy'n na chyfartaleddau Prydain Fawr yn gyffredinol. Dewis arall fyddai ystyried data ar lefel Cymru megis enillion blynyddol gros canolrifol oedolion amser llawn sy'n gweithio yng Nghymru, sef £32,471 ym mis Ebrill 2023 yn yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion[125]. Fodd bynnag, y brif broblem gyda defnyddio data enillion cyfartalog yw eu bod yn gyffredinol yn ddulliau llai effeithiol o dargedu'r rhai sy'n byw o dan drothwy tlodi penodol.

13.10 Roedd cefnogaeth gyffredinol i gynnal y maen prawf LCA presennol sy'n gwahaniaethu rhwng incwm aelwydydd ar sail nifer y dibynyddion sy'n dal mewn addysg ac sy'n byw ar yr aelwyd. O'r herwydd, byddem yn awgrymu cynnwys cynnydd bach mewn unrhyw drothwyon aelwydydd newydd i adlewyrchu hyn.

124 Average weekly earnings in Great Britain - Office for National Statistics (ons.gov.uk)
125 Arolwg blynyddol o oriau ac enillion: 2023 | LLYW.CYMRU

13.11 Roedd croeso cyffredinol i'r cynnydd a wnaed i'r taliadau ym mis Ebrill 2023, er bod y rhan fwyaf o ddysgwyr yn ei chael hi'n anodd nodi'r manteision penodol a oedd yn deillio ohono oherwydd costau cynyddol. Er bod awydd i hyn gael ei gynyddu ymhellach, mae adborth y Canolfannau Dysgu yn awgrymu nad yw hyn yn flaenoriaeth ac y byddai'n well ganddynt weld carfan ehangach o ddysgwyr yn cael cymorth. Mae hefyd yn wir bod yr LCA, ar hyd at £1,600 y flwyddyn[126], yn cymharu'n ffafriol â'r cymorth ariannol sydd ar gael ar draws gwledydd eraill y DU, yn enwedig o ystyried mai'r rhai sy'n derbyn yr LCA mewn colegau AB sydd hefyd fwyaf tebygol o gael cymorth ychwanegol gan y Gronfa Ariannol Wrth Gefn.

13.12 O'r herwydd, byddem yn argymell na ddylid gwneud unrhyw newid ar unwaith i werth y cymorth, ond bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ei gynyddu'n flynyddol o ddechrau'r flwyddyn academaidd 2025/26. Byddem yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru ystyried dau opsiwn ar gyfer cynyddu taliadau yn y dyfodol, a'r opsiwn cyntaf yw'r opsiwn y byddem ei argymell:

- cynnydd blynyddol yn unol â chwyddiant fel y nodir yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Er enghraifft, mae'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr diweddaraf yn nodi mai'r gyfradd chwyddiant flynyddol hyd at fis Mawrth 2024 oedd 3.8 y cant[127]. Byddai'n bosibl defnyddio mynegeion chwyddiant eraill, megis y Mynegai Chwyddiant a Phrisiau, er bod y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn cael ei fabwysiadu'n fwy cyffredin ar gyfer cyfrifo cynnydd i bensiynau'r wladwriaeth a budd-daliadau'r llywodraeth
- cynnydd i fudd-daliadau cenedlaethol. Mae budd-daliadau fel arfer yn cael eu huwchraddio bob blwyddyn ym mis Ebrill i adlewyrchu'r gyfradd chwyddiant ar gyfer y mis Medi blaenorol er bod cyfradd y cynnydd yn amrywio o un budd-dal i'r llall ac nid yw bob amser yn cyd-fynd â chyfradd chwyddiant oherwydd penderfyniadau gwleidyddol[128]. Ym mis Ebrill 2024 er enghraifft, gwelwyd cynnydd o

126 Wedi'i gyfrifo ar sail 40 wythnos y flwyddyn.
127 Mynegeion chwyddiant a phrisiau - Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)
128 Benefit and pension rates 2023 to 2024 - GOV.UK (www.gov.uk)

6.7 y cant yn y mwyafrif o fudd-daliadau tra bod rhai wedi codi 8.5 y cant.

**Priodoldeb parhaus yr LCA**

13.13 Mae'r LCA yn bodoli o fewn arlwy o gymorth cymhleth ac anghyfartal i ddysgwyr addysg bellach ledled Cymru. Fel man cychwyn, byddai'n werth ystyried sut y gellid mynd i'r afael â'r annhegwch strwythurol hwn, er enghraifft drwy ddarparu cludiant am ddim a phrydau am ddim i ddysgwyr o aelwydydd incwm isel ar draws ysgolion a cholegau AB. Mae'r rhan fwyaf o'r derbynyddion yn gwario'r LCA ar gostau sy'n ymwneud â'u haddysg, ac mae'r rhan fwyaf o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn yn cael ei gwario ar yr un darpariaethau ar draws colegau h.y. bwyd yn yr ysgol neu'r coleg, llyfrau neu offer ar gyfer yr ysgol neu'r coleg, neu gostau teithio i'r ysgol neu'r coleg. Pe bai modd talu'r costau uniongyrchol hyn sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu ag addysg drwy ddulliau eraill, yna byddai'r angen am yr LCA (a'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn) yn lleihau yn y dyfodol.

13.14 Ar hyn o bryd mae'r lwfans o £40 yn fwy buddiol i rai dysgwyr nag eraill gan nad yw'n ystyried pa gymorth ariannol arall y gallai dysgwyr ei gael a beth yw'r costau addysg gwirioneddol. Yn ei hanfod, nid yw'r LCA yn gwahaniaethu rhwng dysgwyr ar sail pa gyllid arall y gallent ei gael a'r costau y maent yn debygol o'u hwynebu. Mae'n bosibl bod hyn wedi'i atgyfnerthu gan y ffaith bod dros draean y derbynyddion LCA a holwyd wedi dweud eu bod wedi cynilo (o leiaf rhywfaint) o'u LCA ar gyfer y dyfodol.

13.15 Mae nifer y dysgwyr sy'n cael eu cefnogi gan y cynllun LCA wedi mwy na haneru ers 2010/11, o ychydig dros 36,000 i ychydig dros 16,000 erbyn 2023/24, y gellir ei briodoli fwy na thebyg i'r ffaith nad yw trothwyon incwm wedi newid yn ystod y cyfnod hwn. Argymhellodd y gwerthusiad blaenorol y dylai'r cynllun gael ei dargedu'n well at y dysgwyr mwyaf anghenus h.y. y rhai o aelwydydd incwm isel ac o aelwydydd sydd â brodyr a chwiorydd eraill sy'n dal i fod mewn addysg. Fodd bynnag, mae'r adborth a gasglwyd drwy'r adolygiad hwn yn awgrymu bod cyfran y dysgwyr 16 i 18 oed mewn addysg sy'n cael eu cefnogi drwy'r LCA, sef 25 y cant, yn rhy isel bellach.

Ar y sail na wneir unrhyw newidiadau ehangach i’r cymorth sydd ar gael i ddysgwyr ôl-16, mae dadl gref y dylai’r LCA gefnogi carfan ychydig yn ehangach o ddysgwyr a byddai mabwysiadu trothwy incwm aelwydydd uwch yn caniatáu ar gyfer hynny.

13.16 Rydym o'r farn, fodd bynnag, mai'r ateb hirdymor mwyaf priodol fyddai mynd i’r afael â’r cymorth addysg bellach yn ehangach, er mwyn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei dargedu tuag at fynd i’r afael â’r costau gwirioneddol yr eir iddynt gan ddysgwyr yn sgil ymgysylltu ag addysg bellach, waeth beth fo’u dewis o leoliad. Defnyddir y Gronfa Ariannol Wrth Gefn yn effeithiol at y diben hwn i gefnogi dysgwyr colegau AB gyda chostau addysgol fel cludiant, bwyd ac offer cwrs. Byddai cynyddu trothwy incwm aelwydydd yr LCA yn galluogi colegau AB i gefnogi mwy o ddysgwyr drwy’r Gronfa Ariannol Wrth Gefn, gan fod y rhan fwyaf yn defnyddio’r trothwyon hyn i bennu cymhwystra ar gyfer y Gronfa Ariannol Wrth Gefn.

**Gwersi methodolegol eraill o'r adolygiad hwn**

13.17 Mae’r adolygiad hwn yn seiliedig yn bennaf ar dystiolaeth ansoddol a gasglwyd gan randdeiliaid, Canolfannau Dysgu, dysgwyr, dysgwyr blaenorol a rhieni am effeithiolrwydd canfyddedig ac effaith yr LCA ar benderfyniadau, presenoldeb, ymgysylltiad a chyflawniadau addysgol dysgwyr. Er ei fod wedi casglu rhywfaint o dystiolaeth wrthffeithiol ansoddol, megis gan ymgeiswyr aflwyddiannus am LCA, dysgwyr nad ydynt yn derbyn LCA, a thystiolaeth fwy cyfyngedig o Ganolfannau Dysgu yn Lloegr sydd ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr, nid yw wedi ystyried unrhyw ffynonellau data eilaidd meintiol a fyddai wedi caniatáu asesiad mwy cadarn o'r sefyllfa wrthffeithiol. Byddai'n werthfawr i Lywodraeth Cymru gomisiynu dadansoddiad meintiol o ffynonellau data eilaidd yn y dyfodol, er mwyn gwella’r dystiolaeth am effaith yr LCA yng Nghymru.

13.18 Nid oeddem wedi bwriadu cynnal arolwg ar-lein o ymgeiswyr LCA yn wreiddiol ond roedd cael mynediad at sampl fawr o ymgeiswyr LCA yn golygu bod y rhaglen waith wedi cael ei diwygio er mwyn ystyried hynny. Mae'r gyfradd ymateb uchel yn awgrymu y byddai'n gymharol hawdd a chosteffeithiol cynnal arolygon blynyddol neu ddwywaith y flwyddyn yn y

dyfodol i gasglu adborth gan ymgeiswyr ac i asesu'r gwahaniaeth y mae'r LCA yn ei wneud.

13.19 Byddem hefyd yn awgrymu bod unrhyw werthusiad o’r LCA yn y dyfodol yn mabwysiadu arolwg ar-lein cynhwysfawr. Byddai’n werth canfod a oes unrhyw ymatebwyr sy'n astudio y tu allan i Gymru, gan y gellid cymharu’r data ar gyfer y garfan hon â’r rhai sy’n astudio yng Nghymru a byddai’n ddefnyddiol o ran goresgyn y problemau a brofwyd wrth geisio adnabod a recriwtio dysgwyr drwy Ganolfannau Dysgu yn Lloegr.

13.20 Mae'r anhawster o ran cael adborth gan rieni, oherwydd dibyniaeth y tîm ymchwil ar Ganolfannau Dysgu i ddod o hyd i'r rhai sy'n barod i gymryd rhan, yn awgrymu y gallai fod yn werth ymchwilio i ddull arall mewn unrhyw astudiaethau tebyg yn y dyfodol. O ystyried llwyddiant yr arolwg ar-lein ar gyfer dysgwyr, efallai y byddai’n werth gofyn i ymgeiswyr LCA rannu dolen arolwg i rieni gyda’u rhieni neu warcheidwaid i’w gwblhau neu hyrwyddo’r cyfle i gyfrannu at yr ymchwil drwy gyfweliad.

13.21 Yn olaf, roedd yr adborth a gasglwyd gan ddysgwyr presennol drwy'r arolwg ar-lein a thrafodaethau grwpiau ffocws ansoddol yn gyson debyg ond roedd y rhai a oedd wedi derbyn LCA yn y gorffennol ac a gyfrannodd at yr ymchwil yn mynegi barn fwy gwahanol. Un rheswm posibl am hyn yw tuedd yn gysylltiedig a'r gallu i gofio, sef bod y cyfranwyr wedi methu â chofio’n gywir eu profiadau o’r cynllun.

**Argymhellion**

13.22 Rydym yn cynnig yr argymhellion canlynol i Lywodraeth Cymru eu hystyried:

**Argymhelliad 1:** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i weinyddu’r LCA yng Nghymru, a’i bod yn canolbwyntio ar gefnogi dysgwyr o aelwydydd incwm isel.

**Argymhelliad 2**: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i ehangu’r grwpiau sy'n esempt o'r LCA i gynnwys gofalwyr ifanc a'r rhai sydd wedi cael prydau ysgol am ddim.

**Argymhelliad 3**: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn ystyried sut i fynd i'r afael â'r annhegwch ehangach o ran mynediad i gymorth ar draws addysg bellach yng Nghymru, ac yn archwilio'n benodol sut y gallai ddarparu cludiant am ddim a phrydau am ddim i ddysgwyr o'r aelwydydd incwm isel ar draws lleoliadau ysgolion a cholegau AB. Dylai Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ddisgrifio'n fanylach pa gludiant sydd ar gael ar hyn o bryd a beth fyddai'r gost o lenwi'r bylchau hyn.

**Argymhelliad 4**: Pe bai adnoddau ariannol yn caniatáu, byddem yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynyddu'r trothwyon incwm aelwydydd ar gyfer dyfarnu'r LCA, gan gadw'r model trothwy dwy haen sydd ar waith ar hyn o bryd i ddarparu ar gyfer amgylchiadau aelwydydd â niferoedd gwahanol o ddibynyddion. Byddem yn argymell bod y trothwy incwm aelwydydd yn cael ei gysoni â'r cyflog byw gwirioneddol, sydd ar hyn o bryd yn gyflog blynyddol o £23,400 os yw rhywun yn gweithio'n llawn amser.

**Argymhelliad 5**: Rydym yn argymell na ddylid gwneud unrhyw newid i werth y lwfans ar hyn o bryd. Pe bai adnoddau ariannol yn caniatáu, byddem yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried cynyddu symiau yn y dyfodol yn unol â'r cynnydd blynyddol mewn chwyddiant fel y nodir yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr neu yn unol â chodiadau canrannol mewn cymorth grant i fyfyrwyr addysg uwch.

**Argymhelliad 6**: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn sicrhau bod ysgolion a cholegau AB yn gwneud mwy o ymdrech i godi ymwybyddiaeth o'r LCA a'i hyrwyddo yn gynharach ymhlith dysgwyr Blwyddyn 11 a allai fod yn gymwys i'w gael, yn enwedig y rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim a grwpiau agored i niwed fel y rhai â phrofiad o fod mewn gofal.

**Argymhelliad 7**: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru a'i sefydliadau rhanddeiliaid yn ymchwilio i sut y gellir gwella dealltwriaeth gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr allweddol o'r LCA fel eu bod mewn sefyllfa well i hysbysu dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal a gofalwyr

ifanc am yr LCA, cefnogi eu cais a sicrhau bod gan y dysgwr fynediad uniongyrchol i'r arian ar ôl iddynt ei dderbyn.

**Argymhelliad 8**: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru a'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn ystyried sut y gellid symleiddio'r iaith a'r derminoleg a ddefnyddir ar ffurflen gais LCA a'i gwneud yn fwy hygyrch i bobl ifanc.

**Argymhelliad 9**: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru a'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn archwilio sut y gallai Canolfannau Dysgu fabwysiadu mwy o hyblygrwydd o fewn eu polisïau presenoldeb a'u gweithgarwch monitro i sicrhau nad yw derbynyddion yr LCA yn colli taliadau. Efallai hefyd y byddai'n werth i Lywodraeth Cymru archwilio a fyddai model taliadau dyddiol, yn hytrach nag wythnosol, ar gyfer yr LCA yn achosi llai o straen a phryder i ddysgwyr.

**Argymhelliad 10**: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried comisiynu dadansoddiad meintiol o ffynonellau data eilaidd yn y dyfodol, er mwyn gwella'r dystiolaeth am effaith yr LCA yng Nghymru.

## Cyfeiriadau


Asiantaeth Ariannu Addysg a Sgiliau (2023) *16 to 19 Bursary Fund guide 2023 to 2024 academic year.* Ar gael yn: 16 to 19 Bursary Fund guide 2023 to 2024 academic year - GOV.UK (www.gov.uk)

Asiantaeth Ariannu Addysg a Sgiliau (2023) *16 to 19 education: financial support for students.* Ar gael yn: 16 to 19 education: financial support for students - GOV.UK (www.gov.uk)

Asiantaeth Ariannu Addysg a Sgiliau (2023) *Free meals in further education funded institutions guide: 2023 to 2024 academic year.* Ar gael yn: Free meals in further education funded institutions guide: 2023 to 2024 academic year - GOV.UK (www.gov.uk)

Awdurdod Addysg (dim dyddiad) *Free School Meals / Uniform Grants.* Ar gael yn: Free School Meals / Uniform Grants | Education Authority Northern Ireland (eani.org.uk) Fel ar 3 Mehefin 2024

Awdurdod Addysg (dim dyddiad) *Home to School Transport.* Ar gael yn: Home to School Transport | Education Authority Northern Ireland (eani.org.uk)

Bevan Foundation (2020) *Learning a living, better support for post 16 learners.* Ar gael yn: Learning a living, better support for post 16 learners - Bevan Foundation.

Coleg Caerdydd a'r Fro (dim dyddiad) *Lwfans prydau bwyd.* Ar gael yn: Lwfans prydau bwyd - Coleg Caerdydd a'r Fro (cavc.ac.uk).

Coleg Cambria (dim dyddiad) *Teithio am Ddim a Brecwast/Cinio.* Ar gael yn: Teithio am Ddim a Brecwast < Coleg Cambria.

Coleg Gwent (dim dyddiad) *Cymorth Ariannol.* Ar gael yn: Cymorth Ariannol - Coleg Gwent.

Coleg Penybont (dim dyddiad) *Cyllid myfyrwyr.* Ar gael yn: Cyllid myfyrwyr - Coleg Penybont (bridgend.ac.uk).

Coleg Sir Benfro (dim dyddiad) *Llwybrau Ymgysylltu Hyfforddeiaethau.* Ar gael yn: Llwybrau Ymgysylltu Hyfforddeiaethau (dim dyddiad) - Coleg Sir Benfro.

Coleg y Cymoedd (dim dyddiad) *Cymorth Ariannol.* Ar gael yn: Cymorth Ariannol - Coleg y Cymoedd.

Cyllid Myfyrwyr Cymru (2024) *Hysbysiadau Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru.* Ar gael yn: Hysbysiadau Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru ar gyfer ymarferwyr cyllid myfyrwyr | Cyllid Myfyrwyr Cymru.

Cyllid Myfyrwyr Cymru (dim dyddiad) *Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (AB)* Ar gael yn: Grant Dysgu Llywodraeth Cymru, Addysg Bellach | Cyllid Myfyrwyr Cymru.

Cynulliad Gogledd Iwerddon (2011) *Official Report Committee for Employment and Learning.* Ar gael yn: Review of Education Maintenance Allowance: Departmental Briefing (niassembly.gov.uk)

*Deddf Cynhyrchion Mislif (Darpariaeth Am Ddim) (Gogledd Iwerddon) 2022 (legislation.gov.uk) (Saesneg yn unig) Ar gael yn: Period Products (Free Provision) Act (Northern Ireland) 2022 (legislation.gov.uk).*

Grŵp Llandrillo Menai (dim dyddiad) *Eich Lles yn y Coleg.* Ar gael yn: Eich Lles yn y Coleg | Grŵp Llandrillo Menai (gllm.ac.uk) Fel ar 3 Mehefin 2024

Grŵp Llandrillo Menai (dim dyddiad) *Twf Swyddi Cymru+.* Ar gael yn: Twf Swyddi Cymru+ | Busnes@LlandrilloMenai (gllm.ac.uk).

Living Wage Foundation (dim dyddiad) *FAQs.* Ar gael yn: FAQs | Living Wage Foundation.

Llywodraeth Cymru (2014) *Gwerthusiad o'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg*. Ar gael yn: Gwerthusiad o'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru (2017) *Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg.* Ar gael yn: Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru (2021), *Rhaglen Lywodraethu: diweddariad* Ar gael yn: Rhaglen Lywodraethu: diweddariad | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru (2022) *Dangosyddion cenedlaethol a cherrig milltir cenedlaethol i Gymru.* Ar gael yn: Dangosyddion cenedlaethol a cherrig milltir cenedlaethol ar gyfer Cymru [HTML] | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru (2023) *Arolwg blynyddol o oriau ac enillion: 2023.* Ar gael yn: Arolwg blynyddol o oriau ac enillion: 2023 | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru (2023) *Cymru yw'r wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i gynyddu'r taliad Lwfans Cynhaliaeth Addysg* Ar gael yn: Cymru yw'r wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i gynyddu'r taliad Lwfans Cynhaliaeth Addysg | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru (2023) *Cynllun Gweithredu Cymru sy'n Falch o'r Mislif* Ar gael yn: Cynllun Gweithredu Cymru sy'n Falch o'r Mislif [HTML] | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru (2024) *Lwfansau Cynhaliaeth Addysg (LCA) a ddyfarnwyd yng Nghymru.* Ar gael yn: Lwfansau Cynhaliaeth Addysg (LCA) a ddyfarnwyd yng Nghymru | LLYW.CYMRU.

Northern Ireland Direct (dim dyddiad) *Care to Learn scheme.* Ar gael yn: Care to Learn scheme | nidirect.

Northern Ireland Direct (dim dyddiad) *Extra financial help for students.* Ar gael yn: Extra financial help for students | nidirect.

Northern Ireland Direct (dim dyddiad) *School uniform and uniform grants.* Ar gael yn: School uniform and uniform grants | nidirect.

Sefydliad Bwyd a Diod y Cenhedloedd Unedig. (2015) *The Food Insecurity Experience Scale.* Ar gael yn: Food Insecurity Experience Scale | Voices of the Hungry | Food and Agriculture Organization of the United Nations (fao.org)

Sefydliad Nuffield (2022) *The long-term impact of the Education Maintenance Allowance.* Ar gael yn: The long-term impact of the Education Maintenance Allowance - Nuffield Foundation.

Student Information Scotland (dim dyddiad) *Funding your further education course* Available at: Funding your college education - Student Information Scotland.

Tydfil Training (dim dyddiad) *Jobs Growth Wales+.* Ar gael yn: Jobs Growth Wales+ - Tydfil Training.

The Scottish Government (2022) *Help with school clothing costs.* Ar gael yn: Help with school clothing costs - mygov.scot

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021) *Conceptions in England and Wales.* Ar gael yn: Conceptions in England and Wales - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2024) *Average weekly earnings in Great Britain: April 2024.* Ar gael yn: Average weekly earnings in Great Britain - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk) .

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (dim dyddiad) *Mynegeion chwyddiant a phrisiau* Ar gael yn: Mynegeion chwyddiant a phrisiau - Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk).

Ymddiriedolaeth Sutton (dim dyddiad) *US Programme.* Ar gael yn: Study in the USA with the Sutton Trust - US Programme.

Yr Adran Addysg (2014) *Evaluation of the 16 to 19 Bursary Fund.* Ar gael yn: Evaluation of the 16 to 19 Bursary Fund - GOV.UK (www.gov.uk)

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2023) *Benefit and pension rates 2023 i 2024.* Ar gael yn: Benefit and pension rates 2023 to 2024 - GOV.UK (www.gov.uk)